YSGOLION YR 21AIN GANRIF

# Lleoedd Ysgol Gynradd i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd

## DOGFEN YMGYNGHORI 2023

**Y CYFNOD YMGYNGHORI:**
**3 MAI 2023 – 30 MEHEFIN 2023**



Gellir darparu'r ddogfen hon mewn Braille.
Mae fersiwn gryno o'r ddogfen hon ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa
Gellir darparu gwybodaeth mewn ieithoedd cymunedol eraill hefyd os oes angen.
Cysylltwch â ni mewn e-bost i ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu ar 029 2087 2720 i drefnu hyn

CRYFACH
TECACH
GWYRDDACH

CARDIFF
CAERDYDD

# Tabl Cynnwys

**Cyflwyniad**

**Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?**

**Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?**

**Tabl Crynodeb Opsiwn**

**Ymgynghoriad**

Barn plant ar y cynigion arfaethedig

Sut mae cael rhagor o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

**Mae eich barn yn bwysig i ni**

**Eglurhad o dermau yn y ddogfen hon**

**Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?**

Ymrwymiadau 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' Caerdydd i ddysgwyr

Sut mae newidiadau i boblogaeth yn y ddinas yn effeithio ar ysgolion?

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd

Darparu digon o lefydd cyfrwng Saesneg a Chymraeg

**Ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd**

Cyfrwng Saesneg

Cyfrwng Cymraeg

Darpariaeth arall

**Faint o leoedd ysgol gynradd sydd eu hangen?**

**Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg**

Nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd Saesneg lleol

Cyfanswm y plant sy'n mynychu ysgolion cynradd Saesneg yn yr ardal

Ble mae'r plant hyn yn byw?

Y galw am lefydd ysgol cynradd cymunedol Saesneg yn y dyfodol

**Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg**

Nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd Cymraeg lleol

Cyfanswm y plant sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg yn yr ardal

Ble mae'r plant hyn yn byw?

Y galw yn y dyfodol am lefydd mewn ysgolion cynradd cymunedol Cymraeg

Darpariaeth cyfrwng Cymraeg – twf wedi'i dargedu

Data Derbyn Ysgolion – Ebrill 2023

**Map ardal**

**Safleoedd Ysgol**

Safle Ysgol Gynradd Allensbank

Safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica

Safle Ysgol Mynydd Bychan

**Ansawdd a Safonau Ar Hyn o Bryd**

Ysgol Gynradd Allensbank

# Tabl Cynnwys


Ysgol Gynradd Gladstone

Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica

Ysgol Mynydd Bychan

**Newidiadau arfaethedig i leoedd ysgol Cymraeg a Saesneg**

Opsiwn 1

Opsiwn 2

Opsiwn 3

**Gwybodaeth sy'n berthnasol i bob opsiwn**

Amrywiaeth cymunedau ysgol

Beth fyddai'r effaith ar symudedd disgyblion?

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Leiafrifol?

Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?

**Trefniadau Llywodraethu**

Diddymu Cyrff Llywodraethu a sefydlu Corff Llywodraethu newydd

Ffederasiwn

Cydweithio

**Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?**

Safonau

Profiadau dysgu ac addysgu

Gofal, cymorth ac arweiniad

Arwain a Rheoli

**Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth ysgol uwchradd?**

**Sut byddai newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?**

**Opsiynau eraill a ystyriwyd**

**Trefniadau Derbyn i Ysgolion**

**Trefniadau Teithio i Ddysgwyr**

**Ariannu'r newidiadau arfaethedig**

Cyllid cyfalaf

Cyllid refeniw

**Effaith y cynigion ar y Gymraeg**

**Cydraddoldeb**

**Effaith Gymunedol**

**Tarfu Posibl i Ddisgyblion**

**Y camau nesaf, sut i roi gwybod eich barn a ffurflen adborth**

Dyddiadau Allweddol

Cyfnod ymgynghori

Hysbysiad Statudol

Penderfynu ar y cynigion

Hysbysu'r penderfyniad

**Mae eich barn yn bwysig i ni**





Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/YsgolionCynraddCathaysaGabalfa

# Cyflwyniad

## Beth yw pwrpas y llyfryn hwn?

Mae'r llyfryn hwn ar gyfer rhieni/gofalwyr, staff ysgolion, llywodraethwyr ysgolion ac unrhyw un sydd â diddordeb mewn addysg yng Nghaerdydd.

Mae'n nodi'r newidiadau arfaethedig diwygiedig i'r ddarpariaeth gynradd sy'n gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Bydd o ddiddordeb arbennig i rieni/gofalwyr plant sy'n mynychu, neu'n disgwyl mynychu, Ysgol Mynydd Bychan, Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

Rydym am i bawb ddeall yr hyn sy'n cael ei gynnig, fel y gallwch ddweud wrthym beth yw eich barn am y newidiadau.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Mae'r Cyngor yn ceisio barn y gymuned ar gynigion i:

- wneud newidiadau i'r modd y mae ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg yn cael eu trefnu, gan gadw nifer cyfatebol o leoedd neu gael gostyngiad bach mewn lleoedd o gymharu â'r trefniadau presennol, ac
- ehangu darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg yn Ysgol Mynydd Bychan

Cynigir y bydd y newidiadau arfaethedig yn:

- cynorthwyo pob ysgol i barhau i wella addysg ar gyfer eu holl ddysgwyr
- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau y mae'n eu gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn gallu eu gwasanaethu yn y dyfodol
- cynorthwyo ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol, gyda chyllidebau ysgol sefydlog
- cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr
- cynyddu lleoedd cynradd cyfrwng Cymraeg gan un Dosbarth Mynediad (210 disgybl oedran cynradd)
- cadarnhau lleoedd cynradd cyfrwng Saesneg â lefel briodol o lefydd gwag.

Mae'r Cyngor wedi nodi tri opsiwn i ad-drefnu'r ddarpariaeth ysgolion yn yr ardal. Mae tabl 1 ar dudalen 6 a7 yn crynhoi'r newidiadau a gynigir.  Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu rhoi ar waith o fis Medi 2025.

Gellir gweld rhagor o wybodaeth am sut y byddai'r newidiadau hyn yn cael eu gweithredu, a beth fyddent yn eu golygu i bob ysgol, ar dudalennau 39 -63.

## Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

Mae'r Cyngor yn awgrymu tri opsiwn I ad-drefnu ysgolion yn yr ardal

Mae Tabl 1 yn dangos y newidiadau arfaethedig. Byddai'r newidiadau hyn yn dod i rym o fis Medi 2025.

| Tabl Opsiynau | | |
|---|---|---|
| Opsiwn | Ysgolion | Cynnig |
| Opsiwn 1 | Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone | Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone, drwy<br>o Gau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol<br><br>o Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol.<br><br>o Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd gyda meithrinfa ar y safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica. |
| | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.<br><br>Sefydlu meithrinfa yn yr ysgol |
| | Ysgol Mynydd Bychan | Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank<br><br>Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420.<br><br>Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96 |

| Opsiwn | Ysgolion | Cynnig |
|---|---|---|
| Opsiwn 2 | Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone | Cydleoli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle a rennir, drwy:<br>o Drosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i'r safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica.<br><br>o Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd i 210.<br><br>o Newid ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol.<br><br>o Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96. |
| | Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan.<br><br>Sefydlu meithrinfa yn yr ysgol |
| | Ysgol Mynydd Bychan | Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank<br><br>Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420.<br><br>Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96 |

# Beth rydyn ni'n cynnig ei wneud?

| Opsiwn | Ysgolion | Cynnig |
|---|---|---|
| Opsiwn 3 | Ysgol Gynradd Allensbank | Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan<br><br>Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 o leoedd i 192 o leoedd. |
| | Ysgol Mynydd Bychan | Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank<br><br>Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd i 420.<br><br>Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96 |

Byddai opsiwn 2 a 3 yn galluogi rhoi mwy o ystyriaeth i gydweithredu/ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone.

Mae ysgolion sy'n cydweithio, neu'n ffederaleiddio o dan un Corff Llywodraethu, yn cydweithio ar rannu blaenoriaethau ac arbenigedd. Mae hyn yn cefnogi ysgolion ar wahân i wneud gwell defnydd o adnoddau, ac archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol.

Pe bai'r ysgolion yn ystyried cyflwyno cydweithrediad neu ffederasiwn ffurfiol, byddai hyn yn cael ei arwain gan Gyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstoneac ac yn cael cefnogaeth  gan y Cyngor.  Byddai unrhyw gynnig i ffederaleiddio yn destun ymgynghoriad ar wahân gan y Cyrff Llywodraethu hyn.



## Ymgynghoriad

Rhaid i'r broses ymgynghori ddilyn canllawiau Llywodraeth Cymru sydd wedi eu nodi yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Mae Cyngor Caerdydd yn ymgynghori ar y newidiadau arfaethedig i Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan.

Mae'r Cyngor hefyd yn cefnogi Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn ei ymgynghoriad ar newidiadau posib i'r ysgol.

Fel rhan o'r ymgynghoriad, rydym yn gofyn barn pobl ynghylch y newidiadau rydym yn eu cynnig. Mae sawl modd y gall pobl roi eu barn i ni.

### Mae Tabl 2 isod yn nodi â phwy y mae'r Cyngor yn ymgynghori:

| Tabl 2: Grwpiau y mae'r cyngor yn ymgynghori â nhw | |
|---|---|
| Plant a phobl ifanc | Gweinidogion Cymru |
| Rhieni/gofalwyr | Comisiynydd Heddlu a Throseddu |
| Staff ysgol | Gwasanaeth Addysg ar y Cyd Consortiwm Canolbarth y De (GACCCD) |
| Cyrff Llywodraethu Ysgolion | Comisiynydd y Gymraeg |
| Preswylwyr lleol | Rhieni dros Addysg Gymraeg (RhAG) |
| Aelodau Lleol/Aelodau Etholaeth a Rhanbarthol y Senedd (AoS)/Aelodau Seneddol (ASau) | Undebau Llafur |
| Cyfarwyddwyr Addysg Esgobaethol | Darparwyr gofal plant |
| Awdurdodau Cymdogol | Mudiad Meithrin |
| Pob Ysgol yng Nghaerdydd | Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru |
| Estyn | Clybiau Plant Cymru |
| Partneriaeth Cymunedau yn Gyntaf | Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd |
| Cynghorau Cymuned | Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol |
| Y Comisiynydd Plant | Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro |
| Sefydliadau y Sector Wirfoddol | Coleg Caerdydd a'r Fro |
| Coleg Dewi Sant | Fforwm Addysg Gymraeg (WEF) |

### Barn plant ar y cynigion arfaethedig

Mae Caerdydd wedi ymrwymo i fod yn Ddinas sy'n Dda i Blant lle gall plant lywio penderfyniadau a wneir sy'n effeithio ar eu bywydau a'r gwasanaethau y maent yn eu defnyddio. Mae'n bwysig wrth ddatblygu cynigion, fod trefniadau addas yn cael eu gwneud i ymgynghori â disgyblion. Bydd y Cyngor yn ymgynghori â disgyblion yn yr ysgolion lleol a bydd y wybodaeth a gaiff ei chasglu yn y sesiynau hyn yn cael eu cynnwys yn yr adroddiad ymgynghori terfynol a gaiff ei ystyrid gan y Cyngor.

Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica hefyd yn ystyried barn ei disgyblion yn ei hadroddiad ymgynghori.

## Sut mae cael mwy o wybodaeth a rhannu eich barn gyda ni?

Mae'r ddogfen ymgynghori hon ar gael ar wefan Cyngor Caerdydd yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa

Os na allwch weld y ddogfen ar-lein, bydd copïau papur o'r ddogfen ymgynghori hon ar gael drwy'r post ar gais. Gallwch ofyn am gopi drwy e-bostio ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy ffonio 029 2087 2720.

- Byddwn hefyd yn cynghori teuluoedd â phlant yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan, a'r rhai sydd â phlant o oedran cyn-ysgol yn yr ardal leol sut y gallant gael gafael ar gopi o'r ddogfen.

- Byddwn yn cynnal cyfarfodydd cyhoeddus a sesiynau galw heibio i unrhyw un fynychu lle bydd y newidiadau yr ydym yn eu cynnig yn cael eu hesbonio. Bydd cyfle i chi ofyn cwestiynau fel rhan o'r sesiynau hyn. Os hoffech fynychu sesiwn ar-lein / cyfarfod cyhoeddus ar-lein, cysylltwch â ni trwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa gyfarfod yr hoffech ei mynychu ac fe anfonwn ddolen atoch a chyfarwyddiadau ar sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod.

- Bydd swyddogion y Cyngor yn cyfarfod â Chyrff Llywodraethu a staff yr ysgolion a gaiff eu heffeithio.

- Gallwch hefyd ysgrifennu at y Cyngor i roi eich barn.

Mae dyddiadau'r cyfarfodydd ymgynghori wedi eu nodi isod: :

| Tabl 3: Dyddiadau Cyfarfodydd Ymgynghori | | |
|---|---|---|
| Natur yr Ymgynghoriad | Dyddiad/Amser | Lleoliad |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Llun 15 Mai 2023<br>2:30pm – 4:30pm | Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Iau 25 Mai 2023<br>9am – 11am | Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays |
| Sesiwn galw i mewn | Dydd Mercher 07 Mehefin 2023<br>5pm – 7pm | Llyfrgell Cangen a Threftadaeth Cathays |
| Sesiwn galw i mewn ar-lein | Dydd Mawrth 09 Mai 2023<br>9.00am – hanner dydd | Microsoft Teams |
| Sesiwn galw i mewn ar-lein | Dydd Mercher 17 Mai 2023<br>9.00am – hanner dydd | Microsoft Teams |
| Sesiwn galw i mewn ar-lein | Dydd Llun 05 Mehefin 2023<br>1.30pm – 4pm | Microsoft Teams |
| Sesiwn galw i mewn ar-lein | Dydd Iau 08 Mehefin 2023<br>1:30pm – 4pm | Microsoft Teams |
| Cyfarfod cyhoeddus (yn Saesneg) | Dydd Iau 18 Mai 2023<br>6:15pm – 7:40pm | Canolfan Gymunedol Cathays |
| Cyfarfod cyhoeddus (yn Gymraeg) | Dydd Iau 25 Mai 2023<br>6:15pm – 7:40pm | Canolfan Gymunedol Cathays |
| Cyfarfod cyhoeddus ar-lein | Dydd Iau 08 Mehefin 2023<br>6pm – 7:30pm | Microsoft Teams |

# Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- fynychu cyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio. Os hoffech fynychu sesiwn ar-lein / cyfarfod cyhoeddus ar-lein, cysylltwch â ni trwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa sesiwn yr hoffech ei mynychu ac fe anfonwn ddolen atoch a chyfarwyddiadau am sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod.
- cwblhau'r ffurflen ymateb electronig sydd i'w chael yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa
- argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, y gallwch ddod o hyd iddi yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa, a dychwelyd y ffurflen drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW
- ysgrifennu at y tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW. Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Nodwch fod rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw Dydd Gwener 30 Mehefin 2023.**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.



## Esboniad o dermau a ddefnyddir yn y ddogfen hon

**Nifer Derbyn** – mae pob ysgol a gynhelir yn derbyn disgyblion o leiaf hyd at eu Nifer Derbyn Cyhoeddedig (NDC). Y Nifer Derbyn yw nifer y llefydd sydd ar gael i ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn.

**Cyfuno** - lle bydd dwy ysgol bresennol neu fwy yn dod yn un ysgol, trwy gau'r ysgolion presennol a sefydlu ysgol newydd.

**ADY** – Anghenion Dysgu Ychwanegol. Gallai hyn fod oherwydd anawsterau dysgu, anableddau corfforol neu broblemau ymddygiadol. (Cyfeirir weithiau at ADY fel Anghenion Addysgol Arbennig).

**Cyllid cyfalaf i ysgolion** – arian a ddefnyddir i godi adeiladau ysgol newydd neu wella cyfleusterau sy'n bod eisoes.

**Ystafell ddosbarth** – ystafell o fewn ysgol o faint digonol ar gyfer addysgu.

**Lleoliad dosbarth** – ystafell ddosbarth mewn ysgol a ddefnyddir ar gyfer addysgu a lle mae grŵp o blant wedi'u lleoli fel arfer.

**Cydweithio** - Pan fo dau neu fwy o gyrff llywodraethu ysgolion yn cytuno i gydweithio ar flaenoriaethau a rennir, ac yn gallu rhannu arbenigedd ac adnoddau.

**Ysgol Gymunedol** – ysgol gynradd neu uwchradd lle mae'r Cyngor sydd yn trefnu derbyniadau i ysgolion.

**Dalgylch** – ardal y byddai ysgol gymunedol fel rheol yn ei gwasanaethu. Yng Nghaerdydd, mae mwy o flaenoriaeth gan blant o fewn yr ardal hon i gael eu derbyn i'r ysgol na phlant y tu allan i'r ardal.

**Ffederasiwn** - Cytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae nifer o ysgolion yn rhannu trefniadau llywodraethu a chael un corff llywodraethu.

**Dosbarth Mynediad (DM)** - mae Dosbarth Mynediad (DM) yn cyfeirio at ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn. Felly, mae ysgol 2DM yn ddau ddosbarth o 30 o blant ym mhob grŵp blwyddyn. Mae ysgolion sydd â Dosbarthiadau Mynediad nad ydynt yn rifau cyfan fel arfer yn gweithredu dosbarthiadau oedran cymysg.

**Awdurdod Lleol** - sefydliad sydd yn swyddogol gyfrifol am yr holl wasanaethau a chyfleusterau cyhoeddus mewn ardal benodol.

**Data Nifer ar y Gofrestr** – nifer y disgyblion sy'n mynd i'r ysgol (heb gynnwys disgyblion meithrin)

**CYBLD** – Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol ar Lefel Disgyblion. Ym mis Ionawr bob blwyddyn, mae Llywodraeth Cymru yn casglu gwybodaeth gan ysgolion. Mae hyn yn cynnwys nifer y disgyblion ymhob ysgol, eu grwpiau oedran, cyfeiriadau cartref, ethnigrwydd, data ar y Gymraeg, Anghenion Addysgol Arbennig, mamiaith a disgyblion sy'n cael Prydau Ysgol Am Ddim.

**Llefydd dros ben** – llefydd gweigion/heb eu llenwi mewn ysgol.

**Hysbysiad Statudol** – hysbysiad statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Gwneir hyn dim ond os bydd Cabinet y Cyngor wedi penderfynu bwrw ymlaen â'r cynnig ar ôl ystyried yr holl ymatebion yn dilyn y broses ymgynghori. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion (2018).

**Ysgolion Gwirfoddol a Gynorthwyir** – ysgol gynradd neu uwchradd sydd fel arfer o natur grefyddol sydd â'i llywodraethiant dan fwyafrif eglwysig a lle mai Corff Llywodraethu'r ysgol yw'r awdurdod derbyn.

**Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA)** - Cynllun statudol y mae'n rhaid i bob Cyngor ei baratoi, gan ddatgan sut y bydd yn gwella cynllunio addysg Gymraeg a gwella safonau mewn addysg Gymraeg, gyda thargedau wedi'u gosod a'u cytuno gan Weinidogion Cymru.

# Pam rydyn ni'n cynnig y newidiadau hyn?

## Cefndir

### Ymrwymiadau 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach' Caerdydd i ddysgwyr

Ym mis Mehefin 2022, cyhoeddodd y Cyngor ei ddogfen 'Cryfach, Tecach, Gwyrddach', sy'n nodi'r themâu a'r ymrwymiadau allweddol ar gyfer y pum mlynedd nesaf.

Mae'r Cyngor yn credu mai addysg dda yw'r llwybr mwyaf sicr allan o dlodi ac, yn ei dro, fod ffyniant hirdymor y ddinas yn dibynnu ar gefnogaeth gadarn i'n plant a'n pobl ifanc wireddu eu potensial.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gefnogi dysgwyr mwyaf bregus Caerdydd, gan gynnwys plant mewn gofal, y rhai sy'n cael addysg heblaw yn yr ysgol a phlant o'r cymunedau â'r amddifadedd mwyaf. Mae'r Cyngor yn datblygu rhaglen Ysgolion â Ffocws Cymunedol ac yn hyrwyddo manteision dwyieithrwydd, gan ehangu'r nifer sy'n manteisio ar addysg Gymraeg yn unol â strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae sicrhau bod cyllid ar gyfer addysg yn cael ei dargedu tuag at brofiadau a chyfleoedd dysgu ochr yn ochr â chymorth i deuluoedd yn hollbwysig.  Mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn ysgolion a rhaid iddo hefyd gefnogi pob ysgol i barhau i wella addysg eu holl ddysgwyr.

I gyflawni hyn, rhaid i'r Cyngor sicrhau bod cydbwysedd priodol yn y nifer a mathau o leoedd ysgol sy'n gwasanaethu pob ardal, gyda lefel ddigonol o leoedd dros ben. Rhaid i bob darpariaeth ysgol a gynigir ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu. Rhaid i'r Cyngor wneud y mwyaf o botensial ei staff addysgu a dysgu er mwyn sicrhau'r defnydd gorau o'u talent, a thrwy hynny sicrhau'r effaith fwyaf ar gyfleoedd a deilliannau dysgwyr ar gyfer pawb.

### Sut mae newidiadau i boblogaeth ledled y ddinas yn effeithio ar ysgolion?

Cyrhaeddodd y niferoedd derbyn i'r dosbarthiadau derbyn mewn ysgolion cynradd ledled y ddinas ei anterth ar tua 4,370 o ddisgyblion yn 2015/16 a 2016/17. Mae hyn yn cyfateb i frig y cyfraddau geni a gofnodwyd bum mlynedd ynghynt. Ar yr adeg pan oedd y niferoedd ar eu huchaf, cadwodd Caerdydd tua 8% o lefydd gwag.

Ers 2017/18, mae gostyngiad parhaus wedi bod yn y gyfradd enedigaethau, a newidiadau i batrymau mudo yn y ddinas. Mae hyn yn golygu yr amcanestynnir y bydd y nifer sy'n mynd i addysg gynradd ledled y ddinas yn lleihau'n sylweddol tan o leiaf Medi 2025. Fodd bynnag, nid yw newidiadau poblogaeth yn gyson ym mhob rhan o'r ddinas.

Gostyngodd y niferoedd yn y dosbarthiadau Derbyn yn 2021/22 i tua 3,860 o ddisgyblion. Amcanestynnir y bydd y niferoedd Derbyn yn gostwng ymhellach i tua 3,500 erbyn 2025/2026, gostyngiad cyffredinol o 18% ers 2016/17. O gymharu'r niferoedd a amcanestynnir i nifer y lleoedd sydd ar gael, byddai canran y lleoedd gwag yng Nghaerdydd yn cynyddu i tua 25% ledled y ddinas. Mae hyn yn cyfateb i 18 ysgol gynradd wag â dau ddosbarth mynediad.

Gan fod rhieni'n gallu datgan ffafriaeth dros ddewis ysgol, byddai rhai ysgolion yn parhau i gael niferoedd uchel, a byddai'r cwymp yn y boblogaeth yn cael fawr ddim effaith ar yr ysgolion hynny. I ysgolion eraill fe fydd yr effaith ar niferoedd disgyblion yn llawer mwy na chyfartaledd y gostyngiad o 18% ar draws y ddinas.

Mae mwyafrif yr arian y bydd ysgolion yn ei dderbyn wedi ei seilio ar niferoedd y disgyblion ar y gofrestr. Bydd gostyngiad mewn niferoedd a mwy o lefydd gwag ledled y ddinas yn effeithio'n fawr ar gyllidebau rhai ysgolion. Yn ei dro, mae hyn yn effeithio ar y cyfleoedd addysgu a dysgu y gall yr ysgolion hynny eu cynnig.

Mae'r Cod Trefniadaeth Ysgolion yn rhoi canllawiau i Awdurdodau Lleol ynghylch faint o lefydd gwag y dylid eu cadw. Mae'r Cod yn dweud, lle mae mwy na 10% o lefydd gwag mewn ardal yn gyffredinol, y dylai awdurdodau lleol adolygu eu darpariaeth. Dylai'r adolygiad hwn ystyried a ddylid gwneud cynigion i leihau lleoedd gwag os bydd hyn yn gwella effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd y ddarpariaeth. Yng Nghaerdydd, rhaid cadw cyfran resymol o lefydd gweigion mewn ysgolion cynradd yn uwch na'r lefel canllaw o 10% er mwyn ymateb i newidiadau i'r gyfradd enedigaethau, ac i niferoedd derbyn i ysgolion, dros y tymor hir.

Mae nifer y llefydd cynradd sydd ar gael mewn cymunedau presennol yng Nghaerdydd yn ddigon i ddarparu ar gyfer yr holl ddisgyblion, ond amcanestynnir y bydd lefel y llefydd gwag yn cynyddu.

Byddai cynigion i gydbwyso capasiti ysgolion yn well yn erbyn y rhagolygon o ran y lleoedd sydd eu hangen yn cynnig defnydd mwy effeithiol o adnoddau ariannol yr ysgolion. Byddai hyn yn caniatáu i ysgolion ddefnyddio cyfran uwch o'u cyllideb ar gyfer addysgu a dysgu.

## Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd

Yn 2017 fe gyhoeddodd Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg'. Dyma strategaeth Gweinidogion Cymru ar gyfer hybu a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. Mae'n nodi'r ymagwedd hirdymor o gyrraedd targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyhoeddi Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg yn gosod targed deng mlynedd yn amlinellu'r cynnydd disgwyliedig yn y plant Blwyddyn 1 sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid i bob awdurdod lleol bennu ei darged yn unol â'r ystod a roddir gan Lywodraeth Cymru er mwyn cyfrannu at y targed cenedlaethol cyffredinol. Y targed y mae Llywodraeth Cymru wedi'i bennu ar gyfer Caerdydd yw sicrhau twf rhwng 25% a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 i gael addysg Gymraeg erbyn diwedd y cyfnod o ddeng mlynedd.

Yn 2020/2021, nifer y disgyblion Derbyn Cymraeg oedd 749, sef 18% o gyfanswm y niferoedd disgyblion . Felly, er mwyn cyrraedd y targed ystod is, byddai angen cynnydd canrannol o tua 7%. Er mwyn cyrraedd y targed ystod uwch, byddai angen cynnydd canrannol o tua 11%.

Ar hyn o bryd, mae tua 18% o'r lleoedd oedran Derbyn sydd ar gael mewn ysgolion cynradd hefyd yn rhai cyfrwng Cymraeg, un ai mewn ysgolion Cymraeg neu ysgolion dwy ffrwd. Gan yr amcanestynnir y bydd y niferoedd derbyn i ysgolion yn gostwng, byddai'r Cyngor yn gallu darparu ar gyfer canran uwch o blant mewn ysgolion Cymraeg. Byddai gofyn o hyd i nifer y llefydd sydd ar gael mewn ysgolion Cymraeg gynyddu er mwyn i Gaerdydd gyrraedd ei thargedau.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) Caerdydd yn nodi cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Bydd y rhain yn sicrhau:

- y gall pob plentyn yn y ddinas dderbyn addysg yn y Gymraeg, os mai dyma eu dewis
- bydd y nifer sy'n derbyn eu haddysg mewn ysgolion Cymraeg yn cynyddu, a
- bydd pob plentyn mewn ysgolion Saesneg yn cael cyfle i ddod yn hyderus wrth siarad Cymraeg.

## Darparu digon o leoedd ysgol Saesneg a Chymraeg

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod pob plentyn yng Nghaerdydd yn cael addysg wych trwy gyfrwng yr iaith o'u dewis nhw.

Bu'r Cyngor yn ymgynghori yn 2021 ar gynnig i ddarparu balans priodol o leoedd ysgolion cynradd Cymraeg a Saesneg i wasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, Y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.

Fe wnaeth y Cyngor hefyd ofyn am farn ar newidiadau hirdymor i'r ddarpariaeth ysgolion er mwyn cynnig balans priodol o lefydd cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg i wasanaethu'r ardal gydag unrhyw ateb yn ceisio:

- Lleihau nifer y lleoedd gwag cyfrwng Saesneg sy'n gwasanaethu dalgylchoedd cyfun Allensbank, Albany a Gladstone
- Ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg sy'n gwasanaethu dalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan i 2 ddosbarth mynediad
- Rhoi mwy o sicrwydd a sefydlogrwydd o ran arweinyddiaeth, rheoli, staff addysgu a staff cymorth, i gefnogi ffocws parhaus ar safonau addysgu a deilliannau gwell i ddisgyblion
- Galluogi buddsoddi mewn adeiladau ysgol i wella'r amgylchedd dysgu.

Dangosodd canlyniad yr ymgynghoriad bod yna gefnogaeth ar y cyfan i ehangu addysg Gymraeg. Er bod cefnogaeth gyffredinol i ehangu Ysgol Mynydd Bychan, nid oedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr, gan gynnwys Penaethiaid a Chyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Mynydd Bychan yn cefnogi ehangu Ysgol Mynydd Bychan dros dro fel y cynigiwyd.

Mae'r cynigion a amlinellir yn y ddogfen ymgynghori hon yn mynd i'r afael â'r materion a lywiodd y cynigion cynharach ac yn ystyried y materion a godwyd yn ystod yr ymgynghoriad cynharach.

Mae digon o gapasiti yn yr ysgolion presennol sy'n gwasanaethu'r ardaloedd hynny i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol.

Byddai'r cynigion yn cadw pob un o'r safleoedd ysgol presennol, ac felly'n cadw hyblygrwydd yn yr ystâd ysgolion i allu ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol sy'n effeithio ar yr ardal.

Mae'r opsiynau a gaiff eu cyflwyno yn cefnogi defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau.

Mae'r cynigion hefyd yn ceisio cynyddu effeithiolrwydd ysgolion a lleihau'r anghydraddoldebau o ran cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a rhai difreintiedig.


# Ysgolion sydd yn gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd

Gwasanaethir ardaloedd Cathays, Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd gan nifer o ysgolion cynradd Cymraeg a chyfrwng Saesneg.

**Cyfrwng Saesneg**

Gyda'i gilydd mae dalgylchoedd cyfunol Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Albany ac Ysgol Gynradd Gladstone, yn ffurfio dalgylch Ysgol Uwchradd Cathays. Mae'r dalgylch hwn yn gwasanaethu Cathays a rhannau o Gabalfa, y Mynydd Bychan, Ystum Taf a Phlasnewydd.


Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff yng Ngabalfa ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr ym Mhlasnewydd hefyd yn gwasanaethu'r cymunedau hyn.



## Cyfrwng Cymraeg

Mae Ysgol Mynydd Bychan yn gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys cymuned Cathays a rhannau o gymunedau Gabalfa, y Mynydd Bychan a Phlasnewydd.

Mae dalgylchoedd Ysgol y Wern, Ysgol Glan Ceubal ac Ysgol Melin Gruffydd yn ffinio â dalgylch Ysgol Mynydd Bychan.



### Darpariaeth arall

Mae cymuned addysg ehangach Caerdydd yn cynnwys nifer o ysgolion annibynnol. Mae Ysgol Gynradd Fwslimaidd Caerdydd a Kings Monkton yng nghymunedau Cathays a Phlasnewydd yn y drefn honno.

## Faint o leoedd ysgol gynradd sydd eu hangen?

Wrth ystyried sawl lle ysgol sydd eu hangen, mae'r ffactorau canlynol yn bwysig:

- Nifer y lleoedd ym mhob ysgol
- Cyfanswm nifer y plant yn yr ardal
- Ble mae'r plant hyn yn byw
- Faint o blant fydd angen lle yn y dyfodol?



Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/YsgolionCynraddCathaysaGabalfa

# Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg

## Nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd Saesneg lleol

Capasiti ysgol gynradd yw nifer y lleoedd sydd ar gael ym mhob grŵp oedran o'r Dosbarth Derbyn i Blwyddyn 6, ar gyfer plant rhwng pedair ac un ar ddeg oed.

Nifer Derbyn ysgol yw nifer y disgyblion y gellir eu derbyn ym mhob blwyddyn yn yr ysgol. Mae capasiti a nifer derbyn ysgol wedi eu seilio ar sut y caiff ystafelloedd dosbarth a gofodau eraill yn yr ysgol eu defnyddio ar gyfer addysgu a dysgu.

Tabl 4: Lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion cynradd Saesneg sy'n gwasanaethu'r ardal 2023/2024

| Ysgol | Capasiti cyhoeddedig presennol (4 - 11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4 - 11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith | Categori | Ystod oedran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Allensbank | 315* | 30 | 32 | Cyfrwng Saesneg | Ysgol gynradd gymunedol | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 210** | 30 | 64 | Cyfrwng Saesneg | Ysgol gynradd gymunedol | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Albany | 420 | 60 | 64 | Cyfrwng Saesneg | Ysgol gynradd gymunedol | 3-11 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica | 146 | 20 | 0 | Cyfrwng Saesneg | Ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir | 4-11 |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff | 210 | 30 | 32 | Cyfrwng Saesneg | Ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir | 3-11 |
| Ysgol Gynradd Gatholig San Pedr | 420 | 60 | 80 | Cyfrwng Saesneg | Ysgol gynradd wirfoddol a gynorthwyir | 3-11 |
| Cyfanswm | 1721 | 270 | 272 | | | |

*Capasiti wedi'i gapio ar 315 o leoedd ond digon o le ar gyfer hyd at 360 o leoedd ynghyd â dwy ystafell ddosbarth arbenigol, neu 420 o leoedd heb ystafelloedd dosbarth arbenigol, drwy neilltuo ystafelloedd at ddibenion eraill.

**Capasiti wedi'i gapio ar 210 o leoedd ond digon o le ar gyfer hyd at 270 o leoedd, os caiff ystafelloedd adnoddau eu neilltuo fel ystafelloedd dosbarth.

## Cyfanswm nifer y plant yn mynychu ysgolion Saesneg yn yr ardal

Mae'r data cyfrifiad ysgolion dilys diweddaraf sydd ar gael adeg cyhoeddi yn dod o fis Ionawr 2022.

Mae niferoedd derbyn Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone wedi amrywio yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

Mae Tabl 5 isod yn dangos

- y capasiti presennol a'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig adeg derbyn i'r ysgol gynradd, ar adeg y derbyn
- nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru ym mhob grŵp blwyddyn
- a'r nifer/canran o leoedd gwag ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

Cafodd y nifer derbyn cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Allensbank ei leihau o 45 lle i 30 o leoedd o fis Medi 2022 er mwyn adlewyrchu'r galw am leoedd yn well. Mae'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Albany ac Ysgol Gynradd Gladstone wedi'u cadw ar 60 o leoedd a 30 o leoedd yn y drefn honno, drwy gydol y cyfnod.

Tabl 5: Data Nifer ar Gofrestr yr Ysgol (CYBLD 2022)

| Ysgol | Der | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Nifer Ar y Gofrestr (Der – Blwyddyn 6) | Capasiti Cyhoed-dedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Allensbank | 24 | 24 | 29 | 32 | 31 | 22 | 31 | 193 | 315 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 23 | 29 | 24 | 26 | 20 | 27 | 24 | 173 | 210 |
| Ysgol Gynradd Albany | 38 | 56 | 56 | 58 | 57 | 58 | 55 | 378 | 420 |
| Cyfanswm disgyblion/ lleoedd | 85 | 109 | 109 | 116 | 108 | 107 | 110 | 744 | 945 |
| Lleoedd ar gael (Nifer Derbyn Cyhoeddedig) | 135 | 135 | 135 | 135 | 135 | 135 | 135 | | |
| Lleoedd dros ben – bob grŵp blwyddyn | 50 | 26 | 26 | 19 | 27 | 28 | 25 | | |
| Lleoedd dros ben – bob grŵp blwyddyn ( % ) | 37.0 % | 19.3 % | 19.3 % | 14.1 % | 20.0 % | 20.7 % | 18.5 % | | |

Gan ganiatáu ar gyfer y Nifer Derbyn Cyhoeddedig llai yn Ysgol Gynradd Allensbank, cyfanswm y lleoedd sydd ar gael ym mhob grŵp oedran fyddai 120.

Mae gan bob un o'r ysgolion Saesneg uchod lefel uchel o 'symudedd disgyblion', hynny yw bod nifer y plant sydd ar y gofrestr ym mhob blwyddyn yn newid yn aml, o fis i fis. Mae nifer y plant sy'n cofrestru ym mhob ysgol yn cynyddu'n sylweddol uwch na nifer y plant sy'n cael eu dyrannu ar ddiwrnod cynnig ar gyfer mynediad i'r Dosbarth Derbyn.

## Ble mae'r plant hyn yn byw?

Mae Tabl 6 dros y ddalen yn nodi nifer y disgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone, a'r ysgolion a fynychwyd gan y disgyblion hynny.

**Tabl 6: Ysgol gofrestru plant sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone (Ffynhonnell: CYBLD 2022)**

| | Dalgylch cyfeiriad cartref | | |
|---|---|---|---|
| **School** | **Albany** | **Allensbank** | **Gladstone** |
| Ysgol Gynradd Albany | 169 | 4 | 20 |
| Ysgol Gynradd Allens-bank | 3 | 122 | 18 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 11 | 30 | 106 |
| Wedi cofrestru mewn Ysgolion Cymunedol cyfrwng Saesneg eraill | 115 | 133 | 47 |
| **Is-gyfanswm – dis-gyblion wedi cofrestru mewn unrhyw ysgolion Cymunedol cyfrwng Saesneg** | **298** | **289** | **191** |
| Ysgolion Cymunedol cyfrwng Cymraeg | 25 | 145 | 39 |
| Wedi cofrestru mewn ysgolion Ffydd | 80 | 150 | 64 |
| Wedi cofrestru mewn ysgolion arbennig | 9 | 13 | 6 |
| **Cyfansymiau** | **412** | **597** | **300** |

Mae nifer y plant sy'n byw yn nalgylchoedd Albany, Allensbank a Gladstone, sy'n dewis derbyn lle mewn unrhyw ysgol gymunedol cyfrwng Saesneg yng Nghaerdydd yn dod i gyfanswm o 778. Fodd bynnag, o fewn y nifer hwnnw, mae 483 o blant wedi cofrestru yn y tair ysgol hyn a 295 wedi cofrestru mewn mannau eraill.

## Y galw am leoedd cynradd cyfrwng Saesneg yn y dyfodol

Mae Tabl 7 isod yn nodi'r galw diweddar am leoedd derbyn mewn ysgolion cynradd cyfrwng Saesneg gan blant sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone, a'r galw a ragwelir yn y dyfodol am leoedd ym mhob dalgylch. Mae'r rhagamcanion hyn, sydd wedi'u diweddaru, yn ystyried y data cyfrifiad ysgolion diweddaraf (CYBLD) a gyhoeddwyd yn 2022, a data diweddaraf cofrestriadau gyda meddygon teulu'r GIG a ddarparwyd ym mis Awst 2022.

**Tabl 7: Nifer y lleoedd Dosbarth Derbyn a dderbyniwyd yn ddiweddar ac a ragfynegir mewn unrhyw ysgolion cymunedol cyfrwng Saesneg o blith disgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone**

| | | Galw diweddar (data cyfrifiad ysgolion) | | | | | Y galw rhagamcanol yn y dalgylch | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dalgylch** | **Nifer Derbyn** | **2017/ 2018** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** | **2023/ 2024** | **2024/ 2025** | **2025/ 2026** |
| Albany | 60 | 49 | 46 | 46 | 42 | 39 | 42 | 48 | 54 | 54 |
| Allensbank | 30 | 40 | 42 | 37 | 28 | 36 | 37 | 37 | 33 | 30 |
| Gladstone | 30 | 36 | 25 | 30 | 34 | 29 | 39 | 33 | 32 | 35 |
| Cyfanswm | 120 | 125 | 113 | 113 | 104 | 104 | 118 | 118 | 119 | 119 |
| Lleoedd gwag (o gymharu â'r ysgol) | | -5 | 7 | 7 | 16 | 16 | 2 | 2 | 1 | 1 |
| % Lleoedd dros ben | | -4.2% | 5.8% | 5.8% | 13.3% | 13.3% | 1.7% | 1.7% | 0.8% | 0.8% |

Mae'r galw uchod yn ddiweddar yn cael ei dynnu o'r data CYBLD diweddaraf (Chwefror 2022) ac mae'n cynrychioli'r nifer o blant ym mhob dalgylch sy'n cael lle mewn addysg cyfrwng Saesneg yn unrhyw Ysgol yng Nghaerdydd. Mae'r galw a ragwelir yn ystyried canran ddiweddar y disgyblion sy'n dewis derbyn lle, wedi'i fodelu yn erbyn data poblogaeth y GIG. Nid yw data genedigaethau ar gyfer blwyddyn ysgol 2026/2027 ar gael eto.

Er cymhariaeth, nifer y plant a gafodd lle yn y dosbarth Derbyn yn Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank neu Ysgol Gynradd Gladstone ar y diwrnod cynnig ar gyfer mis Medi 2022 oedd 110, o gymharu â'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig cyfunol o 120 o leoedd ym Medi 2022.

Ar y cyfan, mae nifer y dysgwyr sy'n cymryd lleoedd yn yr ysgolion hyn ym mhob grŵp blwyddyn, yn nhabl 5, wedi bod yn is na chyfanswm y galw am leoedd o fewn dalgylchoedd yr ysgolion hynny, yn nhabl 6, gan fod rhieni wedi cymryd lleoedd mewn ysgolion eraill yn ôl eu dewis.

Mae'r capasiti cyfunol presennol o 4 Dosbarth Mynediad (120 o leoedd y flwyddyn) rhwng Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank neu Ysgol Gynradd Gladstone wedi darparu digon o gapasiti i ddarparu ar gyfer y galw o fewn y tair dalgylch yn ystod y blynyddoedd diwethaf, pan oedd y nifer sy'n cael eu derbyn i ysgolion ar lefelau uchel ledled y ddinas.

# Lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg

## Nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd Cymraeg lleol

Mae tabl 8 isod yn dangos manylion y lleoedd sydd ar gael yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal leol, a gogledd/canol Caerdydd.

Tabl 8: Lleoedd sydd ar gael mewn ysgolion cynradd Cymraeg sy'n gwasanaethu'r ardal

| Ysgol | Capasiti cyhoeddedig presennol (4 - 11 oed) | Lleoedd fesul grŵp blwyddyn (4 - 11 oed) | Lleoedd Meithrin | Cyfrwng iaith | Categori | Ystod oedran |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Glan Ceubal | 210 | 30 | 48 | Cyfrwng Cymraeg | Ysgol gynradd gymunedol | 3-11 |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 420 | 60 | 64 | Cyfrwng Cymraeg | Ysgol gynradd gymunedol | 3-11 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 192 | 30 | 64 | Cyfrwng Cymraeg | Ysgol gynradd gymunedol | 3-11 |
| Ysgol y Wern | 630 | 90 | 80 | Cyfrwng Cymraeg | Ysgol gynradd gymunedol | 3-11 |
| Cyfanswm | 1452 | 210 | 256 | | | |

## Cyfanswm nifer y plant sy'n mynychu ysgolion cynradd Cymraeg yn yr ardal

Mae Tabl 9 isod/trosodd yn dangos:

- y capasiti presennol a'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig cyfunol adeg derbyn i bob Ysgol Gynradd Gymunedol cyfrwng Cymraeg ar adeg derbyn
- nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru ym mhob grŵp blwyddyn
- a'r nifer/canran o leoedd gwag ar gyfer pob grŵp blwyddyn.

Fe gynyddwyd y nifer derbyn sydd wedi'i gyhoeddi yn Ysgol Y Wern o 60 safle i 75 o leoedd o 2015/16, ac i 90 o leoedd o 2021/22, gan adlewyrchu ehangu'r ysgol ac ailasesu ei chapasiti. Fodd bynnag, cytunwyd ar drefniadau dros dro i ganiatáu i'r ysgol dderbyn hyd at 75 o ddisgyblion o 2014/15 a derbyn hyd at 90 o ddisgyblion o 2016/17 i adlewyrchu'r galw am leoedd yn well.

Mae'r niferoedd derbyn sydd wedi'u cyhoeddi yn Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ac Ysgol Mynydd Bychan wedi'u cadw ar 30 o leoedd, 60 o leoedd a 30 o leoedd yn eu tro gydol y cyfnod.

Tabl 9: Data Nifer ar Gofrestr yr Ysgol (CYBLD 2022) - ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg

| Ysgol | Der | Blwyddyn 1 | Blwyddyn 2 | Blwyddyn 3 | Blwyddyn 4 | Blwyddyn 5 | Blwyddyn 6 | Nifer Ar y Gofrestr (Der – Blwyddyn 6) | Capasiti Cyhoed-dedig |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Glan Ceubal | 19 | 29 | 12 | 30 | 20 | 23 | 18 | 151 | 210 |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 58 | 58 | 46 | 61 | 60 | 60 | 60 | 403 | 420 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 29 | 30 | 31 | 31 | 30 | 24 | 28 | 203 | 192 |
| Ysgol Y Wern | 89 | 89 | 86 | 85 | 88 | 80 | 74 | 591 | 630 |
| Cyfanswm disgyblion/ lleoedd | 195 | 206 | 175 | 207 | 198 | 187 | 180 | 1348 | 1452 |
| Lleoedd ar gael (Nifer Derbyn cytûn) | 210 | 210 | 210 | 210 | 210 | 210 | 195 | | |
| Lleoedd dros ben – bob grŵp blwyddyn | 15 | 4 | 35 | 3 | 12 | 23 | 15 | | |
| Lleoedd dros ben – bob grŵp blwyddyn (%) | 7.1% | 1.9% | 16.7% | 1.4% | 5.7% | 11.0% | 7.7% | | |



## Ble mae'r plant hyn yn byw?

Mae Tabl 10 isod yn nodi nifer y disgyblion sy'n byw yn y dalgylchoedd sy'n gwasanaethu ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg yng ngogledd/chanol Caerdydd, sydd wedi eu cofrestru mewn ysgolion cynradd Cymraeg

**Tabl 10: Ysgol gofrestredig disgyblion sy'n byw yn nalgylch Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol y Wern (Ffynhonnell: PLASC 2022)**

| | Dalgylch cyfeiriad cartref | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Ysgol Glan Ceubal** | **Ysgol Gymraeg Melin Grufffydd** | **Ysgol Mynydd Bychan** | **Ysgol Y Wern** |
| Ysgol Glan Ceubal | 94 | 4 | 11 | 6 |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 21 | 339 | 12 | 21 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 6 | 0 | 181 | 3 |
| Ysgol Y Wern | 0 | 14 | 19 | 541 |
| Wedi cofrestru mewn ysgolion cymunedol cyfrwng Cymraeg eraill | 9 | 11 | 7 | 10 |
| **Is-gyfanswm – disgyblion wedi cofrestru mewn unrhyw ysgolion Cymunedol cyfrwng Cymraeg** | **130** | **368** | **230** | **581** |
| Wedi cofrestru mewn Ysgolion Cymunedol cyfrwng Saesneg | 541 | 832 | 742 | 2499 |
| Wedi cofrestru mewn ysgolion Ffydd | 63 | 28 | 261 | 152 |
| Wedi cofrestru mewn ysgolion arbennig | 7 | 5 | 22 | 19 |
| **Cyfansymiau** | **741** | **1233** | **1255** | **3251** |

Yn dilyn ymgynghoriad yn gynnar yn 2019, cytunodd y Cyngor i leihau dalgylch Ysgol Mynydd Bychan ac i drosglwyddo rhan ddeheuol ei dalgylch i ddalgylch Ysgol Hamadryad o fis Medi 2021. Mae'r tabl uchod yn cynrychioli'r trefniadau newydd, gan gynnwys dalgylch llai Ysgol Mynydd Bychan.

## Galw yn y dyfodol am leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cynradd cymunedol

Mae tabl 11 isod/trosodd yn nodi'r galw diweddar am leoedd Dosbarth Derbyn mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg gan blant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol y Wern, a'r galw a ragwelir yn y dyfodol am leoedd ym mhob dalgylch. Mae'r rhagamcanion hyn, sydd wedi'u diweddaru, yn ystyried data cyfrifiad ysgolion diweddaraf (CYBLD) a gyhoeddwyd yn 2022, a data diweddaraf cofrestriadau meddygon teulu'r GIG a ddarparwyd ym mis Awst 2022.

Mae'r rhagamcanion sy'n ystyried y nifer sy'n cymryd lleoedd yn ddiweddar, a'r gostyngiad ym mhoblogaeth cyn oedran ysgol yr ardal, yn awgrymu y bydd yr amrywiad hwn yn parhau gyda gostyngiad cyffredinol yn seiliedig ar y gostyngiad mewn cyfraddau geni. Fodd bynnag, rhagamcanir y bydd nifer y plant o fewn dalgylch Ysgol Mynydd Bychan sy'n dewis derbyn lle mewn ysgol cyfrwng Cymraeg yn fwy na nifer y lleoedd sydd ar gael adeg derbyn i'r ysgol.

**Tabl 11: Nifer y lleoedd a dderbyniwyd yn ddiweddar ac a ragamcennir mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg o blith disgyblion sy'n byw yn nalgylchoedd Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol y Wern**

| | | Galw diweddar yn y dalgylch (data cyfrifiad ysgolion) | | | | | Y galw rhagamcanol yn y dalgylch | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Dalgylch** | **Nifer Derbyn** | **2017/ 2018** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** | **2023/ 2024** | **2024/ 2025** | **2025/ 2026** |
| Ysgol Glan Ceubal | 30 | 16 | 25 | 12 | 23 | 16 | 16 | 17 | 15 | 18 |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 60 | 61 | 55 | 37 | 55 | 57 | 59 | 46 | 39 | 48 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 30 | 38 | 38 | 35 | 42 | 31 | 37 | 37 | 35 | 31 |
| Ysgol Y Wern | 90 | 81 | 90 | 87 | 90 | 89 | 83 | 80 | 77 | 78 |
| Cyfanswm | 210 | 196 | 208 | 171 | 210 | 193 | 195 | 180 | 166 | 175 |
| Lleoedd gwag (o gymharu â'r ysgol) | | 14 | 2 | 39 | 0 | 17 | 15 | 30 | 44 | 35 |
| % Lleoedd dros ben | | 6.7% | 1.0% | 18.6% | 0.0% | 8.1% | 7.1% | 14.3% | 21.0% | 16.7% |

Mae'r galw uchod yn ddiweddar yn cael ei dynnu o'r data CYBLD diweddaraf (Chwefror 2022) ac mae'n cynrychioli'r nifer o blant ym mhob dalgylch sy'n cael lle mewn addysg cyfrwng Cymraeg yn unrhyw Ysgol yng Nghaerdydd. Mae'r galw a ragwelir yn ystyried canran ddiweddar y disgyblion sy'n cymryd lle, wedi'u modelu yn erbyn data poblogaeth y GIG yn y dyfodol. Nid yw data genedigaethau ar gyfer blwyddyn ysgol 2026/2027 ar gael eto. Pe bai canran y plant sy'n cymryd lle cyfrwng Cymraeg yn aros yn sefydlog, tra bod y boblogaeth yn disgyn, yna byddai'r nifer derbyn yn gostwng hefyd.

Mae nifer y plant y neilltuwyd lle iddynt yn y dosbarth Derbyn yn Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Mynydd Bychan neu Ysgol y Wern ar ddiwrnod cynnig ar gyfer Medi 2022 yn 189, fymryn yn is na'r nifer rhagamcanol o 195.

Yn gyffredinol, mae aliniad agos wedi bod rhwng nifer y dysgwyr sydd wedi cofrestru yn Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ac Ysgol y Wern, a nodir yn Nhabl 9, a'r galw am leoedd o fewn dalgylchoedd yr ysgolion hynny, yn nhabl 10 .

Mae'r niferoedd sy'n dewis derbyn lleoedd yn Ysgol Glan Ceubal wedi amrywio'n fawr ond mae'n aml yn fwy na'r galw am leoedd o fewn ei dalgylch gan ei fod wedi cyfaddef i blant o ddalgylchoedd cyfagos nad oedd yn gallu cael lle yn eu hysgol leol.

Mae Ysgol Mynydd Bychan wedi tanysgrifio'n llawn ym mhob un o'r pum cylch derbyn diwethaf. Bob blwyddyn, roedd digon o leoedd mewn ysgolion oedd yn gwasanaethu dalgylchoedd cyfagos ar gyfer y disgyblion hynny nad oedd yn gallu cael eu derbyn. Fodd bynnag, i blant o fewn dalgylch Ysgol Mynydd Bychan, roedd lleoedd ysgol cyfrwng Cymraeg eraill yn aml yn sylweddol bellach o'u cyfeiriad cartref.

Mae tabl 12, isod, yn crynhoi'r data dyrannu derbyniadau ar y diwrnod cynnig ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan yn y pum cylch derbyn diwethaf.

**Tabl 12: Crynodeb o ddyraniadau lleoedd Derbyn yn Ysgol Mynydd Bychan ar y diwrnod cynnig (Ebrill) yn y pum mlynedd flaenorol.**

| | **Blwyddyn dderbyn** | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2018/19** | **2019/20** | **2020/21** | **2021/22** | **2022/23** |
| Lleoedd ar gael | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| Lleoedd wedi'u dyrannu | 30 | 30 | 30 | 30 | 30 |
| Cyfanswm y Dewisiadau a wrthodwyd | 11 | 4 | 22 | 7 | 6 |
| Dewisiadau o fewn y dalgylch wedi'u gwrthod | 7 | 0 | 15 | 3 | 2 |
| **Pellter pellaf plentyn a dderbyniwyd** | 0.592 | 1.19 | 0.584 | 0.788 | 0.937 |

Mewn pedwar o'r pum cylch derbyn diwethaf, nid yw'r ysgol wedi gallu derbyn pob plentyn o fewn ei dalgylch a oedd am gael lle yn ei dosbarth Derbyn. Mae'r nifer sy'n dewis derbyn lleoedd o blith blant yn ne'r dalgylch, mewn rhannau o Cathays a'r Rhath, yn isel ac ni fyddai ymgeiswyr yn yr ardal hon wedi gallu cael eu derbyn.  Nid yw llawer o ymgeiswyr sy'n byw yn y dalgylch, sy'n byw i'r gogledd o Rodfa'r Dwyrain, yn gallu cael mynediad chwaith.

I'r rhai sy'n ymgeisio yn ne dalgylch Ysgol Mynydd Bychan, mae'r ysgolion agosaf yn sylweddol pellach. Yr ysgolion agosaf nesaf yw Ysgol Glan Ceubal (Ystum Taf), Ysgol Glan Morfa (Sblot) ac Ysgol Y Berllan Deg (Llanedern).  I ymgeiswyr sydd â chyfeiriad cartref i'r gogledd o Rodfa'r Dwyrain, yr ysgolion agosaf nesaf yw Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Glan Ceubal neu Ysgol Y Wern. Mae pob un o'r rhain yn bellach i ffwrdd, ac mae Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd ac Ysgol Y Wern wedi tanysgrifio'n llwyr mewn llawer o'u hymgymeriadau diweddar.

Gan ystyried y niferoedd derbyn is i ysgolion cynradd a ragwelir tan o leiaf 2025/2026, byddai digon o ddarpariaeth ar gael ar draws yr ardal ehangach i ddarparu ar gyfer twf mewn cyfrwng Cymraeg yn y byrdymor pe na bai twf canrannol, neu dwf isel, yn y galw. Gallai newidiadau i ddalgylchoedd roi cydbwysedd rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael, a'r galw a ragwelir am leoedd, a byddai'n caniatáu cynnydd cyfyngedig yn y nifer sy'n derbyn y cynnig.

Fodd bynnag, ni fyddai'r lefel a ragwelir o leoedd gwag yn ddigonol i gynyddu'r nifer a ymgymerir i addysg Gymraeg yn sylweddol yn y tymor hwy, er mwyn bodloni twf wedi'i dargedu Caerdydd fel y'i nodir yn y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) sydd wedi'i gymeradwyo yng Nghaerdydd.

Er y gallai newidiadau i'r dalgylchoedd wella cydbwysedd lleoedd, mae'n bosibl na fyddai'r newidiadau hyn yn unig yn cefnogi twf yn y hirdymor ac ni fyddai'n cynrychioli cyfraniad digonol tuag at gyrraedd y targed twf sydd wedi'i nodi yn CSCA Caerdydd.

## Darpariaeth cyfrwng Cymraeg – twf wedi'i dargedu

Dros y ddeng mlynedd ddiwethaf, cafodd y galw cynyddol am leoedd cyfrwng Cymraeg ei yrru/gefnogi drwy ehangu'r ysgolion cyfrwng Cymraeg presennol.  Efallai y bydd angen mwy o ddarpariaeth er mwyn ateb galw cynyddol pellach mewn rhai rhannau o Gaerdydd. Byddai nifer y plant sy'n dewis derbyn lleoedd cyfrwng Cymraeg yn cynyddu ymhellach drwy agor neu ehangu mwy o ysgolion Cymraeg,

Mae twf ar gyfartaledd o un chwarter pwynt cynradd bobl blwyddyn yn ystod y blynyddoedd diwethaf yn nifer y lleoedd cyfrwng Cymraeg y dewisir eu derbyn.

Os bydd canran y disgyblion sy'n mynd i ddosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg yn cynyddu ar yr un gyfradd rhwng 2021 a 2030, byddai 20% o ddisgyblion yn dechrau mewn dosbarthiadau Derbyn cyfrwng Cymraeg ym Medi 2030. Y targed y mae Llywodraeth Cymru wedi'i bennu ar gyfer Caerdydd yw sicrhau twf rhwng 25% a 29% o ddysgwyr Blwyddyn 1 i gael addysg  Gymraeg erbyn diwedd y cyfnod o ddeng mlynedd.

Byddai'r capasiti presennol mewn ysgolion a dosbarthiadau cynradd cyfrwng Cymraeg yng Nghaerdydd yn ddigon i ddarparu ar gyfer hyd at 21.8% o'r boblogaeth disgyblion, y disgwylir iddynt gofrestru ym mlwyddyn ysgol 2024/ 2025. Fodd bynnag, er mwyn cyflawni'r lefel twf targedig, byddai angen twf blynyddol o rhwng 0.75% a 1.15% ledled y ddinas.

Mae tabl 13, isod, yn gynrycholiad dangosol o dwf o 1% neu 2% y flwyddyn i gynyddu'r nifer sy'n dewis derbyn lleoedd cyfrwng Cymraeg yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan, gan ystyried poblogaeth newidiol y dalgylch.

**Tabl 13: Rhagamcan a rhagolwg o'r galw a dargedir am leoedd mewn Dosbarthiadau Derbyn Cymraeg, o blith plant sy'n byw yn nalgylch Ysgol Mynydd Bychan, 2022 i 2026**

| Blwyddyn Ysgol | Ymgymeriad presennol | Ymgymeriad rhagamcanol – gan ragdybio dim cynnydd % | Cynnydd pwynt +1% | +1% o'r boblogaeth yn y dalgylch | Cynnydd pwynt +2% | +2% o'r boblogaeth yn y dalgylch |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 2022/23 | 16.2% | 37 | | | | |
| 2023/24 | 16.2% | 37 | 17.2% | 39 | 18.2% | 41 |
| 2024/25 | 16.2% | 35 | 18.2% | 41 | 20.2% | 46 |
| 2025/26 | 16.2% | 31 | 19.2% | 42 | 22.2% | 49 |
| **2026/27** | 16.2% | 34 | 20.2% | 39 | 24.2% | 46 |

Gallai'r cynnydd uchod yn y nifer sy'n dewis derbyn lleoedd gael eu lletya mewn ysgolion eraill pe na bai twf yn y nifer sy'n dewis derbyn lleoedd mewn mannau eraill. Fodd bynnag, mae'n rhaid i'r Cyngor gynyddu'r nifer sy'n dewis lleoedd ledled y ddinas i gyrraedd y targedau a osodwyd. Ni all y Cyngor, felly, ddibynnu ar leoedd ar gyfer y twf targedig mewn galw mewn ysgolion sy'n gwasanaethu dalgylchoedd cyfagos.

Byddai unrhyw dwf yng nghanran y plant sy'n cymryd lleoedd mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn arwain at lai o leoedd yn y ddarpariaeth Saesneg, allai effeithio ar ysgolion lleol a/neu ysgolion pellach.

Er y byddai angen lefel resymol o warged yn y sector Cymraeg i gefnogi twf yn y dyfodol, rhaid ystyried yr effaith ar y ddarpariaeth ysgolion bresennol o gario lefel uchel o leoedd gwag yn y sector Saesneg.

## Data Derbyn Ysgolion – Ebrill 2022

Mae data derbyn i ysgolion cynradd Medi 2023 yn cadarnhau bod 69 o ddewisiadau cyntaf wedi'u cyflwyno ar gyfer y cyfanswm cyfun o 120 o leoedd sydd ar gael yn Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone, erbyn y dyddiad cau cyhoeddedig, sef dydd Llun 9 Ionawr 2023.

Roedd 61 dewis cyntaf arall wedi'u cyflwyno ar gyfer y cyfanswm cyfunol o 110 o leoedd oedd ar gael yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff ac Ysgol Gynradd Gatholig Sant Pedr.

Cyflwynwyd 207 o ddewisiadau cyntaf ar gyfer y 210 cyfunol o leoedd oedd ar gael yn Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol y Wern.

Ar y diwrnod cynnig cenedlaethol (dydd Llun 17 Ebrill 2023), dyrannodd y Cyngor y lleoedd ysgol cymunedol canlynol yn unol â dewisiadau rhieni:

**Tabl 14: Crynodeb o ddyraniad lleoedd mewn ysgolion cynradd cymunedol, ar 17 Ebrill 2023**

| Ysgol | Nifer Derbyn | Lleoedd wedi'u dyrannu |
|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Albany | 60 | 28 |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 30 | 17 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 30 | 23 |
| Ysgol Glan Ceubal | 30 | 30 |
| **Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd** | 60 | 60 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 30 | 26 |
| Ysgol Y Wern | 90 | 83 |

Dyrannodd Cyrff Llywodraethu'r ysgolion canlynol hefyd y lleoedd canlynol yn unol â dewisiadau rhieni

| Tabl 15: Crynodeb o ddyraniad lleoedd mewn ysgolion cynradd ffydd, ar 17 Ebrill 2023 | | |
|---|---|---|
| **Ysgol** | **Nifer Derbyn** | **Lleoedd wedi'u dyrannu** |
| Ysgol Gynradd Gatholig Sant Joseff | 30 | 15 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica | 20 | 10 |
| Ysgol Gynradd Gatholig San Pedr | 60 | 36 |

Mae crynodeb llawn o'r nifer o leoedd a ddyrannwyd ar y diwrnod cynnig ar wefan y Cyngor yn www.caerdydd.gov.uk/derbyniysgolion.

Y lefel gyfunol o leoedd dros ben ym mlwyddyn Dosbarth Derbyn Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ar y diwrnod cynnig oedd 43%. Mae'r Cyngor yn disgwyl i'r nifer cyfunol sydd wedi'u dyrannu i gyrraedd tua 90 o ddisgyblion erbyn Medi 2023. Mae hyn yn rhannol oherwydd na wnaeth rhai plant mewn dosbarthiadau meithrin wneud cais erbyn y dyddiad cau, a hefyd yn sgil teuluoedd yn symud i'r ardal yn ddiweddarach.

Y lefel gyfunol o leoedd gwag ym mlwyddyn Dosbarth Derbyn Ysgol Glan Ceubal, Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd, Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol y Wern ar y diwrnod cynnig oedd 5%. Mae'r Cyngor yn disgwyl ychydig neu ddim newid i nifer y disgyblion y dyrannwyd lleoedd iddynt yn yr ysgolion hon erbyn mis Medi 2023. Mae hyn yn rhannol oherwydd bod dwy ysgol wedi tanysgrifio'n llawn, a hefyd yn sgil ychydig o deuluoedd yn symud i'r ardal yn ddiweddarach ac yn dewis addysg Gymraeg.

## Ardal



Mae Tabl 16 isod yn nodi manylion yr ysgolion hyn a'r pellteroedd rhwng safleoedd yr ysgol yn seiliedig ar lwybrau cerdded diogel (milltiroedd)

| Tabl 16: Pellteroedd rhwng safleoedd ysgol yn seiliedig ar lwybrau cerdded diogel (milltiroedd) | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Ysgol** | **Blwyddyn dderbyn** | | | | |
| **Ysgolion Cynradd** | **Ysgol Gynradd Allensbank** | **Ysgol Gynradd Gladstone** | **Ysgol Gynradd Albany** | **Ysgol Gynradd Santes Monica'r Eglwys yng Nghymru** | **Ysgol Mynydd Bychan** |
| Ysgol Gynradd Allensbank | N/A | 0.44 | 1.19 | 0.5 | 0.22 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 0.44 | N/A | 0.82 | 0 | 0.41 |
| Ysgol Gynradd Albany | 1.19 | 0.82 | N/A | 0.76 | 1.16 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 0.5 | 0 | 0.76 | N/A | 0.48 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 0.22 | 0.41 | 1.16 | 0.48 | N/A |



# Safleoedd Ysgol

## Safle Ysgol Gynradd Allensbank




Mae Ysgol Gynradd Allensbank ar safle 0.5 hectar ar Stryd Llanisien, Caerdydd CF14 3QE. Mae'r ysgol tua 0.2 milltir o Ysgol Mynydd Bychan.

Capasiti cyhoeddedig yr ysgol, yn y Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6, yw 315 o leoedd (1.5 dosbarth mynediad), a drefnir dros adeiladau babanod ac iau ar wahân. Mae'r ysgol yn gweithredu darpariaeth feithrin 48 lle a dosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith ar gyfer hyd at 8 disgybl yn y Cyfnod Sylfaen.

O 2022/2023 mae'r Nifer Derbyn ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank wedi'i osod ar 30 lle y grŵp blwyddyn.

Gall yr ysgol ddal 2 ddosbarth mynediad (hyd at 420 o ddisgyblion) ynghyd â meithrinfa, neu hyd at 360 o ddisgyblion ynghyd â darpariaeth feithrin a Chanolfan Adnoddau Arbenigol / Dosbarth Ymyrraeth Gynnar. Gan fod y dosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith yn ddarpariaeth ar draws y ddinas i blant o bob rhan o'r ddinas, gellid adleoli hon pe byddai angen.

Mae'r ysgol mewn dau adeilad rhestredig Gradd 2 a gafodd eu hasesu fel Categori Cyflwr C+ (Gwael gyda namau mawr) a Chategori Addasrwydd B (Boddhaol). Mae adeiladau'r ysgol mewn cyflwr cyffredinol foddhaol ond mae gwaith ar waliau allanol, ffenestri a'r to yn mynd rhagddo drwy raglen Asedau Cyfalaf y Cyngor. Mae rhai ardaloedd mewnol yn dioddef o bydredd sych, a bydd triniaeth yn parhau nes i'r pydredd sych gael ei waredu. Mae ar y ddarpariaeth glanweithiol angen rhywfaint o ailwampio ac mae gan y safle rywfaint o broblemau gyda draenio i'w datrys. Mae disgwyl i'r gwaith parhaus yn yr ysgol gael ei gwblhau yn Hydref 2023.

## Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica




Mae Ysgol Gynradd Gladstone ar yr un safle 0.5 hectar ag Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ar Heol yr Eglwys Newydd, Caerdydd CF14 3JL tua 0.44 milltir o Ysgol Gynradd Allensbank a 0.41 milltir o Ysgol Mynydd Bychan.

Arferai Ysgol Gynradd Gladstone fod yn ddwy ysgol fabanod ac iau ar wahân, gydag adeiladau ar wahân. Trefnwyd pob ysgol fel dau ddosbarth mynediad, gan ganiatáu hyd at 60 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn. Cyfunwyd yr ysgolion hyn i ysgol gynradd un dosbarth mynediad ym mis Medi 2000, gan ganiatáu hyd at 30 o ddisgyblion ym mhob grŵp blwyddyn, ac yn cyfnerthu yn yr adeilad iau. Trosglwyddodd Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica o safle ar Heol Merthyr i rannu safle Gladstone yn 2004.

Mae Ysgol Gynradd Gladstone ar hyn o bryd yn meddiannu'r adeilad iau ar y safle a rennir.

Mae capasiti cyhoeddedig Ysgol Gynradd Gladstone, yn y Dosbarth Meithrin i Flwyddyn 6, yn 210 lle (un dosbarth mynediad). Gallai'r capasiti gynyddu i 270 o leoedd pe bai ystafelloedd adnoddau'n cael eu defnyddio fel lleoliadau dosbarth.

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn meddiannu adeilad y babanod ar y safle a rennir. Capasiti cyhoeddedig yr ysgol, Derbyn i Flwyddyn 6, yw 146 o leoedd (0.6 dosbarth mynediad). Trosglwyddwyd safle Santes Monica o'r Cyngor i Fwrdd Cyllid Esgobaeth Llandaf ym Medi 2004.

Er bod adeiladau Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn cynnwys y cyfleusterau perthnasol i ganiatáu i ysgol weithredu ar wahân i adeiladau cyfagos Gladstone, ni fyddai'r adeiladau'n ddigon i ddarparu ar gyfer ysgol un dosbarth mynediad.

Gallai adeiladau cyfun ysgolion Gladstone a Santes Monica ddarparu ar gyfer ysgol gynradd dau Ddosbarth Mynediad (hyd at 420 o ddisgyblion) gyda meithrinfa. Gallai adeilad y Tŷ Cychod, a ddefnyddir ar hyn o bryd fel storfa, ddarparu canolfan adnoddau ychwanegol ond byddai angen buddsoddi i wneud hynny.

Mae'r ysgol mewn dau adeilad rhestredig Gradd 2 a gafodd eu hasesu fel Categori Cyflwr C+ (Gwael gyda namau mawr) a Chategori Addasrwydd B (Boddhaol). Mae adeiladau'r ysgol yn gyffredinol mewn cyflwr boddhaol, ac eithrio'r Tŷ Cychod yn Gladstone sydd angen gwaith sylweddol i'r to er mwyn trwsio dŵr a thamprwydd sy'n treiddio i mewn i'r adeilad. Cynlluniwyd gwaith i waliau, ffenestri a thoeau allanol drwy raglen Asedau Cyfalaf y Cyngor ac yn mynd rhagddo.  Mae'r gwaith hwn wedi cael ei gyflwyno'n briodol fesul cam er mwyn tarfu cyn lleied â phosibl ar addysgu a dysgwyr.

Mae waliau ffiniau sy'n dangos arwyddion o ddirywiad oherwydd oedran wedi cael eu hailadeiladu'n ddiweddar. Mae disgwyl i waith atgyweirio ac adnewyddu'r adeilad a ddefnyddiwyd yn flaenorol ar gyfer gofal plant ar safle Santes Monica gael ei gwblhau yn nhymor yr haf 2023.

Mae disgwyl i'r gwaith sy'n weddill i adeilad Santes Monica gael ei gwblhau erbyn mis Medi 2023. Mae disgwyl i waith i adeilad Gladstone gael ei gwblhau erbyn diwedd Rhagfyr 2023.



**Canfod mwy yma**
www.caerdydd.gov.uk/YsgolionCynraddCathaysaGabalfa

## Safle Ysgol Mynydd Bychan




Mae Ysgol Mynydd Bychan wedi ei lleoli ar safle 0.2 hectar ar Heol Seland Newydd, Caerdydd CF14 3BR.

Capasiti cyhoeddedig yr ysgol, Derbyn i Blwyddyn 6 yw 192 o leoedd (0.9 dosbarth mynediad) a drefnwyd dros un bloc. Mae'r ysgol hefyd yn gweithredu darpariaeth feithrin â 64 o leoedd.

Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn derbyn hyd at 30 o ddisgyblion fesul grŵp blwyddyn. Fodd bynnag, nid yw saith o wyth ystafell ddosbarth yr ysgol yn ddim mwy na 45m2 o ran maint a dylai gynnwys hyd at 24 disgybl fel arfer.

Gallai'r safle gynnwys ysgol 0.9 dosbarth mynediad, gan ddefnyddio pob un o'r wyth ystafell ddosbarth, ynghyd â'r feithrinfa. Fel arall, gallai'r safle gynnwys ysgol 0.8 dosbarth mynediad ynghyd â dosbarth arbenigol, a meithrinfa.

Nid oes digon o le ar y safle i ganiatáu ar gyfer ehangu'r ysgol.

Mae'r safle hwn yn cynnwys un adeilad wedi'i rannu'n 2 floc, y ddau o oedrannau gwahanol, er bod y safle wedi derbyn sgôr Cyflwr o B (boddhaol gyda mân ddirywiadau) a sgôr Addasrwydd o B (boddhaol ond nid yw'n cefnogi'r cwricwlwm mewn rhai meysydd). Mae angen rhywfaint o fân waith cynnal a chadw a chylchynol. Ar hyn o bryd nid oes cynlluniau ar gyfer cynnal gwaith Asedau Cyfalaf ar yr adeilad hwn, ond mae'r adeilad yn parhau i gael ei adolygu.

# Ansawdd a Safonau ar hyn o bryd

Mae pob un o'r ysgolion yn destun monitro a chefnogaeth barhaus drwy Gonsortiwm Canolbarth y De ac arolygon rheolaidd gan Estyn.

## Ysgol Gynradd Allensbank

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Allensbank.

- Mae'r ysgol yn casglu ac yn dadansoddi ystod o dystiolaeth uniongyrchol sy'n sail i gynllun strategol yr ysgol ar gyfer gwella.
- Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu ac mae'r rhain yn cael eu hadlewyrchu yng nghynllun gwella'r ysgol. Nodir y blaenoriaethau drwy galendr o weithgareddau monitro.
- Mae uwch dîm arwain ehangach yr ysgol yn gwireddu'r Cwricwlwm i Gymru trwy eu hymchwil a'u harloesedd ehangach.
- Mae arweinwyr yr ysgol a staff yn gweithio ar y cyd gyda disgyblion, rhieni a llywodraethwyr i greu a rhannu gweledigaeth ar gyfer y cwricwlwm.
- Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn diwygiad ADY ac wedi ymateb i'r gofynion statudol.
- Bu'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda disgyblion a'u teuluoedd yn ystod y pandemig ac ar ôl hynny i'w cefnogi mewn nifer o ffyrdd, megis datblygu addysgu ar-lein; darparu sesiynau lles.
- Mae'r ysgol yn parhau i ddatblygu cysylltiad rhieni gyda defnydd effeithiol o dechnoleg sy'n rhoi cyfle i rieni gyfathrebu yn iaith y cartref.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Ionawr 2020, barnwyd bod safonau, lles ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, cymorth gofal ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda.

## Ysgol Gynradd Gladstone

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd Gladstone.

- Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu ac mae'r meysydd hyn yn cael eu cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei llywio gan ystod o weithgareddau monitro dros gyfnod y flwyddyn academaidd, ac mae'r partner gwella wedi bod ynghlwm wrth lawer ohonynt.
- Mae'r ysgol wedi ymgysylltu â chynllunio'r cwricwlwm ac yn datblygu cwricwlwm i adlewyrchu cymuned yr ysgol. Mae dau uwch arweinydd wedi arwain gyda'r gwaith hwn a sicrhau bod y datblygiadau'n seiliedig ar benderfyniadau gwybodus trwy ymweld ag ysgolion eraill; darllen proffesiynol personol ac ymchwil gweithredu.
- Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn diwygiad ADY ac wedi ymateb i'r gofynion statudol.

- Bu'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda disgyblion a'u teuluoedd yn ystod y pandemig ac ar ôl hynny i'w cefnogi mewn nifer o ffyrdd, megis datblygu addysgu ar-lein; darparu sesiynau lles a gweithredu fel ffynhonnell gwybodaeth a chyngor.

- Mae arweinwyr yr ysgol yn gweithio'n galed i ddiwallu anghenion ei chymuned amrywiol ac wedi sefydlu ethos cefnogol cadarnhaol yn yr ysgol. Mae buddsoddiad mewn Thrive a CCLIE wedi helpu i ddarparu cefnogaeth emosiynol i ddisgyblion a'u teuluoedd. Mae'r ysgol wedi ennill ei gwobr Parchu Hawliau Arian

- Mae'r pennaeth yn gweithio'n ddiflino i gefnogi pob disgybl a'i deulu i sicrhau na chaiff yr un disgybl ei adael ar ôl naill ai'n academaidd neu'n fugeiliol.

Yn ôl arolwg diweddaraf Estyn o Ysgol Gynradd Gladstone ym mis Tachwedd 2022, barnwyd bod dysgu, lles ac agweddau'r ysgol at ddysgu, addysgu a phrofiadau dysgu, cymorth gofal ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth yn dda.

## Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica.

- Mae'r ysgol yn ymwybodol o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen eu datblygu ac mae'r meysydd hyn yn cael eu cynnwys yng nghynllun gwella'r ysgol. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei llywio gan galendr o weithgareddau monitro.

- Mae'r ysgol wedi ymgysylltu â chynllunio'r cwricwlwm ac yn datblygu cwricwlwm i adlewyrchu cymuned yr ysgol.

- Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn diwygiad ADY ac wedi ymateb i'r gofynion statudol.

- Bu'r ysgol yn cydweithio'n agos gyda disgyblion a'u teuluoedd yn ystod y pandemig ac ar ôl hynny i'w cefnogi mewn nifer o ffyrdd, megis datblygu addysgu ar-lein; darparu sesiynau lles a chyflenwi parseli bwyd.

- Mae gan yr ysgol, fel ysgol Eglwys, gysylltiadau cymunedol cryf, gan gynnwys y rhai sydd ag eglwys y Bwrdd ac mae'n gweithio'n galed i ddiwallu anghenion ei chymuned amrywiol ac amrywiol. Mae wedi buddsoddi yn Thrive i ddarparu cefnogaeth emosiynol i ddisgyblion a'u teuluoedd.

- Mae'r pennaeth yn gweithio'n ddiflino i gefnogi pob disgybl a'i deulu i sicrhau na chaiff yr un disgybl ei adael ar ôl naill ai'n academaidd neu'n fugeiliol.

Barnodd arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Ebrill 2019 fod safonau, lles ac agweddau'r ysgol at brofiadau dysgu, addysgu a dysgu, cymorth gofal ac arweiniad ac arweinyddiaeth a rheolaeth Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn dda.

## Ysgol Mynydd Bychan

Darparwyd y wybodaeth ganlynol gan Gonsortiwm Canolbarth y De yn ymwneud ag ansawdd a safonau yn Ysgol Mynydd Bychan.

- Mae'r ysgol yn defnyddio ystod eang o brosesau hunanwerthuso sy'n galluogi adnabod cryfderau a meysydd i'w datblygu yn gywir, sy'n bwydo i mewn i Gynllun Datblygu'r Ysgol.
- Mae gweithgareddau hunanwerthuso a monitro rheolaidd drwy gydol y flwyddyn yn galluogi'r ysgol i werthuso cynnydd yn erbyn blaenoriaethau y cytunwyd arnynt yng Nghynllun Datblygu'r Ysgol.
- Mae'r ysgol wedi ymgysylltu â diwygio addysg ac yn gweithio ar ddatblygu ymhellach ei chwricwlwm yn unol â chanllawiau ac mewn cydweithrediad â'r clwstwr a phartneriaid eraill.
- Mae'r ysgol wedi ymateb i ofynion diwygio ADY ac yn cyflawni ei dyletswyddau statudol yn hyn o beth.
- Mae cyllid grant yn cael ei ddefnyddio i ddarparu ymyrraeth a chymorth i ddisgyblion a nodwyd, gan leihau effaith Covid ar addysg, safonau, a lles.
- Mae'r ysgol yn adnabod ei chymuned yn dda ac mae ymgysylltu â rhanddeiliaid ehangach, yn enwedig rhieni, yn rhan gynhenid o weledigaeth yr ysgol. E.e., ei menter 'Diwrnod i wneud gwahaniaeth' rheolaidd lle mae'r gymuned yn cydweithio ar benwythnos i wella'r ysgol a'i hamgylchedd.
- Mae'r ysgol wedi'i gwreiddio'n ddwfn yn ei chymuned gyda lles disgyblion yn annatod a diwylliant o ddisgwyliadau uchel a chyflawniad ar gyfer ei holl ddisgyblion yn rhan o'i gwerthoedd craidd.
- Mae'r Pennaeth ac uwch arweinwyr yn creu diwylliant o arweinyddiaeth wasgaredig, gan weithio mewn partneriaeth â'r Corff Llywodraethu i ddiwallu anghenion pob disgybl, mewn amgylchedd diogel sy'n meithrin.

Yn ôl arolwg mwyaf diweddar Estyn ym mis Tachwedd 2015, cafodd yr ysgol ei barnu fel da (llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig yn gofyn am welliant sylweddol) gyda rhagolygon ar gyfer gwella hefyd yn cael eu nodi fel da.



Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/YsgolionCynraddCathaysaGabalfa

## Newidiadau arfaethedig i leoedd ysgol Cymraeg a Saesneg

Mae'r nifer presennol o lefydd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgolion Cynradd Albany, Allensbank a Gladstone yn ddigon i ddarparu ar gyfer y galw a ragwelir am leoedd ysgol. Mae hefyd yn caniatáu gwarged uchel i ymateb i unrhyw amrywiad posibl neu gynnydd parhaus yn y galw, a'r lefelau uchel o symudedd disgyblion yn yr ardal. Ymchwiliodd y Cyngor i allu safleoedd i gefnogi'r gwaith o ad-drefnu'r ddarpariaeth. Mae tri opsiwn wedi'u nodi i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yn yr ardal.

- Byddai'r opsiynau a nodwyd yn caniatáu cyfuno darpariaeth ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg ar lefel gyfatebol, neu ostyngiad bach i'r trefniadau presennol.
- Byddai pob un o'r opsiynau yn caniatáu ehangu Ysgol Mynydd Bychan.
- Byddai newid yn nifer y lleoedd i ddisgyblion ysgol gynradd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica..

Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau safle amgen a allai fod ar gael ac sydd mewn lleoliadau canolog yn nalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan, i ganiatáu i'r ysgol gael ei hehangu.

Nid oes digon o le ar safle presennol Ysgol Mynydd Bychan i ganiatáu ar gyfer yr ehangiad hwn. Nid oes safle gwag addas ar gael yn agos at yr ysgol a allai ddarparu ar gyfer Ysgol Mynydd Bychan fwy ei maint.


Mae digon o gapasiti hefyd yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Byddai ad-drefnu darpariaeth yn ffordd briodol o gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal. Byddai hefyd yn caniatáu defnydd mwy effeithiol ac effeithlon o adnoddau. Byddai hyn yn cadw hyblygrwydd yn yr ystâd ysgolion er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth yn y dyfodol sy'n effeithio ar yr ardal.

Mae'r Cyngor wedi diystyru ad-drefnu'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Gynradd Albany. Mae Ysgol Gynradd Albany yn bellter mwy o gyfeiriadau cartref disgyblion sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd yn Ysgol Mynydd Bychan, ac mae lefel gymharol isel o gwarged at ei gilydd o tua 10%, a defnyddir pob un o'i hystafelloedd dosbarth fel safle dosbarth.

Byddai unrhyw gynigion i gynyddu nifer y lleoedd yn y ddarpariaeth Gymraeg, tra bod y nifer derbyn i ysgolion yn disgyn, yn golygu y byddai'r niferoedd sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg yn disgyn ymhellach.

Gellir gweld gwybodaeth ar bob opsiwn ar dudalennau 39 - 63.

# Opsiwn 1 -
# Trefniadaeth y Safle




**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y newidiadau canlynol i ddarpariaeth ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg:**

- Cyfuno Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone drwy
  - o Gau Ysgol Gynradd Allensbank yn ffurfiol
  - o Cau Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol
  - o Sefydlu ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd â 420 o leoedd (2 ddosbarth mynediad) gyda meithrinfa ar safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica

**Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn ymgynghori ar y newidiadau canlynol:**

- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth meithrin yn yr ysgol

**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y newidiadau canlynol i ddarpariaeth ysgolion cynradd cymunedol Cymraeg:**

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9 dosbarth mynediad) i 420 o leoedd (2 ddosbarth mynediad)
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96

Byddai'r cynnig yn cael ei weithredu'n llawn o fis Medi 2025.

## Derbyn i Addysg Gynradd

Y nifer presennol o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Allensbank yw 30 (un dosbarth mynediad). Y nifer presennol o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Gladstone yw 30 (un dosbarth mynediad). O fis Medi 2025, byddai'r nifer o leoedd wrth fynediad i addysg gynradd yn yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg newydd yn 60 (dau ddosbarth mynediad).

Nifer bresennol yr ysgolion cynradd wrth dderbyn i addysg gynradd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yw 20 (0.7 dosbarth mynediad). Y bwriad yw y byddai nifer y llefydd yn aros yn 20 ym mis Medi 2025.

Y nifer presennol o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Mynydd Bychan yw 30 (un dosbarth mynediad). Y nifer o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Mynydd Bychan o fis Medi 2025 fyddai 30 (un dosbarth mynediad).

Byddai pob disgybl ar gofrestr Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone adeg y cyfuno (Medi 2025) yn cael cynnig cyfle i drosglwyddo i rolio'r ysgol gynradd newydd oni bai eu bod yn dymuno trosglwyddo i ysgol amgen.

Byddai disgyblion ar gofrestr Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ar adeg y trosglwyddiad (Medi 2025) yn dal i fod ar y gofrestr oni bai eu bod nhw'n dymuno trosglwyddo i ysgol arall.

Byddai disgyblion ar gofrestr Ysgol Mynydd Bychan ar adeg y trosglwyddiad (Medi 2025) yn dal i fod ar y gofrestr oni bai eu bod nhw'n dymuno trosglwyddo i ysgol arall.

## Darpariaeth Feithrin

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ariannu 112 o leoedd meithrin cymunedol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r nifer sy'n cael eu hariannu yn lleihau i 96 o lefydd y flwyddyn nesaf, er mwyn adlewyrchu'r galw.  Y bwriad yw cadw digon o le i ddarparu hyd at 96 o leoedd meithrin cymunedol cyfrwng Saesneg yn yr ysgol newydd.

Pe bai'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei ddwyn ymlaen, cynigir y dylid darparu 32 o leoedd meithrin rhan amser. Byddai hyn yn datblygu dilyniant a pharhad yn nysg plant o 3 oed yn yr ysgol.

Byddai nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei gynyddu o 64 i 96 i gefnogi ei thwf i ysgol dau ddosbarth mynediad.

Yn gyffredinol, byddai lle i ddarparu mwy o leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael ei gadw. Byddai nifer y llefydd sy'n cael eu hariannu yn adlewyrchu'r galw am lefydd yn yr ardal leol, fel ar hyn o bryd.

## Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae dosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r Cyngor yn derbyn hyd at 8 plentyn Cyfnod Sylfaen i'r ddarpariaeth hon ledled y ddinas nad oeddent yn gwneud cynnydd digonol, ond sydd â digon o botensial i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd leol.

Mae'r lleoliadau yn para rhwng 1-3 blynedd, gan ddibynnu ar eu cynnydd. Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn cael cefnogaeth i ddychwelyd i'r ysgol honno ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf un diwrnod yr wythnos, er mwyn cadw cyswllt â ffrindiau lleol a pharatoi at ddychwelyd yno'n llawn amser.

Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu'r dosbarth Lleferydd ac Iaith dinas gyfan o fewn yr ysgol newydd mewn ymgynghoriad â chorff / cyrff llywodraethu'r ysgol berthnasol, gan ystyried dyheadau pob ysgol.

Gallai'r cynnig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddosbarth mynediad, a gallai trosglwyddo i safle Ysgol Gynradd Allensbank roi cyfle i ystyried sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn y Gymraeg. Byddai angen datblygu cynigion ar wahân ar gyfer y ddarpariaeth hon.

## Beth yw manteision y cynnig?

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn:

- darparu patrwm mwy economaidd gynaliadwy o ddarpariaeth ysgol yn yr hirdymor
- cefnogi ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol mewn patrwm gwell o ddarpariaeth trwy gyfuno
- cynorthwyo ysgolion i ddyrannu cyfran uwch o gyllideb i addysgu a dysgu, a thrwy hynny gadw a chynyddu cyfleoedd i ddysgwyr
- darparu cydbwysedd gwell rhwng argaeledd a nifer y disgyblion sy'n derbyn lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- cynnal nifer presennol y lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ddarparu ar gyfer yr ardal leol
- galluogi sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica a'r buddion cysylltiedig
- cefnogi cynnydd tuag at dargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a Cymraeg 2050

- cefnogi Ysgol Mynydd Bychan i gynnal a pharhau i adeiladu ar ei safonau rhagorol
- yn caniatáu i fwy o blant elwa o'r addysg sydd ar gael yn Ysgol Mynydd Bychan
- arwain at lai o blant yn cael eu gwrthod i ysgol leol
- fel isafswm, cynnal y safonau addysg presennol a galluogi pob ysgol i barhau i wella addysg i'w holl ddysgwyr
- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn gallu eu gwasanaethu yn y dyfodol
- galluogi cadw safleoedd ysgolion i ddiogelu yn erbyn newidiadau yng nghylch y boblogaeth yn y dyfodol

Byddai sefydlu ysgol gynradd Saesneg â dau ddosbarth mynediad, ac ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddosbarth mynediad, yn ategu dysgu ac addysgu drwy alluogi:

- i'r ardal gynnwys mwy o ysgolion dau ddosbarth mynediad. o'i chymharu ag ysgolion llai, mae maint ysgol gynradd â dau ddosbarth mynediad yn cynnig mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion oherwydd canolfan adnoddau wedi'i hehangu a gwell â mwy o sicrwydd ariannol
- gall ysgol â dau ddosbarth mynediad roi mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth, gan gynnwys cynnal nifer llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol.
- byddai'r gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a chymorth yn galluogi'r ysgolion â dau ddosbarth mynediad i gynnig ystod ehangach o arbenigedd cwricwlaidd
- Nifer mwy o athrawon i rannu llwyth gwaith ac arbenigedd
- mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. athrawon newydd gymhwyso all arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog
- cyfleoedd i staff addysgu i'w cryfderau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiad addysg gorau posib
- nifer mwy o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a Chymhwysedd Digidol
- mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol
- mwy o gyfleoedd i arweinyddiaeth wasgaredig

Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica yn:

- sicrhau parhad darpariaeth sy'n adlewyrchu ethos a diwylliant yr ysgol
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol rhieni â'r ysgol o'r cyfle cyntaf posibl

- hwyluso'r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (lle mae'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus)
- galluogi adnabod grwpiau sy'n agored i niwed yn gynnar. byddai hyn yn golygu y gellir nodi anghenion plant cyn gynted â phosibl
- rhoi cyfle i blant fynd i'r ysgol feithrin ar yr un safle â'u brodyr a'u chwiorydd hŷn. Dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau ymarferol posibl wrth chwilio am ddarpariaeth gofal plant arall
- sicrhau parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol

## Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf.

Mae'r safonau yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Mae'r cynnig i sefydlu ysgol gynradd newydd cyfrwng Saesneg â dau ddosbarth mynediad, ehangu arfaethedig Ysgol Mynydd Bychan yn ddau ddosbarth mynediad,  a sefydlu darpariaeth feithrin yn Santes Monica yn gyfle i wireddu amrywiaeth o fuddion addysgol a fyddai'n galluogi pob un o'r ysgolion i adeiladu ar y cynnydd presennol gan sicrhau effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg ar gyfer disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol.

Byddai'r opsiynau hyn yn cyfuno ysgolion cynradd Allensbank a Gladstone, a byddai cyfuno eu cyllidebau'n galluogi ailddosbarthu adnoddau ariannol i'r ysgolion. Byddai hyn yn bosibl gan y byddai un ysgol yn llai, ac felly'n ostyngiad yn nifer y dyraniadau cyfandal i ysgolion unigol.

Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, cynigir y byddai'r swm cyfatebol yn cael ei glustnodi ar gyfer y ddau ddosbarth mynediad cyfrwng Saesneg newydd eu sefydlu am dair blynedd. Byddai hyn yn cefnogi'r ysgol i ddatblygu darpariaeth a/ neu fuddsoddi mewn adnoddau ymhellach er budd ei disgyblion, ac i gynnal a gwella safonau. Y tu hwnt i'r cyfnod tair blynedd hwn, byddai'r swm hwn ar gael i'w ailddosbarthu i ysgolion cynradd ledled y ddinas.

## Anfanteision posibl y cynigion

- O gymharu â'r trefniadau presennol, mae potensial am fwy o dagfeydd traffig o amgylch safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank a'r safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol.  Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.
- Byddai'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn arwain at golli dau sefydliad hanesyddol sy'n cael eu gwerthfawrogi gan eu cymunedau.

## Risgiau

- Mae perygl y bydd cynnydd yn y galw am leoedd cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn monitro'r galw dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod digon o leoedd i'r rhai sydd angen addysg cyfrwng Saesneg. Gan fod y cynigion yn cadw'r holl safleoedd presennol ac nad ydynt yn lleihau'r llety sydd ar gael, byddent yn cadw'r hyblygrwydd i gyflawni unrhyw newidiadau yn y dyfodol y gellir eu nodi'n briodol.
- Mae perygl na fydd cynnydd yn nifer y disgyblion sydd am gael lleoedd Cymraeg. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei amcanestyniadau a byddai'n ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath yn y galw os bydd angen.
- Mae effaith bosib ar nifer y llefydd sydd yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos. Fodd bynnag, disgwylir i hyn fod yn fyrdymor gan fod nifer y disgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg cael ei dargedu i dyfu fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).
- Mae perygl y bydd posibilrwydd o darfu ar ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio wrth i waith adeiladu / adnewyddu gael ei wneud. Fodd bynnag mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion a feddiannir o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol. Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau uchel o ran addysg a diogelwch yn cael eu cynnal.

## Adnoddau Dynol a Materion Cyllid

### Cyfrwng Saesneg

Mae nifer y rolau addysgu a dysgu sydd eu hangen ar gyfer ysgol gynradd mynediad dau ddosbarth mynediad yn debyg i'r swm sydd ei angen ar gyfer dwy ysgol gynradd ag un dosbarth mynediad. Fodd bynnag, byddai'r math a'r nifer o rolau sydd eu hangen yn ddibynnol ar nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr ac ar sefyllfa cyllideb yr ysgol.

Lle mae rolau'n cael eu dyblygu e.e., swyddi Pennaeth a Dirprwy Bennaeth, staff gweinyddol ac ystadau, disgwylir y byddai gostyngiad yn nifer y rolau sydd eu hangen yn gyffredinol.

Mae'r cynnig i gau Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ffurfiol a sefydlu ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad newydd yn rhoi staff mewn perygl o ddiswyddiadau a byddai angen rheoli hyn yn unol â'r Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion.

Un o ddyheadau allweddol y Cyngor yw lleihau nifer y staff drwy adleoli cynifer ag y bo modd yn hytrach nag ymddiswyddo gwirfoddol neu orfodol. Felly, mae'r Cyngor yn ymrwymedig i sicrhau cynifer o gyfleoedd â phosib i staff ysgolion i sicrhau cyflogaeth mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd trwy adleoli i swyddi gwag mewn ysgolion eraill yng Nghaerdydd.

Byddai'r trefniadau adleoli hefyd yn cael eu hystyried pe bai'r penderfyniad yn cael ei wneud i adleoli'r dosbarth Lleferydd ac Iaith o Ysgol Gynradd Allensbank i gylch gwaith Corff Llywodraethu ysgol arall.

Byddai sefydlu ysgol newydd yn golygu bod angen sefydlu Corff Llywodraethu dros dro i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu strwythur staffio priodol a phenodiadau i hwn.

Byddai unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud o ran staffio yn fater i'r Corff Llywodraethu perthnasol.

Byddai'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion sy'n deillio o gyflwyno darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd y Santes Monica yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu a'r Uwch Dîm Arwain gynllunio ar gyfer gofynion gweithlu staffio ychwanegol.

Byddai cymorth llawn yn cael ei gynnig i staff yr ysgol a'r cyrff llywodraethu gan Wasanaethau Pobl AD trwy gydol y broses ad-drefnu. Byddai hyn yn golygu mynychu cyfarfodydd ymgynghori, cyfarfodydd â staff yr ysgol lle bo hynny'n briodol a dosbarthu dogfen Cwestiynau Cyffredin.

Rhaid i arian i gefnogi'r gwaith o ad-drefnu darpariaeth cyfrwng Saesneg fod ar gael o adnoddau'r Cyngor. Ni fyddai unrhyw arbedion i'r Cyngor o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig. Byddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fyddai'n deillio o ostyngiad yng nghostau arweinyddiaeth a sefydlu'n galluogi cyllid i gael ei ddyrannu yn fwy effeithiol o fewn y gyllideb Addysg.

Byddai'r arbedion fformiwla cyllideb ysgolion o gyfuno Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone, trwy gau'r ddwy ysgol a chreu un ysgol gynradd dau ddosbarth mynediad fel y nodir yn Opsiwn 1, tua £98,000 y flwyddyn. Mae hyn yn seiliedig ar ddileu un o'r lwfansau cyfandal a ddarperir i ysgolion ledled y ddinas.

Byddai'r opsiwn hwn i gyfuno ysgolion cynradd Allensbank a Gladstone a chyfuno eu cyllidebau'n galluogi ailddosbarthu adnoddau ariannol i'r ysgolion ledled y ddinas trwy leihau nifer y cyfandaliadau'n sy'n cael eu dyrannu i'r ysgolion unigol.

Pe bai Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, cynigir y byddai'r swm cyfatebol yn cael ei glustnodi ar gyfer yr ysgol dau ddosbarth mynediad cyfrwng Saesneg newydd am dair blynedd. Byddai hyn yn cefnogi'r ysgol i ddatblygu darpariaeth a/neu fuddsoddi mewn adnoddau ymhellach er budd ei disgyblion. Y tu hwnt i'r cyfnod hwn, byddai'r swm hwn ar gael i'w ailddosbarthu i ysgolion cynradd ledled y ddinas.

Byddai opsiwn 1 yn arwain at ddadleoli Pennaeth presennol ac ailstrwythuro'r arweinyddiaeth. Gallai'r arbedion disgwyliedig yng nghyllideb yr ysgol, o'u cymharu â'r ddwy gyllideb bresennol gyda'i gilydd, ddod i tua £100,000 i £114,000 y flwyddyn yn ogystal ag argostau, ar sail canolbwynt ystodau cyflog y tîm arwain presennol a gweithredu strwythur arweinyddiaeth newydd ag un Pennaeth a dau Ddirprwy Bennaeth.

## Cyfrwng Cymraeg

Byddai'r cynnig i adleoli ysgol yn gofyn am lefelau uchel o ymgynghori â staff ac undebau llafur, cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau ar gyfer pontio o un safle ysgol i'r llall. Dylid sicrhau cyfranogiad staff wrth ddatblygu manylebau neu ddyluniadau adeiladu.

Byddai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai'r Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer unrhyw staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Llwyddodd y Cyngor i sicrhau arian grant gwerth £1.8m gan Lywodraeth Cymru i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yng nghanol Caerdydd ac ehangu lleoedd cyfrwng Cymraeg trwy ychwanegu un Dosbarth Mynediad (210 o leoedd). Diben y Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg yw cefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd ar y Gymraeg.

Mae'r arian a ddyrannwyd i Gyngor Caerdydd wedi'i glustnodi i gefnogi ehangu ar y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a byddai'n caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgol i gefnogi nifer uwch o ddysgwyr.

## Trafnidiaeth/Teithio i'r ysgol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022.Mae cynlluniau o'r fath yn nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol. Mae swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu'r rhain ac mae'r pedair ysgol sy'n rhan o'r newidiadau arfaethedig eisoes wedi rhoi Cynllun Teithio Llesol ar waith ar gyfer eu safleoedd presennol.

Rhaid bod gan bob ysgol (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u had-drefnu) gynllun o'r dechrau.

Bydd swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol yn parhau i weithio gyda'r ysgolion wrth adolygu a datblygu ymhellach eu Cynlluniau Teithio Llesol presennol fel y bo'n briodol i gyd-fynd ag unrhyw newid mewn amgylchiadau. Gallant helpu i ymgysylltu ar y Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o'r gwaith o greu mwy o leoedd ac unrhyw newidiadau mewn lleoliad carfannau ysgol i safleoedd eraill.

Ar ôl ad-drefnu'r ysgolion, byddai'r Cyngor yn monitro'r amodau y tu allan i'r ysgolion ar eu newydd gwedd er mwyn gweld a oes angen unrhyw fesurau pellach, megis cyfyngiadau parcio. Bydd y cwmpas ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau parcio yn cael ei ymchwilio a'i roi ar waith lle bo'n briodol fel mesur cost isel i helpu i annog pobl i beidio â defnyddio'r car i deithio pellter byr, gwneud yr amgylchedd y tu allan i bob ysgol yn fwy diogel ac yn fwy ffafriol i gerdded, sgwtera a beicio a gwneud y mwyaf o deithio llesol i'r ysgol.

Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol.

Bydd adeiladu'r llwybr Beicio 1.2 newydd ar hyd Teras Cathays, Heol yr Eglwys Newydd a Heol Allensbank yn darparu cyfleuster beicio newydd sy'n cysylltu'n uniongyrchol â safleoedd presennol Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

Lle nodir y bydd rhai disgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol bydd y cyfleusterau ar gyfer gollwng a chasglu disgyblion yn cael eu hadolygu er mwyn nodi unrhyw welliannau angenrheidiol.


Y pellter mwyaf rhwng safleoedd yr ysgolion uchod yw tua 0.5 milltir. Felly, pe bai unrhyw un o'r ysgolion yn cael ei hadleoli ar safle arall, y cynnydd mwyaf yn y pellter teithio rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion presennol fyddai 0.5 milltir.

Byddai sefydlu ysgol gynradd Saesneg â dau ddosbarth derbyn newydd yn Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica yn arwain at gynnydd yn y pellter teithio i ddisgyblion Ysgol Gynradd Allensbank. Yr effaith ar y disgyblion hyn fyddai cynnydd o 0.08 milltir yn y pellter teithio cyfartalog.

Byddai trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle Ysgol Mynydd Bychan yn arwain at gynnydd o 0.2 filtir yn y pellter teithio cyfartalog.

Byddai trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle Ysgol Gynradd Allensbank yn arwain at gynnydd o 0.04 milltir yn y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion presennol Ysgol Mynydd Bychan.

# Opsiwn 2
# Trefniadaeth y Safle




**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y newidiadau canlynol i ddarpariaeth ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg:**

- Cydleoli Ysgolion Cynradd Allensbank a Gladstone ar safle cyfunol:
  - o Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica
  - o *Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 (1.5 dosbarth mynediad) i 210 (1 dosbarth mynediad)
  - o Lleihau ystod oedran Ysgol Gynradd Allensbank o 3-11 oed i 4-11 oed trwy derfynu darpariaeth feithrin yr ysgol
  - o Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Gladstone o 64 i 96

*Yn dilyn ymgynghoriad, cafodd y Nifer Derbyn Cyhoeddedig ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank ei ostwng i 30 lle o 2022/2023.   Byddai gostyngiad yn nifer y lleoedd yn yr ysgol yn alinio nifer y lleoedd a'r Nifer Derbyn Cyhoeddedig.

Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi ystyried ymhellach i gydweithredu/ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone.

**Mae Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn ymgynghori ar y newidiadau canlynol:**

- Trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a sefydlu darpariaeth meithrin yn yr ysgol

**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y newidiadau canlynol i ddarpariaeth ysgolion cynradd cymunedol Cymraeg:**

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9DM) i 420 o leoedd (2DM)
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96

Byddai'r cynnig yn cael ei weithredu'n llawn o fis Medi 2025.

## Derbyn i Addysg Gynradd

Y nifer presennol o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Allensbank yw 30 (un dosbarth mynediad). Y nifer presennol o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Gladstone yw 30 (un dosbarth mynediad). Y bwriad yw y byddai nifer y llefydd ym mhob ysgol yn aros yn 30 ym mis Medi 2025.

Nifer bresennol yr ysgolion cynradd wrth dderbyn i addysg gynradd yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yw 20 (0.7 dosbarth mynediad). Y bwriad yw y byddai nifer y llefydd yn aros yn 20 ym mis Medi 2025.

Y nifer presennol o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Mynydd Bychan yw 30 (un dosbarth mynediad). Y nifer o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Mynydd Bychan o fis Medi 2025 fyddai 30 (un dosbarth mynediad).

Byddai disgyblion ar gofrestr yr ysgolion ar adeg y newidiadau (Medi 2025) yn dal i fod ar y gofrestr oni bai eu bod nhw'n dymuno symud i ysgol arall.

## Darpariaeth Feithrin

Ar hyn o bryd mae'r Cyngor yn ariannu 112 o leoedd meithrin cymunedol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r nifer sy'n cael eu hariannu yn lleihau i 96 o lefydd y flwyddyn nesaf, er mwyn adlewyrchu'r galw.  Y bwriad yw cadw digon o le i ddarparu hyd at 96 o leoedd meithrin cymunedol cyfrwng Saesneg ar safle cyfunol yr ysgolion. Byddai'r lleoedd hyn yn cael eu darparu yn Ysgol Gynradd Gladstone.

Pe bai'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei ddwyn ymlaen, cynigir y dylid darparu 32 o leoedd meithrin rhan amser. Byddai hyn yn datblygu dilyniant a pharhad yn nysg plant o 3 oed yn yr ysgol.

Byddai nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei gynyddu o 64 i 96 i gefnogi ei thwf i ysgol dau ddosbarth mynediad.

Yn gyffredinol, byddai lle i ddarparu mwy o leoedd meithrin cyfrwng Cymraeg a Saesneg yn cael ei gadw. Byddai nifer y llefydd sy'n cael eu hariannu yn adlewyrchu'r galw am lefydd yn yr ardal leol, fel ar hyn o bryd.

## Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae dosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r Cyngor yn derbyn hyd at 8 plentyn Cyfnod Sylfaen i'r ddarpariaeth hon ledled y ddinas nad oeddent yn gwneud cynnydd digonol, ond sydd â digon o botensial i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd leol.

Mae'r lleoliadau yn para rhwng 1-3 blynedd, gan ddibynnu ar eu cynnydd. Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn cael cefnogaeth i ddychwelyd i'r ysgol honno ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf un diwrnod yr wythnos, er mwyn cadw cyswllt â ffrindiau lleol a pharatoi at ddychwelyd yno'n llawn amser.

Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i sefydlu'r dosbarth Lleferydd ac Iaith ar draws y ddinas yn lleoliad newydd Ysgol Gynradd Allensbank.

Byddai ystyriaeth bellach yn cael ei rhoi i hyn mewn ymgynghoriad â chorff llywodraethu'r ysgol berthnasol/ cyrff llywodraethu'r ysgolion perthnasol, gan ystyried dyheadau pob ysgol.

Gallai'r cynnig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddosbarth mynediad, a gallai trosglwyddo i safle Ysgol Gynradd Allensbank roi cyfle i ystyried sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn y Gymraeg. Byddai angen datblygu cynigion ar wahân ar gyfer y ddarpariaeth hon.

## Ystyriaethau gweithredol

Mae safle presennol Ysgol Gynradd Gladstone / Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica yn gyffredinol yn gallu darparu lle ar gyfer hyd at 420 o ddisgyblion gyda dosbarth meithrin. Fodd bynnag, gan nad oes modd i bob adeilad ysgol gynnwys 210 o ddisgyblion yr un, byddai'n rhaid i'r ysgolion gydweithio i gytuno ar y ffordd orau o ddefnyddio'r lle sydd ar gael i fodloni gofynion gweithredol y ddwy ysgol.

## Beth yw manteision y cynnig?

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn:

- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn gallu eu gwasanaethu yn y dyfodol
- cefnogi ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol mewn patrwm gwell o ddarpariaeth trwy gydweithredu/ffederasiwn
- darparu cydbwysedd gwell rhwng argaeledd a nifer y disgyblion sy'n derbyn lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- cefnogi cynnydd tuag at dargedau CSCA a Cymraeg 2050
- cefnogi Ysgol Mynydd Bychan i gynnal a pharhau i adeiladu ar ei safonau rhagorol
- yn caniatáu i fwy o blant elwa o'r addysg sydd ar gael yn Ysgol Mynydd Bychan
- arwain at lai o blant yn cael eu gwrthod i ysgol leol
- fel isafswm, cynnal y safonau addysg presennol a galluogi pob ysgol i barhau i wella addysg i'w holl ddysgwyr
- cynnal nifer presennol y lleoedd ysgol gynradd cyfrwng Saesneg i ddarparu ar gyfer yr ardal leol
- galluogi sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica a'r buddion cysylltiedig
- galluogi cadw safleoedd ysgolion i ddiogelu yn erbyn newidiadau yng nghylch y boblogaeth yn y dyfodol

Byddai sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica yn:

- sicrhau parhad darpariaeth sy'n adlewyrchu ethos a diwylliant yr ysgol
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu cysylltiadau cryf ac effeithiol rhieni â'r ysgol o'r cyfle cyntaf posibl
- hwyluso'r broses bontio i blentyn oed meithrin wrth fynd i'r Dosbarth Derbyn (lle mae'r cais am le yn y Dosbarth Derbyn wedi bod yn llwyddiannus)
- galluogi adnabod grwpiau sy'n agored i niwed yn gynnar. Bydd hyn yn golygu y gellir nodi anghenion plant mor gynnar â phosibl
- rhoi cyfle i blant fynd i'r ysgol feithrin ar yr un safle â'u brodyr a'u chwiorydd hŷn. Dylai hyn effeithio'n gadarnhaol ar amser rhieni a lleihau'r anawsterau ymarferol posibl wrth chwilio am ddarpariaeth gofal plant arall
- sicrhau parhad a dilyniant rhwng y Blynyddoedd Cynnar a'r Cyfnod Sylfaen, gan wella'r cyfle i fynd i'r afael yn briodol ag anghenion datblygiadol a diwylliannol unigol

Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddosbarth mynediad yn cefnogi addysgu a dysgu trwy ddarparu ar gyfer y canlynol:

- galluogi'r ysgol i gynyddu i ddau ddosbarth mynediad. o'i chymharu ag ysgolion llai, mae maint ysgol gynradd â dau ddosbarth mynediad yn cynnig mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion oherwydd canolfan adnoddau wedi'i hehangu a gwell â mwy o sicrwydd ariannol
- gall ysgol â dau ddosbarth mynediad roi mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth, gan gynnwys cynnal nifer llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol.
- byddai'r gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a chymorth yn galluogi'r ysgolion â dau ddosbarth mynediad i gynnig ystod ehangach o arbenigedd cwricwlaidd
- nifer mwy o athrawon i rannu llwyth gwaith
- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. athrawon newydd gymhwyso sy'n gallu arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog
- cyfleoedd i staff addysgu i'w cryfderau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiad addysg gorau posib
- nifer mwy o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a Chymhwysedd Digidol
- mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol/cyfoethogi
- mwy o gyfleoedd i arweinyddiaeth wasgaredig

## Ffederasiwn posibl neu gydweithio rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone

Pe datblygiad yr opsiwn hwn, byddai cydleoli Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ar safle cyfunol yn cynnig cyfleoedd i'r ysgolion weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl naill ai drwy gydweithredu neu ffederasiwn.

Pe bai'r ysgolion yn ystyried cyflwyno cydweithrediad neu ffederasiwn ffurfiol, byddai hyn yn cael ei arwain gan y Cyrff Llywodraethu ac yn cael ei gefnogi gan y Cyngor.

Pe bai'n mynd yn ei flaen, gallai cydweithio neu ffederasiwn ffurfiol:

- helpu i godi safonau trwy rannu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm, arweinyddiaeth ysgolion a chymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â materion allweddol fel cynhwysiant
- galluogi arferion da, deunyddiau paratoi ac adnoddau
- gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau i ddisgyblion gan arwain at wella ansawdd dysgu staff a disgyblion
- gwella cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff
- cynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygu rheolaeth ganol

- rhoi cyfleoedd datblygiad ar gyfer Cyngor yr Ysgol a'r disgyblion
- gwella cyfleoedd cymdeithasol i'r disgyblion
- galluogi trefniadau traws gyfnodau
- galluogi symleiddio polisïau a strwythurau
- Cefnogi gwelliant ysgolion drwy alluogi ysgolion i alw ar adnoddau ysgolion eraill i fynd i'r afael â phroblemau, rhannu arbenigedd, codi disgwyliadau a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.
- rhoi cyfle i fanteisio ar arbedion maint a rhannu gwasanaethau ar draws yr ysgolion
- caniatáu o bosibl i hwyluso'r broses o recriwtio llywodraethwyr, gyda llai o rolau llywodraethwyr gwag
- caniatáu ar gyfer rhannu arbenigedd ac adnoddau
- hwyluso'r gwaith o drefnu datblygiad proffesiynol
- hwyluso trefnu gweithgareddau disgyblion ar y cyd

Fodd bynnag, byddai i ba raddau y mae Cyrff Llywodraethol Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn symud ymlaen at ffederasiwn / cydweithio yn ystyriaeth ddiweddarach gan y Cyrff Llywodraethu hyn.

## Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf.

Mae'r safonau yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Mae'r cynnig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddosbarth mynediad a sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn gyfle i wireddu amrywiaeth o fuddion addysgol a fyddai'n galluogi pob un o'r ysgolion i adeiladu ar y cynnydd presennol gan sicrhau effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg ar gyfer disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol.

Ni fyddai cadw Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ddwy ysgol ar wahân yn caniatáu gwireddu manteision ysgol â dau ddosbarth mynediad. Ni fyddai chwaith yn caniatáu i'r cyllid fformiwla a fyddai'n cael ei ryddhau yn Opsiwn 1 fod ar gael ar gyfer clustnodi i'r ysgolion, na chwaith i'w dosbarthu i ddinas ysgolion ledled y fformiwla ariannu. O'i gymharu ag Opsiwn 1, byddai llai o adnoddau ariannol i gefnogi pob ysgol i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach a/ neu fuddsoddi mewn adnoddau er mwyn bod o fudd i'w disgyblion, ac i gynnal a gwella safonau.

Pe bai Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cytuno i weithredu trefniadau cydweithredol/ffederasiwn ffurfiol, gellid gwireddu nifer o'r manteision addysgol a nodwyd.

## Anfanteision posibl y cynigion

O gymharu â'r trefniadau presennol, mae potensial am fwy o dagfeydd traffig o amgylch safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank a'r safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.

O'i gymharu ag Opsiwn 1, gellid lleihau nifer y manteision sy'n cael eu gwireddu ar gyfer disgyblion mewn addysg gymunedol cyfrwng Saesneg gan y byddai defnydd llai effeithlon o gyllidebau'r ysgolion. Ni fyddai unrhyw arian cyfandal yn cael ei neilltuo i roi cymorth am gyfnod. Byddai angen cyfran uwch o gyllidebau'r ddwy ysgol ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, nag mewn un ysgol â dau ddosbarth mynediad.

## Risgiau

- Mae perygl y bydd cynnydd yn y galw am leoedd cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn monitro'r galw dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod digon o leoedd i'r rhai sydd angen addysg cyfrwng Saesneg. Gan fod y cynigion yn cadw'r holl safleoedd presennol ac nad ydynt yn lleihau'r llety sydd ar gael, byddent yn cadw'r hyblygrwydd i gyflawni unrhyw newidiadau yn y dyfodol y gellir eu nodi'n briodol.
- Gallai Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone benderfynu peidio â bwrw ymlaen â chydweithredu neu ffederasiwn.
- Mae perygl na fydd cynnydd yn nifer y disgyblion sydd am gael lleoedd Cymraeg. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei amcanestyniadau a byddai'n ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath yn y galw os bydd angen.
- Mae effaith bosib ar nifer y llefydd sydd yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos. Fodd bynnag, disgwylir i hyn fod yn fyrdymor gan fod nifer y disgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg cael ei dargedu i dyfu fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).
- Mae perygl y bydd posibilrwydd o darfu ar ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio wrth i waith adeiladu / adnewyddu gael ei wneud. Fodd bynnag mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion a feddiannir o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol. Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau uchel o ran addysg a diogelwch yn cael eu cynnal.

## Adnoddau Dynol a Materion Cyllid

### Cyfrwng Saesneg

Byddai'r cynnig i adleoli ysgol yn gofyn am lefelau uchel o ymgynghori â staff ac undebau llafur, cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau ar gyfer pontio o un safle ysgol i'r llall. Dylid sicrhau cyfranogiad staff wrth ddatblygu manylebau neu ddyluniadau adeiladu.

Byddai Opsiwn 2 yn caniatáu i Gyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ystyried gweithio ar y cyd neu sefydlu ffederasiwn ffurfiol.

Gallai ffederasiwn arwain at ostyngiad yn nifer y rolau arwain yn gyffredinol ar draws y ddwy ysgol gan ddibynnu ar y model a gymerir ymlaen.

Byddai unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud o ran staffio yn fater i'r Corff Llywodraethu perthnasol.

Byddai'r cynnydd arfaethedig yn nifer y disgyblion sy'n deillio o gyflwyno darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd y Santes Monica yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu a'r Uwch Dîm Arwain gynllunio ar gyfer gofynion gweithlu staffio ychwanegol.

Rhaid i arian i gefnogi'r gwaith o ad-drefnu darpariaeth cyfrwng Saesneg fod ar gael o adnoddau'r Cyngor. Ni fyddai unrhyw arbedion i'r Cyngor o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig. Byddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fyddai'n deillio o ffederasiwn ffurfiol yn galluogi cyllid i gael ei ddyrannu yn fwy effeithiol o fewn y gyllideb Addysg.

Gallai'r Cyrff Llywodraethu, neu'r Corff Llywodraethu sengl yn achos ffederasiwn, nodi effeithlonrwydd o ran arweinyddiaeth, staffio neu gostau sefydlog yn sgil rhannu safle.

Gallai cynigion i leoli Allensbank a Gladstone (Opsiwn 2) ar un safle cyfunol, ond fel ysgolion ar wahân, hefyd arwain at ddadleoli Pennaeth presennol ac ailstrwythuro'r tîm arwain, pe bai'r Cyrff Llywodraethu'n penderfynu ar ffedereiddio a cheisio bwrw ymlaen â hyn.

Mae ffederasiynau ysgolion un dosbarth mynediad yng Nghaerdydd wedi gweithredu strwythurau arweinyddiaeth gwahanol. Fodd bynnag, gallai'r arbedion disgwyliedig yng nghyllideb yr ysgol o ran cyflog, o gymharu â'r ddwy gyllideb bresennol gyda'i gilydd, fod rhwng £43,000 a £77,000 y flwyddyn yn ogystal ag argostau, yn dibynnu ar y strwythur arweinyddiaeth newydd a weithredir.

Byddai hyn yn cynnig strwythur arweinyddiaeth llai costus yn goruchwylio'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg na'r trefniadau presennol. Ond mae'r cyllid fformiwla i'r ysgolion hyn tua £98,000 yn fwy bob blwyddyn, o gymharu â chyfuno, gan y byddai pob ysgol yn dal i dderbyn dyraniadau o gyfandaliadau. Nid oes mwy o gost i'r Cyngor yn gyffredinol, ond ni fyddai'r swm hwn ar gael i'w glustnodi i'r ysgolion nac i'w ddyrannu i ysgolion ledled y ddinas trwy'r fformiwla ariannu yn unol ag Opsiwn 1.

## Cyfrwng Cymraeg

Byddai'r cynnig i adleoli ysgol yn gofyn am lefelau uchel o ymgynghori â staff ac undebau llafur, cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau ar gyfer pontio o un safle ysgol i'r llall. Dylid sicrhau cyfranogiad staff wrth ddatblygu manylebau neu ddyluniadau adeiladu.

Byddai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai'r Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer unrhyw staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Llwyddodd y Cyngor i sicrhau arian grant gwerth £1.8m gan Lywodraeth Cymru i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yng nghanol Caerdydd ac ehangu lleoedd cyfrwng Cymraeg trwy ychwanegu un Dosbarth Mynediad (210 o leoedd). Diben y Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg yw cefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd ar y Gymraeg.

Mae'r arian a ddyrannwyd i Gyngor Caerdydd wedi'i glustnodi i gefnogi ehangu ar y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a byddai'n caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgol i gefnogi nifer uwch o ddysgwyr.

## Trafnidiaeth/Teithio i'r ysgol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynlluniau o'r fath yn nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol. Mae swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu'r rhain ac mae'r pedair ysgol eisoes wedi rhoi Cynllun Teithio Llesol ar waith ar gyfer eu safle presennol.

Rhaid bod gan bob ysgol (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u had-drefnu) gynllun o'r dechrau.

Bydd swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol yn parhau i weithio gyda'r ysgolion wrth adolygu a datblygu ymhellach eu Cynlluniau Teithio Llesol presennol fel y bo'n briodol i gyd-fynd ag unrhyw newid mewn amgylchiadau. Gallant helpu i ymgysylltu ar y Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o'r gwaith o greu mwy o leoedd ac unrhyw newidiadau mewn lleoliad carfannau ysgol i safleoedd eraill.

Ar ôl ad-drefnu'r ysgolion, bydd y Cyngor yn monitro'r amodau y tu allan i'r ysgolion ar eu newydd gwedd er mwyn gweld a oes angen unrhyw fesurau pellach, megis cyfyngiadau parcio. Bydd y cwmpas ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau parcio yn cael ei ymchwilio a'i roi ar waith lle bo'n briodol fel mesur cost isel i helpu i annog pobl i beidio â defnyddio'r car i deithio pellter byr, gwneud yr amgylchedd y tu allan i bob ysgol yn fwy diogel ac yn fwy ffafriol i gerdded, sgwtera a beicio a gwneud y mwyaf o deithio llesol i'r ysgol.

Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol.

Bydd adeiladu'r llwybr Beicio 1.2 newydd ar hyd Teras Cathays, Heol yr Eglwys Newydd a Heol Allensbank yn darparu cyfleuster beicio newydd sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica.

Lle nodir y bydd rhai disgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol bydd y cyfleusterau ar gyfer gollwng a chasglu disgyblion yn cael eu hadolygu er mwyn nodi unrhyw welliannau angenrheidiol.


Y pellter mwyaf rhwng safleoedd yr ysgolion uchod yw tua 0.5 milltir. Felly, pe bai unrhyw un o'r ysgolion yn cael eu hadleoli ar safle arall, y cynnydd mwyaf yn y pellter teithio rhwng y cartref a'r ysgol ar gyfer disgyblion presennol fyddai 0.5 milltir.

Byddai trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle cyfunol Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn arwain at gynnydd o 0.08 milltir yn y pellter teithio cyfartalog i'r disgyblion presennol. Yr effaith ar y disgyblion hyn fyddai cynnydd o 0.08 milltir yn y pellter teithio cyfartalog.

Byddai trosglwyddo Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica i safle Ysgol Mynydd Bychan yn arwain at gynnydd i 0.2 filltir yn y pellter teithio cyfartalog.

Byddai trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle Ysgol Gynradd Allensbank yn arwain at gynnydd o 0.04 milltir yn y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion presennol Ysgol Mynydd Bychan.

# Opsiwn 3
# Trefniadaeth y Safle




**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y newidiadau canlynol i ddarpariaeth ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg:**

- Trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle presennol Ysgol Mynydd Bychan
- Lleihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank o 315 (1.5 dosbarth mynediad) i 192 (0.9 dosbarth mynediad)

Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi rhoi mwy o ystyriaeth i gydweithredu/ffederasiwn ffurfiol rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone.

**Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y newidiadau canlynol i ddarpariaeth ysgolion cynradd cymunedol Cymraeg:**

- Trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank
- Cynyddu nifer y lleoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o 192 o leoedd (0.9 dosbarth mynediad) i 420 o leoedd (2 ddosbarth mynediad)
- Cynyddu nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan o 64 i 96

Byddai'r cynnig yn cael ei weithredu'n llawn o fis Medi 2025.

Dan yr opsiwn hwn, nid oes unrhyw newidiadau wedi'u cynnig i Ysgol Gynradd Gladstone nac ychwaith i Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica.

## Derbyn i Addysg Gynradd

Y nifer presennol o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Allensbank yw 30 (un dosbarth mynediad). Byddai nifer y llefydd ysgol gynradd wrth dderbyn i addysg gynradd yn Ysgol Gynradd Allensbank o fis Medi 2025 yn lleihau i 27 (0.9 dosbarth mynediad).

Y nifer presennol o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Mynydd Bychan yw 30 (un dosbarth mynediad). Y nifer o leoedd mynediad i addysg gynradd yn Ysgol Mynydd Bychan o fis Medi 2025 fyddai 30 (un dosbarth mynediad).

Byddai disgyblion ar gofrestr yr ysgolion ar adeg y newidiadau (Medi 2025) yn dal i fod ar y gofrestr oni bai eu bod nhw'n dymuno symud i ysgol arall.

## Darpariaeth Feithrin

Ni fyddai unrhyw newid yn nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Gynradd Allensbank.  Ar hyn o bryd mae'r ysgol yn cael ei hariannu am 48 o leoedd meithrin, gan leihau i 32 y flwyddyn nesaf.

Byddai nifer y lleoedd meithrin yn Ysgol Mynydd Bychan yn cael ei gynyddu o 64 i 96 i gefnogi ei thwf i ysgol dau ddosbarth mynediad.

## Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol

Mae dosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r Cyngor yn derbyn hyd at 8 plentyn Cyfnod Sylfaen i'r ddarpariaeth hon ledled y ddinas nad oeddent yn gwneud cynnydd digonol, ond sydd â digon o botensial i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd leol.

Mae'r lleoliadau yn para rhwng 1-3 blynedd, gan ddibynnu ar eu cynnydd. Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn cael cefnogaeth i ddychwelyd i'r ysgol honno ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf un diwrnod yr wythnos, er mwyn cadw cyswllt â ffrindiau lleol a pharatoi at ddychwelyd yno'n llawn amser.

Ystyrid adleoli'r dosbarth Lleferydd ac Iaith ledled y ddinas a gynhelir gan Ysgol Gynradd Allensbank pe bai Opsiwn 3 yn cael ei symud ymlaen.

Gallai'r cynnig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddosbarth mynediad, a gallai trosglwyddo i safle Ysgol Gynradd Allensbank roi cyfle i ystyried sefydlu canolfan adnoddau arbenigol yn y Gymraeg. Byddai angen datblygu cynigion ar wahân ar gyfer y ddarpariaeth hon.

## Beth yw manteision y cynnig?

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn:

- sicrhau bod pob darpariaeth ysgol a gynigir yn diwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent yn eu gwasanaethu ar hyn o bryd ac yn gallu eu gwasanaethu yn y dyfodol
- cefnogi ysgolion i fod yn gynaliadwy yn ariannol mewn patrwm gwell o ddarpariaeth trwy gydweithredu/ffederasiwn
- darparu cydbwysedd gwell rhwng argaeledd a nifer y disgyblion sy'n derbyn lleoedd mewn ysgolion cynradd cyfrwng Cymraeg a Saesneg
- cefnogi cynnydd tuag at dargedau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) a Cymraeg 2050
- cefnogi Ysgol Mynydd Bychan i gynnal a pharhau i adeiladu ar ei safonau rhagorol
- yn caniatáu i fwy o blant elwa o'r addysg sydd ar gael yn Ysgol Mynydd Bychan
- arwain at lai o blant yn cael eu gwrthod i ysgol leol
- ar y lleiaf, cynnal y safonau addysg presennol
- galluogi cadw safleoedd ysgolion i ddiogelu yn erbyn newidiadau yng nghylch y boblogaeth yn y dyfodol

Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddosbarth mynediad yn cefnogi addysgu a dysgu trwy ddarparu ar gyfer y canlynol:

- galluogi'r ysgol i gynyddu i ddau ddosbarth mynediad. O'i chymharu ag ysgolion llai, mae maint ysgol gynradd â dau ddosbarth mynediad yn cynnig mwy o hyblygrwydd a chyfleoedd i ddisgyblion oherwydd canolfan adnoddau wedi'i hehangu a gwell â mwy o sicrwydd ariannol
- gall ysgol â dau ddosbarth mynediad roi mwy o sefydlogrwydd ar bob lefel o arweinyddiaeth, gan gynnwys cynnal nifer llawn a sefydlog o lywodraethwyr ysgol.
- byddai'r gallu i gyflogi mwy o staff addysgu a chymorth yn galluogi'r ysgolion â dau ddosbarth mynediad i gynnig ystod ehangach o arbenigedd cwricwlaidd
- nifer mwy o athrawon i rannu llwyth gwaith
- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. athrawon newydd gymhwyso sy'n gallu arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog
- cyfleoedd i staff addysgu i'w cryfderau gan sicrhau bod dysgwyr yn cael y profiad addysg gorau posib
- nifer mwy o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb (ACRh) a Chymhwysedd Digidol
- mwy o gyfleoedd i gynnig ystod ehangach o weithgareddau allgyrsiol/cyfoethogi
- mwy o gyfleoedd i arweinyddiaeth wasgaredig

## Ffederasiwn posibl neu gydweithio rhwng Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone

Pe datblygid yr opsiwn hwn, byddai agosrwydd Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cynnig cyfleoedd i'r ysgolion weithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i bob disgybl naill ai drwy gydweithredu neu ffederasiwn.

Pe bai'r ysgolion yn ystyried cyflwyno cydweithrediad neu ffederasiwn ffurfiol, byddai hyn yn cael ei arwain gan y Cyrff Llywodraethu ac yn cael ei gefnogi gan y Cyngor.

Pe bai'n mynd yn ei flaen, gallai cydweithio neu ffederasiwn ffurfiol:

- helpu i godi safonau trwy rannu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm, arweinyddiaeth ysgolion a chymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â materion allweddol fel cynhwysiant
- galluogi arferion da, deunyddiau paratoi ac adnoddau
- gwella cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau i ddisgyblion gan arwain at wella ansawdd dysgu staff a disgyblion
- gwella cyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol staff
- cynyddu cyfleoedd ar gyfer datblygu rheolaeth ganol
- rhoi cyfleoedd datblygiad ar gyfer Cyngor yr Ysgol a'r disgyblion
- gwella cyfleoedd cymdeithasol i'r disgyblion
- galluogi trefniadau traws gyfnodau
- galluogi symleiddio polisïau a strwythurau
- Cefnogi gwelliant ysgolion drwy alluogi ysgolion i alw ar adnoddau ysgolion eraill i fynd i'r afael â phroblemau, rhannu arbenigedd, codi disgwyliadau a mynd i'r afael ag anghenion grwpiau penodol o ddisgyblion.
- rhoi cyfle i fanteisio ar arbedion maint a rhannu gwasanaethau ar draws yr ysgolion
- caniatáu o bosibl i hwyluso'r broses o recriwtio llywodraethwyr, gyda llai o rolau llywodraethwyr gwag
- caniatáu ar gyfer rhannu arbenigedd ac adnoddau
- hwyluso'r gwaith o drefnu datblygiad proffesiynol
- hwyluso trefnu gweithgareddau disgyblion ar y cyd

Fodd bynnag, byddai i ba raddau y mae Cyrff Llywodraethol Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn symud ymlaen at ffederasiwn / cydweithio yn ystyriaeth ddiweddarach gan y Cyrff Llywodraethu hyn.

## Safonau

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda Chyrff Llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau mewn ysgolion yn uchel, bod yr addysgu'n dda a bod yr arweinyddiaeth a'r llywodraethu'n gryf.

Mae'r safonau yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Mae'r cynnig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i 2 ddosbarth mynediad yn gyfle i wireddu amrywiaeth o fuddion addysgol a fyddai'n galluogi'r ysgol i adeiladu ar y cynnydd presennol gan sicrhau effaith gadarnhaol ar ansawdd a safonau addysg ar gyfer disgyblion presennol a disgyblion y dyfodol.

Fodd bynnag, ni fyddai'r cynnig yn galluogi sefydlu darpariaeth feithrin yn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica a'r buddion cysylltiedig

Ni fyddai cadw Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn ddwy ysgol ar wahân yn caniatáu gwireddu manteision ysgol â dau ddosbarth mynediad. Ni fyddai chwaith yn caniatáu i'r cyllid fformiwla a fyddai'n cael ei ryddhau yn Opsiwn 1 fod ar gael ar gyfer clustnodi i'r ysgolion, na chwaith i'w dosbarthu i ddinas ysgolion ledled y fformiwla ariannu. O'i gymharu ag Opsiwn 1, byddai llai o adnoddau ariannol i gefnogi'r ysgol i ddatblygu'r ddarpariaeth ymhellach a/ neu fuddsoddi mewn adnoddau er mwyn bod o fudd i'w disgyblion, ac i gynnal a gwella safonau.

Pe bai Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cytuno i weithredu trefniadau cydweithredol/ffederasiwn ffurfiol, gellid gwireddu nifer o'r manteision addysgol a nodwyd.

## Anfanteision posibl y cynnig

- O gymharu â'r trefniadau presennol, mae potensial am fwy o dagfeydd traffig o amgylch safle presennol Ysgol Gynradd Allensbank a'r safle presennol a rennir rhwng Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol. Fodd bynnag, byddai'r Cyngor yn gweithio gyda Chyrff Llywodraethu'r ysgolion i ddatblygu Cynllun Teithio i leihau unrhyw darfu posibl.
- byddai'r cynnig i leihau nifer y lleoedd yn Ysgol Gynradd Allensbank yn arwain at ostyngiad ymylol yn nifer y lleoedd mewn ysgolion cynradd cymunedol cyfrwng Saesneg.
- O'i gymharu ag Opsiwn 1, gellid lleihau nifer y manteision sy'n cael eu gwireddu ar gyfer disgyblion mewn addysg gymunedol cyfrwng Saesneg gan y byddai defnydd llai effeithlon o gyllidebau'r ysgolion. Ni fyddai unrhyw arian cyfandal yn cael ei neilltuo i roi cymorth am gyfnod. Byddai angen cyfran uwch o gyllidebau'r ysgolion ar gyfer arweinyddiaeth a rheolaeth, nag mewn un ysgol â dau ddosbarth mynediad.
- Byddai trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i adeilad llai yn gofyn am adleoli'r Dosbarth Lleferydd ac Iaith i ysgol arall.

## Risgiau

- Mae perygl y bydd cynnydd yn y galw am leoedd cyfrwng Saesneg. Fodd bynnag, bydd y Cyngor yn monitro'r galw dros y blynyddoedd nesaf i sicrhau bod digon o leoedd i'r rhai sydd angen addysg cyfrwng Saesneg. Gan fod y cynigion yn cadw'r holl safleoedd presennol ac nad ydynt yn lleihau'r llety sydd ar gael, byddent yn cadw'r hyblygrwydd i gyflawni unrhyw newidiadau yn y dyfodol y gellir eu nodi'n briodol.
- Gallai Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone benderfynu peidio â bwrw ymlaen â chydweithredu neu ffederasiwn.
- Mae perygl na fydd cynnydd yn nifer y disgyblion sydd am gael lleoedd Cymraeg. Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu ei amcanestyniadau a byddai'n ymateb i unrhyw newidiadau o'r fath yn y galw os bydd angen.
- Mae effaith bosib ar nifer y llefydd sydd yn yr ysgolion cyfrwng Cymraeg cyfagos. Fodd bynnag, disgwylir i hyn fod yn fyrdymor gan fod nifer y disgyblion sy'n mynychu darpariaeth cyfrwng Cymraeg cael ei dargedu i dyfu fel rhan o ddatblygiad y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA).
- Mae perygl y bydd posibilrwydd o darfu ar ddisgyblion yn ystod y cyfnod pontio wrth i waith adeiladu / adnewyddu gael ei wneud. Fodd bynnag mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion a feddiannir o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol. Byddai unrhyw waith adeiladu a wneir yn cael ei reoli'n effeithiol mewn ymgynghoriad â'r ysgol i sicrhau bod y cwricwlwm llawn yn parhau i gael ei gyflwyno a bod safonau uchel o ran addysg a diogelwch yn cael eu cynnal.

## Adnoddau Dynol a Materion Cyllid

### Cyfrwng Saesneg

Byddai'r cynnig i adleoli ysgol yn gofyn am lefelau uchel o ymgynghori â staff ac undebau llafur, cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau ar gyfer pontio o un safle ysgol i'r llall. Dylid sicrhau cyfranogiad staff wrth ddatblygu manylebau neu ddyluniadau adeiladu.

Byddai'r opsiwn hwn yn galluogi Cyrff Llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone i ystyried cydweithredu neu sefydlu ffederasiwn ffurfiol.

Gallai ffederasiwn arwain at ostyngiad yn nifer y rolau arwain yn gyffredinol ar draws y ddwy ysgol gan ddibynnu ar y model a gymerir ymlaen.

Byddai unrhyw benderfyniadau sy'n cael eu gwneud o ran staffio yn fater i'r Corff Llywodraethu perthnasol.

Rhaid i arian i gefnogi'r gwaith o ad-drefnu darpariaeth cyfrwng Saesneg fod ar gael o adnoddau'r Cyngor. Ni fyddai unrhyw arbedion i'r Cyngor o ganlyniad i'r newidiadau arfaethedig. Byddai unrhyw arbedion effeithlonrwydd a fyddai'n deillio o ffederasiwn ffurfiol yn galluogi cyllid i gael ei ddyrannu yn fwy effeithiol o fewn y gyllideb Addysg.

Ni fyddai'r cynnig i drosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle Allensbank, a throsglwyddo Allensbank i safle Ysgol Mynydd Bychan yn arwain at ddisodli Pennaeth presennol nac ailstrwythuro arweinyddiaeth, er y gallai'r Corff Llywodraethu ystyried hyn yn ddiweddarach. Pe bai'r Corff Llywodraethu yn dilyn y model hwn yn y dyfodol, gallai'r ysgolion ffederal leihau costau arwain o tua £43,000 a £77,000 y flwyddyn yn ogystal ag argostau.

Mae'r cyllid fformiwla i'r ysgolion hyn yn £98,000 yn fwy bob blwyddyn, o'i gymharu â chyfuno Allensbank a Gladstone yn Opsiwn 1, gan y byddai pob ysgol yn dal i dderbyn dyraniadau o gyfandaliadau. Ni fyddai'r cyfandaliadau hyn ar gael i'w clustnodi i'r ysgolion nac i'w dyrannu i ysgolion ledled y ddinas trwy'r fformiwla ariannu yn unol ag Opsiwn 1.

## Cyfrwng Cymraeg

Byddai'r cynnig i adleoli ysgol yn gofyn am lefelau uchel o ymgynghori â staff ac undebau llafur, cynlluniau cyfathrebu clir ynghylch y trefniadau ar gyfer pontio o un safle ysgol i'r llall. Dylid sicrhau cyfranogiad staff wrth ddatblygu manylebau neu ddyluniadau adeiladu.

Byddai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn ei gwneud yn ofynnol i'r Corff Llywodraethu ystyried gofynion y gweithlu yn barod ar gyfer ehangu. Byddai'r Corff Llywodraethu'n cael ei annog i ymgymryd â'r gwaith hwn yn unol â'r Fframwaith AD Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion. Byddai'r Gwasanaethau Pobl AD yn rhoi cyngor, cymorth ac arweiniad i'r Corff Llywodraethu ar gyfer y broses o gynllunio'r gweithlu a phrosesau recriwtio dilynol.

Lle mae'r Corff Llywodraethu wedi mabwysiadu Polisi Adleoli a Diswyddo Ysgolion y Cyngor, bydd unrhyw swyddi gwag newydd sy'n codi o ganlyniad i gynyddu'r nifer ar y gofrestr yn rhoi cyfleoedd ar gyfer unrhyw staff ysgol sydd ar y gofrestr adleoli ysgolion.

Llwyddodd y Cyngor i sicrhau arian grant gwerth £1.8m gan Lywodraeth Cymru i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yng nghanol Caerdydd ac ehangu lleoedd cyfrwng Cymraeg trwy ychwanegu un Dosbarth Mynediad (210 o leoedd). Diben y Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg yw cefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd ar y Gymraeg.

Mae'r arian a ddyrannwyd i Gyngor Caerdydd wedi'i glustnodi i gefnogi ehangu ar y ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a byddai'n caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgol i gefnogi nifer uwch o ddysgwyr.

## Teithio i'r ysgol

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i sicrhau bod gan bob ysgol yng Nghaerdydd Gynllun Teithio Llesol erbyn 2022. Mae cynlluniau o'r fath yn nodi camau gan yr ysgol i gynorthwyo ac annog teithio llesol i'r ysgol ac yn nodi unrhyw welliannau i seilwaith ar ac oddi ar y safle sy'n angenrheidiol i hwyluso teithiau llesol. Mae swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol y Cyngor wedi bod yn gweithio gydag ysgolion i ddatblygu'r rhain ac mae'r pedair ysgol eisoes wedi rhoi Cynllun Teithio Llesol ar waith ar gyfer eu safle presennol.

Rhaid bod gan bob ysgol (gan gynnwys y rhai sydd wedi'u had-drefnu) gynllun o'r dechrau.

Bydd swyddogion Cynlluniau Teithio Llesol yn parhau i weithio gyda'r ysgolion wrth adolygu a datblygu ymhellach eu Cynlluniau Teithio Llesol presennol fel y bo'n briodol i gyd-fynd ag unrhyw newid mewn amgylchiadau. Gallant helpu i ymgysylltu ar y Cynlluniau Teithio Llesol fel rhan o'r gwaith o greu mwy o leoedd ac unrhyw newidiadau mewn lleoliad carfannau ysgol i safleoedd eraill.

Ar ôl ad-drefnu'r ysgolion, bydd y Cyngor yn monitro'r amodau y tu allan i'r ysgolion ar eu newydd gwedd er mwyn gweld a oes angen unrhyw fesurau pellach, megis cyfyngiadau parcio. Bydd y cwmpas ar gyfer cyflwyno cyfyngiadau parcio yn cael ei ymchwilio a'i roi ar waith lle bo'n briodol fel mesur cost isel i helpu i annog pobl i beidio â defnyddio'r car i deithio pellter byr, gwneud yr amgylchedd y tu allan i bob ysgol yn fwy diogel ac yn fwy ffafriol i gerdded, sgwtera a beicio a gwneud y mwyaf o deithio llesol i'r ysgol.

Mae Tîm Diogelwch ar y Ffyrdd y Cyngor eisoes yn darparu rhaglen o hyfforddiant beicio a hyfforddiant i gerddwyr i annog pobl i fanteisio ymhellach ar deithio llesol i'r ysgol. Bydd y cymorth hwn yn parhau fel rhan o'r ymgysylltu a'r cymorth parhaus a ddarperir gan Dîm Teithio Llesol Ysgolion y Cyngor ar ddatblygu a darparu Cynlluniau Teithio Llesol.

Bydd adeiladu'r llwybr Beicio 1.2 newydd ar hyd Teras Cathays, Heol yr Eglwys Newydd a Heol Allensbank yn darparu cyfleuster beicio newydd sy'n cysylltu'n uniongyrchol ag Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica.

Lle nodir y bydd rhai disgyblion yn gymwys i gael trafnidiaeth ysgol oherwydd eu hanghenion dysgu ychwanegol bydd y cyfleusterau ar gyfer gollwng a chasglu disgyblion yn cael eu hadolygu er mwyn nodi unrhyw welliannau angenrheidiol.

Y pellter mwyaf rhwng safleoedd yr ysgolion uchod yw tua 0.5 milltir. Felly, pe bai'r ysgolion yn cyfnewid safleoedd, y cynnydd mwyaf yn y pellter teithio rhwng y cartref a'r ysgol fydd 0.5 milltir.

Byddai trosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i safle Ysgol Mynydd Bychan yn arwain at gynnydd o 0.04 milltir yn y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion presennol Ysgol Gynradd Allensbank.

Byddai trosglwyddo Ysgol Mynydd Bychan i safle Ysgol Gynradd Allensbank yn arwain at gynnydd o 0.04 milltir yn y pellter teithio cyfartalog i ddisgyblion presennol Ysgol Mynydd Bychan.

# Gwybodaeth sy'n Berthnasol i bob Opsiwn

## Amrywiaeth cymunedau ysgol

Mae dadansoddiad o ddata'r cyfrifiad ysgol (CYBLD) yn cadarnhau, ar hyn o bryd, fod gwahaniaethau sylweddol yn y data demograffig rhwng rhai o ysgolion yr ardal.

Mae'n nodedig fod cyfeiriadau cartref disgyblion sydd wedi cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan wedi'u clystyru o amgylch safleoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank. Mae mwyafrif disgyblion Ysgol Gynradd Allensbank yn byw yn yr un ardal, gyda chyfeiriadau cartref hefyd wedi'u clystyru o amgylch safleoedd Ysgol Mynydd Bychan ac Ysgol Gynradd Allensbank. Ond mae data demograffig ar gyfer y disgyblion hynny ac ar gyfer yr ysgol yn gyffredinol yn wahanol iawn i ddata Ysgol Mynydd Bychan.

Mae data demograffig hefyd yn gwahaniaethu'n fawr rhwng Ysgol Mynydd Bychan ac ysgolion Saesneg eraill sy'n gwasanaethu'r ardal. Mae'r setiau data hyn yn cynnwys:

- Symudedd disgyblion (faint o blant sy'n symud i mewn ac allan o ysgol)
- Disgyblion sy'n gymwys i gael Prydau Ysgol am Ddim
- Iaith y cartref
- Lefel cymhwysedd a gyflawnir yn y Gymraeg neu Saesneg, ac
- Ethnigrwydd

Rhaid i gynigion ystyried gwahaniaeth mewn data demograffig ond rhaid iddynt hefyd ystyried gallu'r ymgeiswyr hynny sy'n symud i'r ardal i allu cyrchu lleoedd ysgol yn gydradd yn y naill gyfrwng iaith.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu. Rhaid i'r Cyngor felly sicrhau, wrth gyflwyno cynigion ac ar ôl gweithredu cynigion, fod pob un o'r ysgolion yn cael cefnogaeth i ddiwallu anghenion amrywiol y cymunedau y maent wedi'u lleoli ynddynt. Rhaid i'r cynigion gefnogi pob ysgol i allu hyrwyddo cyfle cyfartal i holl deuluoedd yr ardal.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032 y Cyngor yn gosod targedau penodol ac yn nodi ffrydiau gwaith blaenoriaeth i'r Cyngor a phartneriaid fel ysgolion. Mae hyn yn cynnwys menter beilot ymchwil gyda Caerdydd Ddwyieithog, arolygon rhieni, a grwpiau ffocws er mwyn deall yn well y rhesymau dros y niferoedd isel sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg o fewn grwpiau a chymunedau penodol a dangynrychiolir (gan gynnwys pobl Ddu, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol), ochr yn ochr â hyrwyddiadau pwrpasol. Mae'r gwaith yma ar y gweill.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn ceisio darparu cydbwysedd priodol lle mae pob math o ysgol ar gael i bob grŵp a lle cefnogir pob ysgol i fod yn hygyrch, ac i gael eu gweld yn hygyrch, i bob grŵp.

Bydd y gwaith sydd ar y gweill i ddeall dewisiadau rhieni a'r nifer sy'n manteisio ar leoedd ym mhob cymuned yn well, ochr yn ochr â gwella gwelededd cyfrwng iaith a chyfleoedd trochi sydd ar gael, yn targedu'n uniongyrchol yr ymgais i leihau'r anghyfartaledd rhwng data demograffig mewn ysgolion cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg.

## Sut byddai symudedd disgyblion yn cael ei effeithio?

Mae symudedd disgyblion yn cyfeirio at ganran y plant sydd wedi cofrestru mewn ysgol sy'n symud i mewn neu allan o'r ysgol mewn cyfnod diffiniedig. Mae gan rai ysgolion drosiant llawer mwy o ddisgyblion nag ysgolion eraill am amryw resymau.

Mae data symudedd disgyblion Ysgol Mynydd Bychan yn isel iawn (1.3 % y flwyddyn ar gyfartaledd yn ystod y tair blynedd diwethaf), sydd yn rhannol yn adlewyrchu gordanysgrifiad yr ysgol o ran mynediad i'r dosbarth Derbyn. Mae pob un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn gweld symudedd disgyblion o 10 % neu fwy bob blwyddyn ac adroddodd Ysgol Gynradd Allensbank "Lefelau symudedd disgyblion o hyd at 40 % ar draws un flwyddyn academaidd" yn ystod yr ymgynghoriad blaenorol ar gynigion.

| Tabl 17: Data demograffig - Symudedd disgyblion ysgol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 | |
|---|---|
| Ysgol | Disgyblion ddim yn symud i'r grŵp blwyddyn nesaf yn yr ysgol (cyfartaledd 3 blynedd) |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 15.2 % |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 21.9 % |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 21.1 % |
| Ysgol Mynydd Bychan | 1.3 % |

Ar hyn o bryd, nid yw teuluoedd sy'n symud i'r ardal wedi'r dyddiad cau ar gyfer mynediad i'r dosbarth Derbyn fel arfer yn gallu cael mynediad i Ysgol Mynydd Bychan a gallai ysgol cyfrwng Cymraeg amgen fod cryn bellter o gyfeiriad cartref y teuluoedd hynny.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn gwella gallu'r ymgeiswyr hynny sy'n symud i'r ardal i gael mynediad teg i leoedd ysgol yn y naill gyfrwng iaith. Mae'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth a nodir yn CSCA y Cyngor hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn data demograffig rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Disgwylir i'r newidiadau hyn leihau'r gwahaniaeth yn y data symudedd disgyblion rhwng Ysgol Mynydd Bychan a'i hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg cyfagos.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim?

Mae peth o'r arian a gaiff ysgolion wedi ei seilio ar nifer y disgyblion yn yr ysgol sy'n derbyn Prydau Ysgol am Ddim. Byddai'r holl ysgolion yng Nghaerdydd yn cael arian ar gyfer y disgyblion hyn.

Mae tabl 17 isod yn crynhoi canran y disgyblion, o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6 gan gynnwys y blynyddoedd hynny, sy'n derbyn prydau ysgol am ddim ym mhob ysgol. Cofnodir hyn o fewn data'r cyfrifiad ysgol (CYBLD) fel cymhwysedd am brydau ysgol am ddim (cPYADd).

| Tabl 18: Data demograffig - Disgyblion Derbyn i Flwyddyn 6 sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim<br>Ffynhonnell: CYBLD 2022 | |
|---|---|
| Ysgol | Cymhwysedd PYADd (disgyblion fel %) |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 37.8 % |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 29.5 % |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 42.8 % |
| Ysgol Mynydd Bychan | 5.4 % |
| Allensbank a Gladstone wedi'u cyfuno | 33.9 % |

Mae'r safonau yn y pedair ysgol lle cynigir newidiadau yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion sy'n cael Prydau Ysgol am Ddim.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion sydd â Saesneg fel Iaith Ychwanegol?

Mae gan bob un o'r ysgolion cyfrwng Saesneg lle cynigir newidiadau gyfran uwch o ddisgyblion nad Saesneg yw iaith y cartref, o gymharu â chyfartaledd o 26.2% ar gyfer y ddinas gyfan.

Mae gan Ysgol Mynydd Bychan gyfran is o lawer o ddisgyblion nad Saesneg yw iaith y cartref na'r cyfartaledd ledled y ddinas.

Gellir cefnogi disgyblion sy'n derbyn cymorth gan fod y Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt mewn unrhyw ysgol yng Nghaerdydd.

Mae Tabl 19 isod yn manylu ar boblogaethau demograffig ysgolion o ran yr iaith a siaredir gartref, a chymhwysedd y disgyblion mewn Saesneg llafar lle ystyrir Saesneg yn iaith ychwanegol (SIY). Mae'r canrannau'n cael eu meintioli o ran disgyblion sy'n cael eu categoreiddio fel rhai sydd angen cymorth ychwanegol (newydd i'r Saesneg i ddatblygu cymhwysedd, categorïau A i C), tra bod gweddill y plant sydd yng nghategorïau D ac E yn cael eu categoreiddio fel 'cymwys' a 'rhugl' yn y drefn honno.

**Tabl 19: Data demograffig - Iaith cartref disgyblion ysgol o'r Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6**
**Ffynhonnell: CYBLD 2022**

| Ysgol | Nifer ar y gofrestr | Iaith y cartref Gymraeg neu Saesneg | Iaith y cartref heb ei chofnodi | Nid Cymraeg na Saesneg yw iaith y cartref | Niferoedd yr ieithoedd cartref | SIY: A-C ('Newydd i'r Saesneg' i 'datblygu cymhwysedd') |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Allensbank | 193 | 78 | 10 | 105 (54%) | 31 | 97 (50%) |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 173 | 66 | 3 | 104 (60%) | 31 | 82 (47%) |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 138 | 42 | 0 | 95 (69%) | 33 | 90 (65%) |
| Ysgol Mynydd Bychan | 203 | 201 | 0 | 2 (1%) | 3 | 0 (0%) |

Mae'r safonau yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar sut caiff disgyblion sydd â'r Saesneg fel Iaith Ychwanegol eu cefnogi. Byddai pob ysgol yng Nghaerdydd yn parhau i gynnig cymorth sy'n briodol i anghenion pob disgybl yn unigol.

Mae'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth a nodir yn CSCA y Cyngor hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn data demograffig rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Disgwylir i'r newidiadau hyn leihau'r gwahaniaeth mewn iaith y cartref rhwng dysgwyr sy'n cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan a'i hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg cyfagos.

## Beth fyddai'r effaith ar ddisgyblion Ethnig Leiafrifol?

Mae Tabl 20 isod yn crynhoi'r data ethnigrwydd a gofnodwyd yn nata'r cyfrifiad ysgol (CYBLD). Mae'r data hwn yn amrywio rhwng ysgolion ac mae wedi'i grynhoi i 'Gwyn Prydeinig' a 'Nid Gwyn Prydeinig', ynghyd â nifer y cefndiroedd ethnig, i'w cynrychioli'n gliriach. Mae gwahaniaethau sylweddol rhwng poblogaethau Ysgol Mynydd Bychan ac ysgolion Saesneg lleol.

**Tabl 20: Data demograffig - Ethnigrwydd disgyblion ysgol Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 6**
**Ffynhonnell: CYBLD 2022**

| Ysgol | Nifer y disgyblion ar y gofrestr | Gwyn Prydeinig | Nid Gwyn Prydeinig | Nifer y cefndiroedd ethnig |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Albany | 378 | 17.2% | 82.8% | 53 |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 193 | 21.2% | 78.8% | 45 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 173 | 20.8% | 79.2% | 37 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 138 | 18.8% | 81.2% | 28 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 203 | 91.1% | 8.9% | 11 |

Mae'r safonau yn y pedair ysgol sydd wedi'u cynnwys yn y newidiadau arfaethedig yn dda.

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn cael effaith negyddol ar y ddarpariaeth ar gyfer unrhyw grŵp ethnig.

Mae'r ffrydiau gwaith blaenoriaeth a nodir yn CSCA y Cyngor hefyd yn ceisio mynd i'r afael â'r gwahaniaeth mewn data demograffig rhwng ysgolion cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg. Disgwylir i'r newidiadau hyn leihau'r gwahaniaeth mewn data ethnigrwydd rhwng dysgwyr sy'n cofrestru yn Ysgol Mynydd Bychan a'i hysgolion cynradd cyfrwng Saesneg cyfagos.

## Beth fyddai'r effaith ar gymorth i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol?

Mae gan blentyn anghenion addysgol arbennig os oes ganddo anhawster dysgu sy'n gofyn am ddarpariaeth addysgol arbennig. Mae anhawster dysgu yn golygu bod y plentyn yn ei chael hi'n llawer anoddach dysgu na'r rhan fwyaf o blant o'r un oed neu fod gan y plentyn anabledd sy'n gofyn am wahanol gyfleusterau addysgol i'r rhai y mae'r ysgol yn eu darparu ar gyfer plant yn gyffredinol.

Daeth Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol Cymru 2021 (Cod ADY) a'r rheoliadau i rym ar 1 Medi 2021 i sicrhau y gall plant a phobl ifanc gael mynediad at gymorth ychwanegol sydd wedi'i gynllunio a'i warchod yn briodol i fodloni eu hanghenion, gyda dysgwyr wrth wraidd y broses.

Mae plant yn symud o'r system anghenion addysgol arbennig (AAA) i'r system anghenion dysgu ychwanegol (ADY) mewn grwpiau dros gyfnod o 3 blynedd o fis Medi 2021, i sicrhau digon o amser i ysgolion ac awdurdodau lleol drafod y cymorth sydd ei angen ac i baratoi cynlluniau.

Mae tabl 21 isod yn dangos canran y disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol ym mhob un o'r ysgolion lle cynigir newidiadau yn 2022 (CYBLD 2022)

| Tabl 21 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Ysgol | % y Disgyblion ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol | % y Disgyblion ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy | % y Disgyblion â datganiad ADY | % y disgyblion â CDU |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 4.1 % | 5.2 % | 2.6 % | 1.6 % |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 1.7 % | 0.0 % | 1.2 % | 3.5 % |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 0.7 % | 5.1 % | 0.7 % | 0.0 % |
| Ysgol Mynydd Bychan | 0.0 % | 0.0 % | 1.0 % | 0.0 % |

Nid oes gwybodaeth ar gael sy'n awgrymu y byddai'r cynigion yn effeithio'n negyddol ar ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Does dim gostyngiad arfaethedig i'r gefnogaeth sydd ar gael i ddisgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae yna ddosbarth ymyrraeth gynnar Lleferydd ac Iaith sy'n cael ei gynnal gan Ysgol Gynradd Allensbank. Mae'r Cyngor yn derbyn hyd at 8 plentyn Cyfnod Sylfaen i'r ddarpariaeth hon ledled y ddinas nad oeddent yn gwneud cynnydd digonol, ond sydd â digon o botensial i ddychwelyd i'w hysgol brif ffrwd leol.

Mae'r lleoliadau yn para rhwng 1-3 blynedd, gan ddibynnu ar eu cynnydd. Mae'r disgyblion yn cael eu cofrestru'n ddeuol yn eu hysgol leol, ac yn cael cefnogaeth i ddychwelyd i'r ysgol honno ar ddiwedd eu cyfnod yn y lleoliad. Mae disgyblion yn parhau i fynychu eu hysgol leol o leiaf un diwrnod yr wythnos, er mwyn cadw cyswllt â ffrindiau lleol a pharatoi at ddychwelyd yno'n llawn amser.

Byddai ystyriaeth yn cael ei rhoi i leoliad y dosbarth Lleferydd ac Iaith dinas-gyfan yn y dyfodol, a allai naill ai gael ei leoli yn y safle a rennir gan Gladstone a St Monica neu mewn ysgol arall.

Gallai'r cynnig i ehangu Ysgol Mynydd Bychan i ddau ddosbarth mynediad, a throsglwyddo i safle Ysgol Gynradd Allensbank, roi'r cyfle i ystyried sefydlu canolfan adnoddau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg. Byddai angen datblygu cynigion ar wahân ar gyfer y ddarpariaeth hon.

# Trefniadau Llywodraethu

Os bydd Opsiwn 1 yn cael ei ddatblygu, byddai cyrff llywodraethu Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone yn cael eu diddymu, a threfniadau llywodraethu newydd yn cael eu rhoi ar waith ar gyfer yr ysgol gynradd cyfrwng Saesneg dau ddosbarth mynediad newydd.

O dan Opsiynau 2 a 3, mae disgwyl y byddai'r ddwy ysgol yn gweithio mewn partneriaeth i sicrhau'r cyfleoedd gorau posibl i holl ddisgyblion yr ysgolion.  Gellid cyflawni hyn drwy gydweithio anffurfiol neu ffurfiol, neu drwy ffederasiwn ffurfiol. Byddai'r Cyngor a Chonsortiwm Canolbarth y De yn darparu cefnogaeth ac arweiniad i bob Corff Llywodraethu i hwyluso hyn.

Mae Cyrff Llywodraethu nifer o ysgolion Caerdydd eisoes wedi ffederaleiddio'n ffurfiol neu wedi cytuno i gydweithio'n ffurfiol.

## Diddymu Cyrff Llywodraethu a sefydlu Corff Llywodraethu newydd

Byddai cynnig i gau dwy ysgol, ac i sefydlu ysgol newydd, yn golygu bod angen sefydlu Corff Llywodraethu dros dro cyn agor yr ysgol newydd fwy o faint.

Y prif reswm dros ystyried cyfuno dwy ysgol bresennol, trwy sefydlu ysgol newydd a chau dwy ysgol bresennol, yw'r buddion a ddaw yn sgil hyn i blant a phobl ifanc yn yr ysgolion presennol trwy wella darpariaeth addysgol.

Mae llawer o fanteision gweithredol clir i ysgolion mwy, o gymharu ag ysgolion llai. Y prif agweddau llywodraethu ar sefydlu un ysgol i gymryd lle dwy ysgol bresennol yw:

- Yn dilyn penderfyniad i sefydlu ysgol newydd a chau'r ysgolion presennol, byddai corff llywodraethu dros dro newydd yn cael ei sefydlu. Byddai'r corff llywodraethu newydd, maes o law, yn disodli'r cyrff llywodraethu unigol a byddai ganddo gyfrifoldeb am oruchwyliaeth strategol a chynllunio'r ysgol newydd.
- Byddai cyrff llywodraethu presennol pob ysgol yn parhau i weithredu, ac yn cadw eu cyfrifoldebau presennol, hyd nes y bydd yr ysgolion presennol yn cau'n ffurfiol.
- Byddai'r corff llywodraethu newydd yn ystyried enw ac yn gyfrifol am gyllideb a staff yr ysgol newydd, a thrwy sylfaen ariannol fwy byddai ganddynt fwy o sefydlogrwydd yn y gyllideb.

Ar y cyfan, mae gan ysgol fwy gyllideb fwy a mwy sefydlog, ac felly mae'n gallu gweithredu arweinyddiaeth a strwythur staffio mwy effeithlon ac effeithiol a manteisio ar arbedion maint. Gall ysgol fwy wneud mwy i gryfhau addysg gyffredinol disgyblion yn y cymunedau cyfunol a wasanaethir ar hyn o bryd gan y ddwy ysgol lai.

Mae ysgol fwy hefyd yn caniatáu:

- Mwy o gyfleoedd i staff rannu llwyth gwaith ac arbenigedd.
- Mwy o gyfleoedd i ddatblygu staff yn broffesiynol e.e. ANGau a all arsylwi ar eu hathrawon cyfochrog.
- Mwy o athrawon i arwain ar Feysydd Dysgu, ynghyd ag Addysg Grefyddol, Addysg Rhyw a Chydberthynas a Chymhwysedd Digidol.
- Galluogi arferion da, deunyddiau paratoi ac adnoddau.

## Ffederasiwn

Mae ffederasiwn yn gytundeb ffurfiol a chyfreithiol lle mae nifer o ysgolion (rhwng dwy a chwech) yn rhannu trefniadau llywodraethu ac yn meddu ar un corff llywodraethu gan ddefnyddio'r broses a nodir yn Rheoliadau Ffederasiwn Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2014. Gall ffederasiynau gynnwys cymysgedd o ysgolion cymunedol a gynhelir ac ysgolion cymunedol arbennig sydd naill ai'n ysgolion meithrin, cynradd neu uwchradd.

O dan Opsiwn 2, lle mae'r ysgolion cyfrwng Saesneg yn rhannu safle, gallai ffederasiwn gael ei gyflwyno gan y cyrff llywodraethu presennol. Gall y Cyrff Llywodraethu hefyd ystyried ffederasiwn dros safleoedd ar wahân, o dan Opsiwn 3.

I fod yn llwyddiannus, mae angen i ffederasiwn fod yn seiliedig ar ymrwymiad i weithio gyda'i gilydd a pharodrwydd i wneud pethau'n wahanol er budd ychwanegol yr holl ddisgyblion, eu lles a'u cyflawniadau. Mae profiad ysgolion sydd wedi ffedereiddio yn dangos bod datblygu'r holl ysgolion a'u cymunedau o fewn y ffederasiwn a rhannu arferion gorau yn helpu i wella safonau a gwella perfformiad.

Mae sawl rheswm dros ffedereiddio. Yn gyffredinol, mae ysgolion yn defnyddio ffederasiwn i adeiladu ar bartneriaethau anffurfiol sydd eisoes ar waith ac i gryfhau addysg gyffredinol disgyblion yn eu cymunedau. Fodd bynnag, mae'r ALl wedi cysylltu ag eraill i helpu ysgol sy'n ei chael hi'n anodd ac ysgolion bach sydd mewn perygl o gau neu'n methu recriwtio staff o ansawdd uchel a'u ffedereiddio i sicrhau eu dyfodol. Rhaid mai'r rheswm pwysicaf dros ystyried ffederasiwn yw'r manteision a ddaw yn ei sgil i blant a phobl ifanc yn yr ysgolion ffederal drwy wella'r ddarpariaeth addysgol.

Un o fanteision ffederasiwn yw bod ysgolion sy'n ffedereiddio yn cadw eu hunaniaeth unigol. Fodd bynnag, bydd y cyrff llywodraethu presennol yn cael eu diddymu a'u disodli gan un corff llywodraethu newydd a fydd yn goruchwylio ac â chyfrifoldeb cyfartal dros bob ysgol yn y ffederasiwn.

Mae manteision amlwg i ffedereiddio ar gyfer ysgolion sydd wedi'u lleoli naill ai ar yr un safle neu yn yr un gymuned gan ei fod yn eu galluogi i gydweithio ar flaenoriaethau a rennir, cronni arbenigedd, gwneud gwell defnydd o adnoddau ac archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol. Mae ffedereiddio ysgolion yn ffordd ffurfiol o weithredu cydweithio a hyrwyddo perthnasoedd gwaith agosach.

Prif agweddau ffederasiwn yw:

- Caiff cyrff llywodraethu presennol y ddwy ysgol eu diddymu, os aiff y cynnig i sefydlu ffederasiwn yn ei flaen yn dilyn ymgynghoriad. Byddai un corff llywodraethu newydd yn disodli'r cyrff llywodraethu unigol a byddai ganddo gyfrifoldeb am oruchwyliaeth strategol yr holl ysgolion yn y ffederasiwn.
- Bydd pob ysgol yn cadw ei henw, ei chategori, ei chyllideb a'i staff. Wrth symud ymlaen, byddai'r ddwy ysgol yn gallu mynd ati i archwilio manteision rhannu adnoddau.
- Byddai pob ysgol yn parhau i gael arolwg Estyn ei hun, er y gallai'r rhain gael eu cydlynu.

Fodd bynnag, mae yna anfanteision o gadw dwy ysgol ar wahân, mewn ffederasiwn, o gymharu ag un ysgol, gan gynnwys strwythur arwain a staffio llai effeithlon ac effeithiol o gymharu ag un ysgol fwy. Gan nad oes gan ysgolion ffederal gymaint o allu i fanteisio ar arbedion maint o gymharu ag un ysgol fwy, mae llai o'i hadnoddau ar gael i addysgu a dysgu. Mae mwy o ddyblygu rolau a gwasanaethau mewn dwy ysgol nag mewn un. Er bod gan gorff llywodraethu ffederal gyfrifoldeb am ddwy gyllideb ysgol ar wahân, nid yw'n gallu crynhoi'r gyllideb hon.

Gall proses ffedereiddio gael ei harwain gan Awdurdod Lleol neu gan Gyrff Llywodraethu'r ysgolion. Gan fod angen gwaith sylweddol cyn i'r broses ymgynghori ddechrau, mae rhwng naw a deuddeg mis yn amserlen realistig ar gyfer y broses ffedereiddio.

## Cydweithio

Cydweithio yw pan fo dau gorff llywodraethu neu fwy yn trefnu bod rhai o'u swyddogaethau yn cael eu cyflawni ar y cyd o dan Reoliadau Cydweithio Rhwng Ysgolion a Gynhelir (Cymru) 2008. Mae manteision amlwg i'r trefniant hwn ar gyfer ysgolion sydd wedi'u lleoli naill ai ar yr un safle neu yn yr un gymuned gan ei fod yn eu galluogi i gydweithio ar flaenoriaethau a rennir, cronni arbenigedd, gwneud gwell defnydd o adnoddau ac archwilio ffyrdd o wneud pethau'n fwy effeithiol.

Fodd bynnag, mae yna anfanteision o gadw dwy ysgol ar wahân, mewn ffederasiwn, o gymharu ag un ysgol, gan gynnwys strwythur arwain a staffio llai effeithlon ac effeithiol o gymharu ag un ysgol fwy. Ni all ysgolion o'r fath fanteisio cymaint ar arbedion maint, o gymharu ag un ysgol fwy, neu ysgolion ffederal, ac mae llai o'u hadnoddau ar gael i addysgu a dysgu. Mae mwy o ddyblygu rolau a gwasanaethau mewn dwy ysgol nag mewn un ysgol neu ysgolion ffederal.

Mae ysgolion eisoes yn cydweithio'n anffurfiol gydag ysgolion eraill ar feysydd allweddol fel y Cwricwlwm i Gymru, gweithdrefnau asesu a threfniadau pontio. Fodd bynnag, mae cydweithio ffurfiol dan y rheoliadau yn arwain at benderfyniadau symlach a fydd o fudd i ysgolion ac yn ei gwneud hi'n fwy deniadol cydweithio gan ei fod yn eu galluogi i rannu, meincnodi a datblygu arferion da y gallai ysgolion unigol eu cael yn anodd eu cynnal.

Dyma rai enghreifftiau o'r mathau o faterion y gallai cyrff llywodraethu gydweithio arnynt:

- Codi safonau trwy rannu'r gwaith o gyflwyno'r cwricwlwm, arwain yr ysgol a chymryd camau ar y cyd i fynd i'r afael â materion allweddol fel cynhwysiant.
- Cyfleoedd datblygiad proffesiynol parhaus.
- Cyngor Ysgol a chyfleoedd datblygu disgyblion.
- Trefniadau traws-gyfnod.
- Manteisio ar arbedion maint a rhannu gwasanaethau ar draws yr ysgolion.

Nid oes amserlenni ynghlwm wrth ffurfio cydweithrediad. Gall ysgolion a chyrff llywodraethu sy'n penderfynu ffurfio cydweithrediad wneud hynny drwy gytundeb yn eu cyfarfodydd cyrff llywodraethu. Rhaid i'r cyrff llywodraethu sy'n cydweithio ffurfio cydbwyllgor i oruchwylio'r gwaith ar y cyd. Bydd y cyrff llywodraethu sy'n cydweithio hefyd yn cytuno ar gyfansoddiad, aelodaeth a chylch gorchwyl y cydbwyllgor yn flynyddol, ynghyd ag unrhyw bwerau dirprwyedig.

# Sut byddai'r newidiadau'n effeithio ar safonau yn yr ysgolion?

## Safonau

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo'n glir i barhau i fuddsoddi mewn ysgolion yng Nghaerdydd a'u gwella er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cael y dechrau gorau posibl i'w fywyd.

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynigion gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg, y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen nac unrhyw gyfnod allweddol arall ei addysgu yn unrhyw un o'r ysgolion nac ar ddarpariaeth ADY yn Ysgol Gynradd Allensbank.

## Profiadau dysgu ac addysgu

Mae'r Cyngor yn gweithio'n agos gyda chyrff llywodraethu ysgolion i sicrhau bod y safonau'n uchel, yr addysgu'n dda a'r arweinyddiaeth a'r llywodraethiant yn gryf.

Nid yw'r Cyngor yn disgwyl i'r cynnig hwn gael unrhyw effaith negyddol ar ansawdd safonau addysg nac ar y modd y caiff y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 eu haddysgu.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae gan bob ysgol ystod addas o bolisïau a darpariaeth ar waith i hybu iechyd a lles disgyblion.

Mae ysgolion wedi ymrwymo i feithrin cymuned ysgol lle mae dysgu'n cael ei werthfawrogi a disgyblion yn cyflawni eu potensial mewn amgylchedd hapus a diogel lle maent yn dangos parch a goddefgarwch tuag at eraill.

Byddai'r Cyngor yn gweithio gyda thîm arwain pob ysgol i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn deall eu cyfrifoldeb am helpu i wella a chynnal gofal, cymorth ac arweiniad.

## Arwain a Rheoli

Byddai'r Cyngor yn parhau i weithio gyda thîm arwain pob un o'r ysgolion i sicrhau bod pawb yn yr ysgol yn deall eu cyfrifoldeb dros helpu i wella a chynnal perfformiad uchel. Byddai'n cefnogi'r ysgol i gael perthynas dda gyda rhieni a phartneriaid eraill fel bod disgyblion yn cael addysg o ansawdd uchel.

Byddai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu cynllunio'n ofalus fel na therfir ar arweinwyr ysgol a llywodraethiant, a allai gael effaith negyddol ar ganlyniadau addysgol.

# Beth fyddai'r effaith ar ddarpariaeth ysgol uwchradd?

Cafodd cynnig i ehangu ac ailddatblygu Ysgol Uwchradd Cathays i ateb y galw o fewn ei dalgylch a'r ardal ehangach ei gytuno gan y Cabinet ym mis Hydref 2021 yn amodol ar benderfyniadau pellach gan gynnwys caniatâd y Comisiwn Elusennau mewn perthynas â safle'r Maendy sy'n cael ei ddal mewn ymddiriedolaeth elusennol.

Mae Ysgol Uwchradd Cathays ar hyn o bryd yn gwasanaethu dalgylch sy'n cynnwys dalgylchoedd ysgolion cynradd Ysgol Gynradd Albany, Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone. Mae'r dalgylch hwn yn llai poblog na dalgylchoedd ysgolion eraill yng Nghaerdydd, gyda rhai ohonynt yn ymestyn dros ardal ddaearyddol fwy o lawer, gyda phoblogaethau o ddisgyblion sy'n uwch na'u capasiti presennol neu arfaethedig.

Felly byddai angen ymgynghori ar newidiadau i ddalgylchoedd ysgolion uwchradd cymunedol cyfrwng Saesneg ar yr adeg briodol er mwyn darparu cydbwysedd addas a chynaliadwy yn y cyflenwad o leoedd a'r nifer sy'n manteisio arnynt.

Mae'r galw cyfunol am leoedd ar draws dalgylchoedd y tair ysgol uwchradd Gymraeg ar lefel uchel a gellir ateb y galw o fewn capasiti presennol yr ysgolion.

Bydd cynigion i ymateb i newidiadau yn y galw yn cael eu cyflwyno mewn da bryd i sicrhau bod digon o leoedd i ateb y galw am leoedd cyfrwng Cymraeg.



Canfod mwy yma
www.caerdydd.gov.uk/YsgolionCynraddCathaysaGabalfa

# Sut byddai newidiadau'n effeithio ar ysgolion eraill?

Rhaid i'r cynigion a gyflwynir sicrhau bod twf ysgolion yn gynaliadwy, ac mae'n rhaid lleihau'r effaith negyddol bosibl ar ysgolion eraill.

Byddai disgwyl i'r gwaith o ehangu Ysgol Mynydd Bychan i 2DM alluogi cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn yr ysgol.

Gan y disgwylir i'r boblogaeth gyffredinol o ddisgyblion cynradd ostwng yn y blynyddoedd i ddod, byddai disgwyl i gynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan gyd-ddigwydd â llai o bobl yn manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae Tablau 22 a 23 isod yn nodi sut y gall y newidiadau arfaethedig effeithio ar nifer y disgyblion sydd wedi cofrestru mewn ysgolion lleol.

Tabl 22: Nifer y disgyblion wedi'u cofrestru mewn ysgolion lleol pe bai'r cynigion **yn cael eu gweithredu o fis Medi 2025**

Y ffigyrau ar gyfer 2017/18 i 2021/22 yw'r nifer ddiweddar o ddisgyblion sydd wedi cofrestru. Y ffigyrau ar gyfer 2022/23 i 2026/27 yw'r nifer amcangyfrifedig o ddisgyblion a fydd yn cofrestru.

| Tabl 22: Nifer y disgyblion a ymrestrir mewn ysgolion lleol pe bai'r cynigion yn cael eu gweithredu o fis Medi September 2023 | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer diweddar y disgyblion a ymrestrir | | | | | Nifer y disgyblion a ragwelir y cânt eu hymrestru | | | | |
| **Ysgol** | **2017/ 2018** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** | **2023/ 2024** | **2024/ 2025** | **2025/ 2026** | **2026/ 2027** |
| Ysgol Gynradd Albany | 371 | 365 | 393 | 383 | 378 | 373 | 366 | 359 | 354 | 348 |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 202 | 204 | 185 | 190 | 193 | 195 | 205 | 204 | 200 | 198 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 178 | 167 | 178 | 171 | 173 | 180 | 180 | 187 | 193 | 197 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 129 | 138 | 141 | 126 | 138 | 134 | 139 | 138 | 138 | 141 |
| Ysgol Glan Ceubal | 108 | 136 | 135 | 149 | 151 | 153 | 159 | 167 | 168 | 183 |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 413 | 415 | 396 | 402 | 403 | 408 | 408 | 408 | 402 | 415 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 204 | 198 | 202 | 203 | 203 | 203 | 208 | 206 | 204 | 204 |
| Ysgol Y Wern | 522 | 546 | 570 | 575 | 591 | 593 | 592 | 581 | 573 | 566 |

Pe bai'r newidiadau arfaethedig yn cael eu gweithredu, disgwylir y byddai'r rhan fwyaf o'r disgyblion ychwanegol a gofrestrir yn Ysgol Mynydd Bychan yn dod o fewn ei dalgylch, a gallai rhai fod o ardaloedd eraill o'r ddinas. Mae hyn yn ystyried patrymau dewis ysgol diweddar, a'r gostyngiad cyffredinol yn y boblogaeth a fydd yn mynd i addysg gynradd yn y tair rownd dderbyn nesaf.

Byddai cynnydd yn y nifer sy'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan ar gyfer plant o fewn ei dalgylch yn golygu y byddai nifer y plant yn yr ardal sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Saesneg lleol yn lleihau. Byddai cynnydd yn y nifer fyddai'n manteisio ar leoedd yn Ysgol Mynydd Bychan o'r tu allan i'w dalgylch yn golygu y byddai'r nifer fyddai'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg eraill, mewn rhannau eraill o'r ddinas, yn debygol o leihau.

Tabl 23: Nifer y disgyblion a gofrestrir mewn ysgolion lleol **pe na bai'r cynigion yn cael eu gweithredu**.

Y ffigyrau ar gyfer 2017/18 i 2021/22 yw'r nifer ddiweddar o ddisgyblion sydd wedi cofrestru. Y ffigyrau ar gyfer 2022/23 i 2026/27 yw'r nifer amcangyfrifedig o ddisgyblion a fydd yn cofrestru.

| Tabl 23: Nifer y disgyblion a ymrestrir mewn ysgolion lleol pe na bai'r cynigion yn cael eu gewithredu | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nifer diweddar y disgyblion a ymrestrir | | | | | Nifer y disgyblion a ragwelir y cânt eu hymrestru | | | | |
| **Ysgol** | **2017/ 2018** | **2018/ 2019** | **2019/ 2020** | **2020/ 2021** | **2021/ 2022** | **2022/ 2023** | **2023/ 2024** | **2024/ 2025** | **2025/ 2026** | **2026/ 2027** |
| Ysgol Gynradd Albany | 371 | 365 | 393 | 383 | 378 | 373 | 366 | 359 | 354 | 348 |
| Ysgol Gynradd Allensbank | 202 | 204 | 185 | 190 | 193 | 195 | 205 | 204 | 198 | 190 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | 178 | 167 | 178 | 171 | 173 | 180 | 180 | 187 | 192 | 190 |
| New Primary School | N/a | N/a | N/a | N/a | N/a | N/a | N/a | N/a | 398 | 380 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | 129 | 138 | 141 | 126 | 138 | 134 | 139 | 138 | 138 | 141 |
| Ysgol Glan Ceubal | 108 | 136 | 135 | 149 | 151 | 153 | 159 | 167 | 166 | 179 |
| Ysgol Gymraeg Melin Gruffydd | 413 | 415 | 396 | 402 | 403 | 408 | 408 | 408 | 402 | 415 |
| Ysgol Mynydd Bychan | 204 | 198 | 202 | 203 | 203 | 203 | 208 | 206 | 218 | 225 |
| Ysgol Y Wern | 522 | 546 | 570 | 575 | 591 | 593 | 592 | 581 | 573 | 566 |

# Opsiynau eraill a ystyriwyd

Mae'r nifer presennol o leoedd cynradd cyfrwng Saesneg yn Ysgolion Albany, Allansbank a Gladstone yn ddigon i ddarparu ar gyfer y galw a ragwelir am leoedd yn yr ysgolion hyn ac yn cadw lefel uchel o leoedd gwag i ymateb i unrhyw amrywiad posibl neu gynnydd parhaus yn y galw, a'r lefelau uchel o symudedd disgyblion yn yr ardal.

Nid oes digon o le ar safle presennol Ysgol Mynydd Bychan i ganiatáu ar gyfer ehangiad ar y safle.

Mae'r Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau safle amgen a allai fod ar gael ac sydd mewn lleoliadau canolog yn nalgylch presennol Ysgol Mynydd Bychan. Nid oes safle gwag addas ar gael yn agos at yr ysgol a allai ddarparu ar gyfer ehangu Ysgol Mynydd Bychan.

Mae'r Cyngor wedi diystyru'r posibilrwydd o beidio â gwneud unrhyw newidiadau i'r ddarpariaeth cyfrwng Saesneg gan na fyddai hynny'n gwireddu'r buddion addysg na'r buddion ariannol i'r ysgolion perthnasol, ac ni fyddai'n caniatáu datrysiad lleol i ordanysgrifiad Ysgol Mynydd Bychan.

Yn y gorffennol mae'r Cyngor wedi gwneud defnydd o'r lleoedd gwag yn Ysgol Gynradd Allensbank i letya Swyddogion Cymorth Addysg eraill. Mae'r Cyngor wedi ystyried a fyddai modd defnyddio rhan o safle Allensbank unwaith eto ar gyfer gwasanaethau neu ddarpariaeth arall. Fodd bynnag, ni fyddai hyn yn gwireddu'r manteision addysgol nac ariannol i Ysgol Gynradd Allensbank nac i'r ysgolion eraill. Ni fyddai'n gwrthbwyso'n fawr y costau o gynnal y ddarpariaeth cyfrwng Saesneg bresennol. Ni fyddai'n caniatáu ateb lleol i ordanysgrifiad Ysgol Mynydd Bychan. Mae'r dewis hwn felly wedi'i ddiystyru.

Mae'r Cyngor wedi ystyried lleoli darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica a darpariaeth cyfrwng Saesneg ar safle Allensbank ond mae wedi diystyried yr opsiwn hwn.

Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd yn y ddarpariaeth Saesneg, ar hyn o bryd, wedi'i lledaenu'n eang drwy'r ardal, a cheir llawer o ysgolion Saesneg yn yr ardaloedd ehangach. Mae'r nifer sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd wedi'i ganolbwyntio ar ran ogleddol y dalgylch, yn agos at safle presennol Ysgol Mynydd Bychan a safle Allensbank. Ar hyn o bryd, mae'r pellteroedd teithio i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg amgen yn sylweddol. Mae yna alw mawr hefyd am leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ysgolion cyfagos i'r gogledd o'i dalgylch, gydag ychydig o lefydd gwag ar y cyfan.

Mae lleoli darpariaeth cyfrwng Saesneg ar y safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica, a darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar safle Allensbank yn golygu y caiff lleoedd eu dosbarthu'n fwy priodol ar gyfer rowndiau derbyn cyfredol a'r dyfodol.

Mae'r Cyngor wedi diystyru ad-drefnu'r ddarpariaeth ar safle Ysgol Gynradd Albany. Mae Ysgol Gynradd Albany yn bellach o gyfeiriadau cartref disgyblion sydd wedi cofrestru ar hyn o bryd yn Ysgol Mynydd Bychan, mae ganddi lefel gymharol isel o leoedd gwag yn gyffredinol, sef tua 10%, a defnyddir pob un o'i hystafelloedd dosbarth fel canolfan ddosbarth.

Ar y cyfan, mae digon o gapasiti yn yr ysgolion sy'n gwasanaethu'r ardal ar hyn o bryd i alluogi ad-drefnu'r ddarpariaeth bresennol. Mae ad-drefnu darpariaeth yn ffordd briodol o gydbwyso'r cyflenwad a'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Saesneg a chyfrwng Cymraeg yn yr ardal, a byddai'n ffordd fwy effeithiol ac effeithlon o ddefnyddio adnoddau. Byddai ad-drefnu hefyd yn cadw hyblygrwydd yn yr Ystâd Ysgolion er mwyn ymateb i unrhyw newidiadau yn y boblogaeth sy'n effeithio ar yr ardal yn y dyfodol.

## Trefniadau derbyn

Cynhelir ymgynghoriad ar drefniadau derbyn 2025/2026 ar gyfer ysgolion cymunedol rhwng Hydref 2023 - Gwanwyn 2024 yn unol â gofynion y Cod Derbyn. Byddai'r ymgynghoriad hwn yn cynnwys unrhyw newidiadau arfaethedig yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig.

Mae'r newidiadau arfaethedig yn y Niferoedd Derbyn Cyhoeddedig yn cynnwys:

- Cynnydd yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol Mynydd Bychan, o 30 lle i 60 lle (opsiynau 1, 2 a 3).
- Sefydliad posib ysgol gynradd cyfrwng Saesneg dau ddosbarth mynediad newydd gyda Nifer Derbyn Cyhoeddedig o 60 (opsiwn 1 yn unig).
- Gostyngiad posibl yn y Nifer Derbyn Cyhoeddedig yn Ysgol Gynradd Allensbank, o 30 lle i 27 lle (opsiwn 3 yn unig).

Pe bai'r Cyngor yn bwrw ymlaen ag Opsiwn 1, byddai pob disgybl yn y Dosbarth Derbyn i Flwyddyn 5 ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone ar ddiwedd blwyddyn ysgol 2024/2025 yn cael cyfle i drosglwyddo i gofrestr yr ysgol newydd arfaethedig.

Byddai adolygiad o ddalgylchoedd ysgolion cynradd cymunedol yn cael ei gynnal i ystyried y cydbwysedd rhwng nifer y lleoedd sydd ar gael a'r galw am leoedd a ragwelir a chynnydd yn erbyn targedau'r CSCA. Byddai unrhyw newidiadau arfaethedig i ddalgylchoedd ysgolion yn destun ymgynghoriad ar yr adeg briodol.

Byddai unrhyw newid i drefniadau derbyn Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica sy'n deillio o sefydlu darpariaeth feithrin yn yr ysgol yn destun ymgynghoriad gan Gorff Llywodraethu'r ysgol ar yr adeg briodol.

Mae gwybodaeth fanwl am drefniadau mynediad yn llyfryn Derbyn i Ysgolion y Cyngor a gyhoeddir ar wefan y Cyngor.

## Trefniadau Teithio i Ddysgwyr

Nid oes cynlluniau i newid polisi'r Cyngor ar gludo plant i'r ysgol ac oddi yno. Bydd unrhyw blentyn y bydd y cynnig hwn yn effeithio arno yn cael cynnig yr un cymorth trafnidiaeth ag a gaiff pawb ledled Caerdydd ac yn unol â'r un meini prawf sy'n berthnasol ledled Caerdydd.

Gellir gweld polisi trafnidiaeth y Cyngor ar gyfer plant ysgol ar wefan y Cyngor (www.caerdydd.gov.uk).

Os bydd y cynnig yn cael ei symud ymlaen i'w weithredu, byddai hawl pob disgybl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael ei ailasesu o'r lleoliad newydd.

Mae'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion sydd â datganiadau Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) neu Gynlluniau Datblygu Unigol (CDUau) yn dibynnu ar y pellter cerdded byrraf sydd ar gael o'u cyfeiriad cartref i gât briodol agosaf yr ysgol/lleoliad y ganolfan.

Y meini prawf pellter a ddefnyddir yw bod angen i ddisgyblion o oedran cynradd fyw dwy filltir neu fwy, a disgyblion oedran uwchradd dair milltir neu fwy, o'r ysgol drwy'r pellter cerdded byrraf sydd ar gael i'r gât briodol agosaf.

Ar gyfer disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol mae'r Cyngor hefyd yn ystyried eu:

- hoedran gwybyddol, ac yna'n cymhwyso'r meini prawf pellter perthnasol ar gyfer yr oedran gwybyddol
- unrhyw anableddau a fydd yn effeithio ar eu gallu i gerdded y pellteroedd hyn.

Cynhelir pob asesiad pellter o ran yr hawl i gludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol ar y sail bod rhywun yn mynd gyda'r plentyn ar y llwybr i'r ysgol fel y bo'n briodol. Cyfrifoldeb rhieni neu warcheidwaid plentyn yw trefnu i rywun hebrwng eu plentyn ar hyd y llwybr cerdded i'r ysgol.

## Ariannu'r newidiadau arfaethedig

### Cyllid cyfalaf

Gwahoddodd Llywodraeth Cymru yr holl Awdurdodau Lleol yng Nghymru i gyflwyno ceisiadau am arian grant i gefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.

Llwyddodd y CYngor i sicrhau arian o'r Cynllun Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg gan gynnwys £1.86m i ad-drefnu darpariaeth ysgolion cynradd yng nghanol Caerdydd ac ehangu lleoedd cyfrwng Cymraeg gan 1 dosbarth mynediad (210 o leoedd). Diben y Grant Cyfalaf Cyfrwng Cymraeg yw cefnogi buddsoddiadau cyfalaf sy'n hwyluso twf mewn addysg Gymraeg a'r defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r rhaglen cyllid grant wedi'i hanelu'n benodol at brosiectau cyfalaf a fydd yn cyfrannu'n amlwg at gyflawni nod Llywodraeth Cymru o gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Mae'r arian a ddyrannwyd i'r Cyngor wedi'i glustnodi i gefnogi ehangu'r ddarpariaeth addysg cyfrwng Cymraeg a byddai'n caniatáu ar gyfer buddsoddi mewn adeiladau ysgol i gefnogi nifer uwch o ddysgwyr.

Yn ddiweddar, mae'r Cyngor wedi dyrannu cyllid cyfalaf i fynd i'r afael â gwaith cyflwr ac addasrwydd â blaenoriaeth ar y safle a rennir gan Gladstone a St Monica, ac ar safle Allensbank. Byddai rhagor o arian cyfalaf yn cael ei nodi o adnoddau ariannol y Cyngor i gefnogi adleoli'r ddarpariaeth Saesneg. Byddai hyn yn gwella addasrwydd cyfleusterau i ddarparu ar gyfer y newidiadau i'r ddarpariaeth ac i ddod â budd i ddysgwyr. Byddai'r cyllid gofynnol yn dibynnu ar yr opsiwn sy'n cael ei ddewis.

## Cyllid refeniw

Mae'r fformiwla ariannu ysgolion yn seiliedig ar gyllid fesul disgybl a nifer o gyfandaliadau fesul ysgol. Mae cyllid fesul disgybl yn gyffredinol uwch mewn ysgolion llai oherwydd costau'r pennaeth a chostau sefydlog eraill sy'n cael eu hamsugno gan nifer is o ddisgyblion.

Byddai gostyngiad yn nifer yr ysgolion yng Nghaerdydd felly yn caniatáu ar gyfer lleihau dyraniadau o gyfandaliadau i ysgolion. Byddai'r arian hyn yn cael ei ailddosbarthu i ysgolion drwy'r fformiwla ariannu.

Yn gyffredinol, gall ysgolion mwy o faint hefyd sicrhau gwell gwerth am arian drwy arbedion maint mewn nifer o feysydd gan gynnwys rheoli contractau ac o bosibl yn eu strwythur staffio.

Mae swm y cyllid fesul disgybl yn Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone, Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica ac Ysgol Mynydd Bychan yn uwch na'r cyllid cyfartalog fesul disgybl ar draws 98 ysgol gynradd Caerdydd, sef £3,891 yn 2022/2023.

Mae tabl 24 isod yn nodi sefyllfa gyllidebol yr ysgolion lle cynigir newidiadau.

**Tabl 24**

| Ysgol | Balans a ddygwyd ymlaen Ebrill 2022 | Cyllideb Gymeradwy'r Llywodraethwyr 2022/23 | Rhagamcan cyllideb Ionawr 2023 |
|---|---|---|---|
| Ysgol Gynradd Allensbank | £23,757 | -£132,301 | -£93,000 |
| Ysgol Gynradd Gladstone | £84,651 | 0 | -£60,000 |
| Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica | £41,804 | 0 | -£2,000 |
| Ysgol Mynydd Bychan | £170,220 | £86,286 | £100,000 |

Mae Cyrff Llywodraethol ar hyn o bryd yn gosod cyllidebau ar gyfer 2023/24.

Nid yw cynllun Grant Cyfalaf Llywodraeth Cymru yn darparu unrhyw adnoddau ariannol ychwanegol ar gyfer ailstrwythuro strwythurau staffio ysgolion yr effeithir arnynt gan ad-drefnu'r ddarpariaeth. Y Cyngor fyddai'n talu'r costau hyn.

Byddai ehangu Ysgol Mynydd Bychan yn arwain at gostau staffio ac arwain ychwanegol i'r ysgol fyddai'n cael eu talu o gyllideb yr ysgol. Byddai'r gyllideb yn cynyddu yn unol â'r nifer uwch o ddisgyblion sydd ar y gofrestr.

Gallai'r bwriad i ehangu Ysgol Mynydd Bychan olygu bod yr ysgol yn gweithredu rhai dosbarthiadau llai, neu rai dosbarthiadau oedran cymysg, wrth i'r ysgol dyfu. Mae data dewisiadau derbyn ysgolion yn dangos y byddai nifer y disgyblion sy'n cael eu derbyn i'r ysgol yn cynyddu, ond byddai gan yr ysgol lefel uchel o leoedd gwag am nifer o flynyddoedd. Er y byddai cyllideb yr ysgol yn cynyddu wrth i nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr gynyddu, byddai'r gost fesul disgybl yn debygol o fod yn uwch am gyfnod estynedig tra bo'r ysgol yn tyfu. Wrth i dwf, a buddsoddiad, gael eu cyflwyno'n raddol, byddai effaith ariannol newidiadau yn cael ei lleihau lle bynnag y bo modd.

Pe datblygir cynnig i drosglwyddo Ysgol Gynradd Allensbank i'r safle a rennir gan Ysgol Gynradd Gladstone/Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru y Santes Monica, neu i safle Ysgol Mynydd Bychan, gallai'r Dosbarth Ymyrraeth Lleferydd ac Iaith gael ei adleoli. Byddai'r gyllideb ddirprwyedig ar gyfer y dosbarth hwn yn cael ei throsglwyddo i ysgol letyol arall.

Dylid nodi bod nifer y disgyblion sydd ar y gofrestr yn Ysgol Gynradd Allensbank ac Ysgol Gynradd Gladstone wedi gostwng yn ystod y blynyddoedd diwethaf, gan gyd-fynd â'r niferoedd is sy'n cael eu derbyn i addysg gynradd ledled y ddinas, y rhagwelir iddo barhau tan o leiaf 2025/2026. Yn y cyd-destun hwn, gall nifer y staff sy'n cael eu cyflogi gan ysgolion leihau, p'un a gaiff unrhyw gynigion i ad-drefnu'r ddarpariaeth eu datblygu ai peidio.

Gellir gweld gwybodaeth ariannol sy'n benodol i bob opsiwn yn adran opsiynau'r ddogfen hon.

# Effaith y cynigion ar y Gymraeg

Byddai effaith gadarnhaol ar yr iaith Gymraeg gyda chynnydd yn nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael ar gyfer yr oedran cynradd.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg (CSCA) y Cyngor yn nodi cyfres o ymrwymiadau uchelgeisiol i adeiladu ar y cynnydd a wnaed hyd yma. Mae'r CSCA yn ymrwymo'r Cyngor i sicrhau capasiti ledled y ddinas yn y sector cyfrwng Cymraeg cynradd ar 10% uwchlaw'r nifer a ragamcenir ar oedran Derbyn i gefnogi twf a chaniatáu derbyn yn ystod y flwyddyn a hyblygrwydd ar gyfer pontio. Mae hyn yn cynnwys darparu capasiti cyfrwng Cymraeg newydd ar y lefel gynradd erbyn 2025/2026.

Mae'r cynigion yn ceisio bod yn gyson â Strategaeth Caerdydd Ddwyieithog ac yn cefnogi'n gryf strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg drwy gyfrannu at gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050.

Mae'r cynigion yn ymateb yn uniongyrchol i'r Deilliannau CSCA canlynol:

- Deilliant 1 - Mwy o blant meithrin/plant tair oed yn cael eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.
- Deilliant 2 - Mwy o blant dosbarth derbyn / plant pump oed yn derbyn eu haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae ysgolion yn gwasanaethu ystod amrywiol o gymunedau ac yn adlewyrchu eu poblogaeth leol i raddau helaeth, ond cydnabyddir bod yr ysgolion cyfrwng Cymraeg ar hyn o bryd yn llai amrywiol nag ysgolion cyfrwng Saesneg. Mae targedau a ffrydiau gwaith o fewn CSCA mabwysiedig Caerdydd yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Byddai'r cynigion yn cael mwy o effaith ar y boblogaeth sy'n agosach at yr ysgol nag ar y ddinas yn ei chyfanrwydd.

Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu addysg cyfrwng Cymraeg ac fel rhan o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 10 mlynedd, a fabwysiadwyd ym mis Medi 2022, rhoddir ystyriaeth i ffyrdd y gellir ehangu addysg cyfrwng Cymraeg i gynyddu nifer y plant o bob cefndir sy'n mynychu.

Mae'r Cyngor yn parhau i weithio'n agos ac yn adeiladol gyda phartneriaid ar ei Fforwm Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o'r sectorau meithrin, cynradd, uwchradd ac addysg bellach, gofal plant, RhAG a Llywodraeth Cymru. Mae'r Fforwm hwn yn cyflwyno gwybodaeth ar gyfer cynllunio lleoedd cyfrwng Cymraeg, er mwyn parhau i yrru cynllun y Cyngor i gynyddu mewn modd cynaliadwy nifer y dysgwyr mewn ysgolion Cymraeg a'r rhai sy'n dysgu Cymraeg mewn ysgolion cyfrwng Saesneg.

Mae'r Cyngor, a'i bartneriaid ar y Fforwm Addysg Gymraeg, yn ymrwymo i sbarduno cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n cael eu haddysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, i gyflawni'r targedau yn CSCA Caerdydd, ac i gyflawni'r targedau a nodir yn strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae'r Cyngor yn parhau i fonitro cyfraddau genedigaethau, y boblogaeth sy'n debygol o ddeillio o dai newydd a'r patrymau o ran nifer y plant sy'n mynd i ba ysgolion cynradd ac uwchradd Cymraeg, er mwyn rhoi cynlluniau priodol ar waith i fodloni unrhyw gynnydd yn y galw.

Felly, mae'n rhaid i'r Cyngor ehangu'r ddarpariaeth ysgolion mewn modd strategol ac amserol nad yw'n amharu ar y ddarpariaeth bresennol. Mae'n anochel y byddai darpariaeth gynradd cyfrwng Cymraeg sy'n ehangu'n sylweddol neu'n gyflym yn cael effaith ar y nifer sy'n manteisio ar leoedd mewn ysgolion eraill ac, yn ei thro, ar allu ysgolion i gydbwyso cyllidebau ac i ddenu neu gadw staff.

Mae dyheadau'r Cyngor ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, a Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru, yn cynnig newid sylweddol. Mae Cymraeg 2050 yn gosod targedau cenedlaethol i addysgu 40% o ddysgwyr mewn ysgolion Cymraeg, a 30% arall o ddysgwyr mewn ysgolion Saesneg lle deuent yn rhugl yn y Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae tua 17% o blant Caerdydd sy'n dechrau addysg gynradd yn cael eu haddysgu mewn ysgolion neu ddosbarthiadau Cymraeg.

Mae'r cynnig hwn yn ceisio cynyddu nifer y lleoedd cynradd Cymraeg sydd ar gael yn yr ardal, ac yn ceisio gweithredu'r newid yn y fath fodd fel y cyfyngir ar y potensial i gael effaith negyddol ar ysgolion sy'n bodoli eisoes.

Mae perygl y gall darparu lleoedd ychwanegol mewn ysgol gynradd cyfrwng Cymraeg atal y twf mewn ysgolion lleol eraill; fodd bynnag, mae CSCA Caerdydd yn nodi ymrwymiad i ddatblygu a gweithredu gwaith hyrwyddo wedi'i dargedu ar y cyd â Chaerdydd Ddwyieithog i gynyddu'r niferoedd sy'n manteisio ar leoedd cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle mae galw isel.

## Cydraddoldeb

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod dyletswydd ar y gwasanaethau cyhoeddus i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng personau sy'n rhannu nodwedd warchodedig berthnasol a phersonau nad ydynt yn ei rhannu.

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EAG) yn broses sy'n edrych ar bolisi, prosiect neu gynllun i wneud yn siŵr nad yw'n gwahaniaethu yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion gwarchodedig a nodwyd yn Neddf Cydraddoldeb 2010 (oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd/cred, rhyw, cyfeiriadedd rhywiol).

Mae Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb cychwynnol wedi'i wneud ac mae ar gael i'w weld yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa

Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynigion yn eu blaen.

## Effaith Gymunedol

Mae'r rhan hon o'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned yn asesu'r effaith bosibl y gallai'r cynnig hwn ei chael ar y gymuned leol. Wrth ystyried y potensial ar gyfer effaith ar y gymuned ehangach yn sgil y cynnig, ystyrir y canlynol: Man Agored Cyhoeddus, tir parc, y modd y defnyddir cyfleusterau'r ysgol ar hyn o bryd gan y gymuned, sŵn a thagfeydd traffig. Bydd swyddogion yn gweithio gydag ysgolion ac unrhyw grŵp cymunedol i wneud yn siŵr bod y cynnig yn osgoi effaith negyddol os yw hynny'n bosibl.

Mae'r ysgolion y gallai'r cynigion effeithio arnynt yn ysgolion sy'n bodoli eisoes. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar ôl ysgol ac mae gan rai sefydliadau cymunedol sy'n cynnig gwasanaethau o'r ysgol. Ni chredir y byddai effaith negyddol ar unrhyw un o'r gweithgareddau hyn o ganlyniad i'r cynigion hyn.

Mae Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned cychwynnol wedi'i wneud ac mae ar gael i'w weld yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa

Caiff yr asesiad ei adolygu a'i ddiweddaru ar ôl yr ymgynghoriad, ac ar adegau allweddol os aiff y cynigion yn eu blaen.

## Tarfu Posibl i Ddisgyblion

Mae gan y Cyngor brofiad sylweddol o gyflawni prosiectau adeiladu ac adnewyddu yn llwyddiannus ar safleoedd ysgolion a feddiannir o ganlyniad i ddatblygu rhaglen trefniadaeth ysgolion fawr a chynyddol a rhaglen adnewyddu asedau fawr.

Os symudir ymlaen â'r newidiadau arfaethedig, byddai swyddog arweiniol prosiect yn cael ei neilltuo i weithio gyda'r cyrff llywodraethu perthnasol i oruchwylio'r gwaith o ddatblygu rhaglen fuddsoddi fanwl. Byddai'r rhaglen hon yn cynnwys y gwaith arfaethedig, trefniadau pontio, iechyd a lles disgyblion a staff ac amserlenni'r ffrydiau gwaith hyn.

Lle bynnag y bo'n bosibl, byddai gwaith adeiladu ac adnewyddu a allai achosi mwy o darfu yn digwydd yn ystod y gwyliau ysgol er mwyn lleihau unrhyw effaith bosib ar addysgu a dysgu.

Byddai'r gwaith o ehangu Ysgol Mynydd Bychan ar safle Allensbank yn cael ei gyflwyno'n raddol o fis Medi 2025. Byddai hyn yn golygu nad oes angen i'r ysgol ddefnyddio ei holl lety yn 2025/2026 a gallai ganiatáu i rannau o'r ddau adeilad gael eu cau i'r staff tra bod gwaith yn cael ei wneud.

Fel rhan o'r ymgynghoriad ceisir barn disgyblion yr ysgolion a bydd unrhyw faterion sy'n cael eu codi yn llywio unrhyw gynlluniau gwaith yn y dyfodol.

# Camau nesaf, sut gallwch fynegi eich barn a'r ffurflen adborth

## Beth sy'n digwydd nesaf?

### Dyddiadau Allweddol

Bydd y Cyngor yn casglu ac yn crynhoi'r adborth a ddaw o'r ymgynghoriad hwn. Yna bydd swyddogion y Cyngor yn adrodd hyn i Gabinet y Cyngor ac i Gorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica. Bydd yr adroddiadau ar yr ymgynghori ar gael i unrhyw un eu gweld/lawrlwytho ar wefan y Cyngor / yr ysgol.  Cewch hefyd gopi trwy ddefnyddio'r manylion cyswllt yn y ddogfen hon.

Os yn dilyn yr ymgynghoriad y cytunir fod y cynigion yn mynd yn eu blaenau, mae nifer o gamau pellach y bydd yn rhaid i'r Cyngor ac Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica eu cymryd cyn y gwneir penderfyniad terfynol.

Nodir y camau hyn yn Nhabl 25 isod:

**Tabl 25:  Camau pellach**

(Gallai'r amserlen hon newid)

| Proses Statudol | Amserlen |
|---|---|
| Cyfnod Ymgynghori | 03 Mai 2023 - 30 Mehefin 2023 |
| Cabinet y Cyngor / Corff Llywodraethu yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor / ysgol | Gorffennaf/Medi 2023 |
| Dyddiad cychwyn a ddisgwylir ar gyfer y Cyfnod Gwrthwynebu, ar ôl cyflwyno'r hysbysiad statudol (pan ellir gwneud gwrthwynebiadau ffurfiol) | Medi/Hydref 2023 |
| Dyddiad y disgwylir i'r Cyfnod Gwrthwynebu ddod i ben | Hydref/Tachwedd 2023 |
| Y penderfyniad terfynol gan Gabinet y Cyngor / Corff Llywodraethu | Rhagfyr 2023/Ionawr 2024 |
| Cyhoeddi'r adroddiad gwrthwynebiadau ar wefan y Cyngor ynghyd â hysbysiad o benderfyniad y Cabinet | Rhagfyr 2023/Ionawr 2024 |

# Cyfnod ymgynghori

Mae'r cyfnod ymgynghori ar gyfer y cynigion hyn yn dechrau ar 03 Mai 2023 ac yn dod i ben ar 30 Mehefin 2023.

Gweler tudalen 10/83 am ragor o fanylion am sut i ymateb a mynegi eich barn.

Bydd y Cyngor a Chorff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn cyhoeddi adroddiad ymgynghori ar eu gwefannau. Rhaid cyhoeddi'r adroddiad o leiaf bythefnos cyn cyhoeddi hysbysiad statudol.

**Gallwch ofyn hefyd am gopi caled o'r adroddiad.**

Bydd yr adroddiad yn mynd dros y materion a godwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn rhoi ymateb y Cyngor, ac ymateb Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica i'r materion hyn. Bydd yr adroddiad hefyd yn cynnwys barn Estyn ar y cynigion.

Bydd Cabinet y Cyngor yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan.

Bydd Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn ystyried yr adroddiad ymgynghori ac yn penderfynu a ddylid bwrw ymlaen â'r newidiadau arfaethedig i'w hysgol.

Os bydd y Cabinet yn penderfynu parhau â'r newidiadau i Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan, rhaid i'r Cyngor gyhoeddi dogfen o'r enw 'hysbysiad statudol'. Datganiad swyddogol yw hwn sy'n dweud y bydd y newidiadau'n mynd rhagddynt.

Os yw Corff Llywodraethu Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica yn penderfynu parhau, rhaid iddyn nhw hefyd gyhoeddi 'rhybudd statudol'.

## Hysbysiad Statudol

Hysbysiad Statudol yw'r cyhoeddiad swyddogol ar gynnig terfynol. Rhaid i Gabinet y Cyngor / Corff Llywodraethu gymeradwyo cyhoeddi hysbysiad statudol. Byddai hyn ond yn cael ei ystyried wedi i adroddiad ar yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad ddod i law'r Cabinet / Corff Llywodraethu. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018.

Byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r hysbysiad(au) statudol hwn ar ei wefan. Byddai'r Corff Llywodraethol yn cyhoeddi'r hysbysiad ar wefannau'r ysgol a Chyngor Caerdydd. Byddai copïau o'r hysbysiad hefyd yn cael eu rhoi ar neu ger prif fynedfa'r ysgol(ion)/safle(oedd) y mae'r hysbysiad yn effeithio arnynt.

Rhoddir copïau o'r hysbysiad i ysgolion yr effeithir arnynt hefyd, i'w dosbarthu i ddisgyblion, rhieni, gwarcheidwaid ac aelodau staff (gall yr ysgolion hefyd anfon yr hysbysiad drwy e-bost). Mae'r hysbysiad statudol yn nodi manylion y cynigion ac yn gofyn i unrhyw un sydd am wrthwynebu wneud hynny. Rhaid i wrthwynebiadau fod yn ysgrifenedig. Rhaid eu hanfon i'r Cyngor / Corff Llywodraethu o fewn y dyddiadau a nodir ar yr hysbysiad.

## Penderfynu ar y cynigion

Cabinet Cyngor Caerdydd fyddai'n penderfynu ar y cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd Allensbank, Ysgol Gynradd Gladstone ac Ysgol Mynydd Bychan. Mae hyn yn golygu y bydd yn gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a fydd y newidiadau yn mynd yn eu blaen. Gall y Cabinet benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynnig, neu ei gymeradwyo â rhai newidiadau (addasiadau). Bydd y Cyngor yn ystyried unrhyw wrthwynebiad a ddaeth i law yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu wrth wneud ei benderfyniad.

Os nad oes gwrthwynebiad i'r cynnig ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, y Corff Llywodraethol fyddai'n penderfynu'r cynnig. Gallai'r Corff Llywodraethu benderfynu cymeradwyo neu wrthod y cynigion gydag addasiadau.

Pe bai gwrthwynebiadau i'r cynigion ar gyfer Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Santes Monica, byddai'r cynigion yn cael eu cyfeirio at yr Awdurdod Lleol (Cyngor Caerdydd) i'w penderfynu o fewn 35 diwrnod i ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu. Mae hwn yn ofyniad cyfreithiol fel sydd wedi ei amlinellu yn y Cod Trefniadaeth Ysgolion 2018. Mae gan yr Awdurdod Lleol 16 wythnos o ddiwedd y cyfnod gwrthwynebu i benderfynu ar y cynigion.

## Hysbysiad o'r Penderfyniad

Ar ôl penderfynu ar y cynigion, byddai partïon â diddordeb yn cael gwybod am y penderfyniad.  Caiff y penderfyniad ei gyhoeddi hefyd ar wefan y Cyngor a'r ysgol.

## Mae eich barn yn bwysig i ni

Mae eich barn yn bwysig ac rydym yn awyddus i chi ddweud wrthym beth rydych yn ei feddwl am y newidiadau rydym wedi eu hawgrymu yn y ddogfen.

Gallwch wneud hyn drwy:

- fynychu cyfarfod cyhoeddus neu sesiwn alw heibio.  Os hoffech fynychu sesiwn ar-lein / cyfarfod cyhoeddus ar-lein, cysylltwch â ni trwy e-bost: ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk gan gadarnhau pa sesiwn yr hoffech ei mynychu ac fe anfonwn ddolen atoch a chyfarwyddiadau am sut y gallwch gael mynediad i'r cyfarfod.

- cwblhau'r ffurflen ymateb electronig sydd i'w chael yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa

- argraffu a llenwi'r ffurflen ymateb i'r ymgynghoriad, y gallwch ddod o hyd iddi yn www.caerdydd.gov.uk/YsgolionGynraddCathaysGabalfa a dychwelyd y ffurflen drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW

- ysgrifennu at y tîm Cynllunio Trefniadaeth Ysgolion drwy e-bost ymatebionysgolion@caerdydd.gov.uk neu drwy'r post i Ystafell 401, Neuadd y Sir, Caerdydd, CF10 4UW.  Gall hyn gynnwys gofyn i swyddog ffonio'n ôl os oes gennych gwestiwn penodol y teimlwch yr hoffech gael rhagor o wybodaeth amdano.

Nodwch fod rhaid i bob gohebiaeth ysgrifenedig neu drwy e-bost gynnwys enw llawn a chyfeiriad llawn y person sy'n cyflwyno'r sylwadau.

**Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ymatebion i'r ymgynghoriad hwn yw Dydd Gwener 30 Mehefin 2023.**

Yn anffodus, ni fyddwn yn gallu ystyried unrhyw ymatebion i'r ymgynghoriad a dderbynnir ar ôl y dyddiad hwn.